







Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Teithio gan Ddysgwyr

## Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol

Mehefin 2014



ISBN: 978-1-4734-1605-5
© Hawlfraint y Goron 2014
21925

## CYNNWYS

**Page No**


**Rhan 1: Darpariaethau Statudol** **1 - 63**

Crynodeb 1

**Pennod 1: Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** **2**

Trosolwg 2

Asesu Anghenion 4

Hawliau 6

Gwneud Trefniadau Teithio Addas 7

Gwneud Trefniadau teithio Eraill 8

Ysgol Addas Agosaf 9

Derbyn Dysgwyr i Mewn i Ysgol 10

Ffafriaeth gan Rieni 10

Dewis y Plentyn 10

Presenoldeb Disgyblion yn yr Ysgol 11

Plant sy'n Derbyn Gofal 11

Cartref Arferol 12

Preswyliad Deuol 12

Pellteroedd Cerdded a Llwybrau Cerdded Sydd Ar Gael 13

Trafnidiaeth i Ddysgwyr Nad Ydynt Mewn Addysg neu Hyfforddiant Gorfodol 14

Addysg Cyfrwng Cymraeg/Cyfrwng Saesneg 15

Trafnidiaeth i Ysgolion Enwadol 16

Anghenion Addysgol Arbennig, Anableddau ac Anawsterau Dysgu 17

Trefniadau Cludiant yn ôl Disgresiwn 19

Trefniadau Datgelu a Gwahardd 21

Safonau Cerbydau 23

Trwyddedu a Hyfforddi Gyrwyr Bysus 23

Newidiadau mewn Amserau Sesiynau ysgol 24

Codi Tâl am Drafnidiaeth 26

Pwerau Cyffredinol 26

Ystyriaethau Cyffredinol Eraill 27

**Pennod 2: Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan. 31**

Trosolwg 31

Gorfodi'r Cod Teithio – Sancsiynau 32

Cyhoeddi Codau Teithio Awdurdodau Lleol 34

**Pennod 3: Y Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 36**

Cyhoeddi Gwybodaeth a Pholisïau Trafnidiaeth Ysgol i Rieni 36

**Pennod 4: Y Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 38**

Trosolwg 38

Darparu Gwregysau Diogelwch 39

Deddfwriaeth yn Llywodraeth Ddarpariaeth Gwregysau cyn 1 Hydref 2014 39

Deddfwriaeth yn Lywodraeth Ddarpariaeth Gwregysau Diogelwch ar ôl 1 Hydref 2014 39

Gwisgo Gwregysau Diogewch 40

Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd 41

Sancsiynau Troseddol 41

Atebolrwydd rhai sy'n darparu neu'n sicrhau trafnidiaeth i ddysgwyr – Pwy fydd yn cael ei erlyn? 41

**Pennod 5: Asesiad Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol 43**

Troslowg 43

Rhan 1: Y Weithdrefn Asesu Risg o Ran Risgiau Ffisegol/Traffig 43

Cyflwr y Llwybr 43

Traffig 44
Llif y Traffig ar Ffyrdd 44
Hanes o Wrthdrawiadau 45
Llwybrau Troed 46
Mannau Croesi 46
Camlesi, Afonydd, Ffosydd ac Argloddiau 47
Golau 48
Newidiadau Arfaethedig yn yr Ardal 48
Croesfannau Rheilffordd 48

Rhan 2: Gweithdrefn Asesu Risg o ran Peryglon Cymdeithasol 49

Natur Perygl Cymdeithasol 49
Mynd i'r Afael â Pheryglon Cymdeithasol mewn Asesiadau Risg - Gweithio gyda Phartneriaid 49
Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) 50

Rhan 3: Gofyn am Safbwyntiau Dysgwyr 51

Rhan 4: Helpu i Sicrhau Diogelwch Plant ar y Llwybr i'r Ysgol 53

Rhan 5: Mecaneg y Broses ar gyfer Asesu Risg 53

Rhan 6: Swyddogaethau a Chyfrfoldebau 54

Rhieni 54
Penaethiad 54
Awdurdodau Lleol 55
Cyfrfoldebau Iechyd a Diogelwch Sefydliadau Addysgol 55
Cyfrfoldeb: Ysgolion, Awdurdodau Lleol (AALlau) Cyrff Llywodraethu 56

**Pennod 6: Cyfrifoldebau Rhieni 58**

Trosolwg 58
Hawl Dysgwyr I gael Darpariaeth Drafnidiaeth am Ddim 58
Ysgol Addas Agosaf 58
Dewis gan Rieni 59

Cod Ymddygiad wrth Deithio 59
Preswyliad Deuol 60
Plant sy'n cael eu Hebrwng 60

**Pennod 7: Cyfrifoldebau Ysgolion 61**
Trosolwg 61
Polisi Ymddygiad mewn Ysgolion a'r Cod Ymddygiad wrth Deithio 61
Digwyddiadau a Ymchwlir gan Sefydliadau Addysgol 62
Derbyn i'r Ysgol 62
Gwregysau Diogelwch ar Drafnidiaeth Benodedig i Ddysgwyr 62

**Adran 2: Geirfa 64 - 70**

**Adran 3: Canllaw Cynghori 71 – 94**
Cwestiynau Cyffredin: 71

**Atodiad 1:** Matrics Asesu Risg 95
**Atodiad 2:** Rhestr Wirio Asesu Risg Awdurdodau Lleol 97
**Atodiad 3:** Dolenni gwe Cysylltiedig 98
Awdurdod Lleol 98
Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc 100
Arfer Gorau ac Astudiaethau Achos 101
Cynlluniau Teithio i'r Ysgol 102

## Adran 1: Darpariaethau Statudol.

## Crynodeb

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[1] fel sail ar gyfer yr holl waith llunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn 2011, pasiodd Gweinidogion Cymru Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2] sy'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i ofynion y Confensiwn wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Mae diogelwch plant yn hollbwysig ac mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008[3] ("Mesur 2008") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu addasrwydd teithio i ddysgwyr[4] rhwng y cartref a lleoliadau addysg a hyfforddiant.

Mae hefyd yn bwysig canfod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Gall safbwyntiau a thybiaethau plant hysbysu swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu'r ddarpariaeth deithio o'r cartref i'r ysgol. Gall gweithio ar y cyd â phartneriaid fel cyrff llywodraethu, penaethiaid, ysgolion, Byrddau Lleol Diogelu Plant, gweithredwyr, rhieni ac asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth ac arfer gorau gynorthwyo'r broses o ddiogelu plant sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd, ond nid yw llawer o'r ddeddfwriaeth wedi ei hysgrifennu i adlewyrchu'r model hwn. O'r herwydd, mae'r ddogfen hon yn cynnwys terminoleg nad yw'n ymwneud â'r model cymdeithasol.

[1] https://www.gov.uk/government/policies/creating-a-fairer-and-more-equal-society/supporting-pages/the-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc
[2] 2011 nawm 2. http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
[3] 2008 nawm 2. http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/contents
[4] Rhoddir diffiniad o 'ddysgwr' yn yr eirfa (Adran 2).

## Adran 1: Darpariaethau Statudol.

## Pennod 1: Y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

### Trosolwg

1.1 Mae'r Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod y gyfraith yng Nghymru a Lloegr ar gyfer **presenoldeb** disgyblion yn yr ysgol ac mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) ('y Mesur') yn gosod y fframwaith cyfreithiol yn benodol mewn perthynas â darpariaethau **teithio a thrafnidiaeth** ar gyfer dysgwyr[5] yn teithio o'r cartref i'r ysgol[6] yng Nghymru.

1.2 Cyhoeddir y Canllaw Statudol hwn ("y Canllaw") gan Weinidogion Cymru dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

1.3 Dan adran 15 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno canllawiau statudol. Pan fo canllawiau'n statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau a byddant ond yn gallu peidio â chydymffurfio â chanllawiau o'r fath pan allant ddarparu cyfiawnhad dros wneud hynny.

1.4 Nid oes gan y Canllaw hwn unrhyw awdurdod o safbwynt materion o ddehongli cyfreithiol. Os ymddengys y bydd gwahaniaethau rhwng y Mesur a'r Canllaw, y Mesur fydd yn cael y flaenoriaeth bob tro.

1.5 Os dywed y Canllaw bod yn **rhaid** gwneud rhywbeth, golyga hyn ei bod hi'n ofynnol drwy brif ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth eilradd ac mae troednodyn yn rhoi'r ddarpariaeth briodol.

1.6 Mae Adran 1 o'r Canllaw hwn yn amlinellu'r darpariaethau statudol, y dyletswyddau penodol a chyfrifoldebau allweddol ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir, penaethiaid ysgol,

[5] Rhoddir ddiffiniad o 'ddysgwr' yn yr eirfa (Adran 2).

[6] Er diben y ddogfen hon mae gan y term 'ysgol' yr un ystyr â'r term "lleoedd perthnasol" a ddiffinir yn Adran 1(4) o'r Mesur. Rhoddir diffiniad o 'leoedd perthnasol' yn yr eirfa (Adran 2)

dysgwyr, rhieni ac unrhyw gorff perthnasol arall fel sy'n briodol.

1.7 Mae'r Mesur yn gosod gofynion penodol ar gyfer trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru. Y prif ddarpariaethau yn hyn o beth yw :-

1.8 Dyletswyddau Cyfreithiol Gweinidogion Cymru.

**Rhaid** i Weinidogion Cymru:

- Greu Cod Ymddygiad Cymru Gyfan wrth Deithio ('Cod Teithio[7]')
- Hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant trwy Gyfrwng y Gymraeg[8]
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio[9]
- Gall Gweinidogion Cymru gynnig cyfarwyddiadau a/neu roi canllawiau statudol[10]

1.9 Dyletswyddau cyfreithiol yr awdurdod lleol

**Rhaid** i awdurdodau lleol[11]:

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal eu hawdurdod lleol[12]
- Darparu trafnidiaeth rad ac am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr o oed ysgol gofynnol sy'n mynychu ysgolion cynradd sy'n byw mwy na 2 filltir o'r ysgol addas agosaf[13]
- Darparu trafnidiaeth rad ac am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr o oed ysgol gofynnol sy'n mynychu ysgolion uwchradd sy'n byw mwy na 3 milltir o'r ysgol addas[14]
- Asesu a chwrdd ag anghenion plant "sy'n derbyn gofal" [15] yn ardal eu hawdurdod lleol[16]

---

[7] Adran 12 o'r Mesur
[8] Adran 10 o'r Mesur
[9] Adran 11 o'r Mesur
[10] Adran 15 o'r Mesur
[11] Mae awdurdod lleol yn golygu'r holl adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod ac nid yw wedi ei gyfyngu i dimau teithio gan ddysgwyr
[12] Adran 2 o'r Mesur
[13] Adran 3 o'r Mesur
[14] Adran 3 o'r Mesur
[15] Rhoddir diffiniad o blant 'sy'n derbyn gofal' ym Mhennod 1, paragraff 1.49

- Hyrwyddo mynediad at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg[17]
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio[18]

Dan adran 32 o Ddeddf Addysg 2002[19] (a ddiwygiwyd gan adran 21 o'r Mesur), mae gan awdurdodau lleol y grym i newid amseroedd sesiynau ysgolion[20], **os ystyrir bod y newid yn angenrheidiol neu'n hwylus ar gyfer hyrwyddo dulliau eraill o deithio cynaliadwy, neu i wneud trefniadau teithio'n fwy effeithiol neu effeithlon[21]**. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau sy'n gosod y weithdrefn briodol.[22]

Ble nad yw dysgwyr yn gymwys i gael trafnidiaeth rad ac am ddim, mae gan awdurdodau lleol y grym i ddarparu trafnidiaeth yn ôl disgresiwn eu hunain[23].

1.10 Dyletswyddau Cyfreithiol Penaethiaid Ysgol

**Rhaid** iddynt:

- Sicrhau cydymffurfiad â'r Cod Teithio[24]

  Dylai Penaethiaid hefyd:

- Hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Cod Teithio[25]
- Cynnwys y Cod Teithio ym mholisi ymddygiad cyffredin yr ysgol[26]

---

16 Adran 2 a 3 o Fesur 2008
17 Adran 10 o'r Mesur
18 Adran 11 o'r Mesur
19 2002 c.32. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/32
20 Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion sylfaen, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sylfaen arbennig.
21. Gall newidiadau gael eu gwneud os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf yn unig
22 Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/572). http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=119939&ds=4/2009
23 Adran 6 o'r Mesur
24 Mae Adran 89(2A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn nodi bod yn rhaid i bennaeth ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio wrth bennu polisi ymddygiad ar gyfer ysgol. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/89
25 http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/travelcode/?skip=1&lang=cy
26 Adran 89 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/89

## Asesu Anghenion

1.11 Mae adran 2 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed ond a ddechreuodd ar gwrs cyn yr oed hwn ac yn parhau i fynychu'r cwrs hwnnw gan barhau i dderbyn addysg neu hyfforddiant ac sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol perthnasol[27].

1.12 Nid yw asesu anghenion teithio dysgwyr yn golygu darparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim. Bydd dysgwyr yn gymwys am drafnidiaeth rad ac am ddim os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir ym Mhennod 1 paragraffau 1.21-1.26 a 1.51 o'r ddogfen hon.

1.13 Anghenion teithio dysgwyr yw anghenion penodol dysgwyr mewn perthynas â threfniadau teithio rhwng y cartref a'r ysgol yn ddyddiol. Mae'r dysgwyr hynny sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion teithio gan yr awdurdod lleol hefyd yn cynnwys y rhai sydd â'u hysgol addas agosaf wedi ei lleoli mewn ardal awdurdod lleol arall.

1.14 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol, wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, ystyried:-

- Pwy yw'r dysgwyr yn eu hardal
- Pa ysgolion y mae'r dysgwyr hynny yn eu mynychu neu ar fin eu mynychu
- Pa ddysgwyr sydd yn rhaid darparu trafnidiaeth ar eu cyfer yn gyfreithiol dan Adrannau 3 a 4 o'r Mesur
- Pa ddysgwyr yr hoffai'r awdurdod lleol ddarparu trafnidiaeth ar eu cyfer ar sail disgresiwn dan Adran 6 o'r Mesur
- Pa drefniadau eraill sy'n bodoli eisoes neu a fydd yn bodoli ar gyfer y rhai na ddarperir trafnidiaeth ar eu cyfer (e.e. a yw'r coleg addysg bellach yn darparu trafnidiaeth i'r rhai 16-18 oed?)

[27] Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr 5 oed a rhai 16-19 oed, ond nid oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i ddarparu trefniadau trafnidiaeth rhad ac am ddim i ddysgwyr meithrin nag ôl-16.

1.15 Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol hefyd fod yn ymwybodol o:-

- Anghenion dysgwyr anabl[28] a dysgwyr gydag anawsterau dysgu[29]
- Unrhyw anghenion penodol dysgwyr sy'n 'derbyn gofal' neu a oedd yn cael eu gofalu'n flaenorol gan awdurdod lleol[30]
- Oed y dysgwr
- Natur y llwybr y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliadau lle y cynhelir yr addysg neu'r hyfforddiant ar eu cyfer

1.16 Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, rhaid i awdurdodau lleol[31] ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wnânt yn sgil yr asesiad achosi unrhyw lefelau afresymol o straen, na ddylai'r daith gymryd cyfnod afresymol o amser a rhaid i'r daith honno fod yn ddiogel.

1.17 Bydd yr asesiad yn rhoi trosolwg i'r awdurdod lleol o anghenion teithio'r dysgwyr yn eu hardal. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn modd effeithiol ac effeithlon a'u galluogi i ddarparu gwybodaeth i eraill ynglŷn â'r trefniadau teithio sydd ar gael. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio[32] wrth iddynt roi eu swyddogaethau ar waith dan y Mesur cyn belled â phosibl yn ymarferol.

1.18 Dylai'r asesiad ystyried y daith o gartref y dysgwr i'r ysgol addas agosaf yn unig ac nid anghenion teithio'r dysgwr yn ystod y dydd rhwng gwahanol leoliadau addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys:

- Teithiau preswyl neu deithiau diwrnod a drefnir gan ysgolion
- Teithio rhwng ysgolion neu wahanol safleoedd yn perthyn i'r un ysgol (h.y. teithio a wneir gan ddysgwyr yn ysgol

[28] Adran 24(1) o'r Mesur. Gellir cymryd y diffiniad o anabledd o'r hyn a roddir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a eglurir yn yr eirfa (gweler Adran 2)
[29] Adran 24(1) o'r Mesur
[30] Rhoddir diffiniad statudol o blant 'sy'n derbyn gofal' yn adran 22(1) Deddf Plant 1989 a'i roi ym Mhennod 1 paragraff 1.49.
[31] Adrannau 3(5) (trefniadau trafnidiaeth) a 4(6) o'r Mesur (trefniadau teithio)
[32] Rhoddir diffiniad o 'fathau cynaliadwy o deithio yn Adran11 o'r Mesur a'i roi yn yr eirfa hefyd (Adran 2)

diwrnod ysgol i gael mynediad at gyrsiau mewn perthynas â'r Rhaglen Llwybrau Dysgu)

1.19 Wrth weithredu swyddogaethau dan y Mesur nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol i ystyried gweithgareddau allgyrsiol, clybiau brecwast neu ar ôl ysgol wrth asesu anghenion teithio'r dysgwr.

1.20 Ym mhob blwyddyn academaidd, rhaid i'r awdurdod lleol asesu anghenion teithio'r dysgwr ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf[33].

## Hawliau

1.21 Mae adran 3 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio i ddysgwyr o oed ysgol gofynnol mewn amgylchiadau penodedig yn amodol ar amodau penodedig. Mae'r adran yn darparu ar gyfer trafnidiaeth rad ac am ddim wedi ei ddiffinio yn ddibynnol ar a yw'r plant yn derbyn addysg gynradd neu uwchradd ac a ydynt yn byw yn bellach na phellter penodol o'r ysgol lle rhoddir addysg neu hyfforddiant iddynt.

1.22 Bydd dysgwyr sydd yn derbyn addysg gynradd â'r hawl i gael trafnidiaeth yn rhad ac am ddim os ydynt yn byw mwy na dwy filltir o'u hysgol addas agosaf a gynhelir; o uned gyfeirio disgybl; neu ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal. Ceir eithriad os yw'r awdurdod wedi trefnu i'r dysgwr fod yn ddisgybl preswyl yn yr ysgol neu yn agos iddi.

1.23 Lle bydd gan ddysgwr sy'n derbyn addysg gynradd ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), sydd yn enwi ysgol annibynnol, ac os yw'r ysgol honno wedi ei lleoli dwy filltir neu ragor o gartref y dysgwr, yna bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim. Yr eithriad i hyn yw os yw'r awdurdod wedi trefnu i'r dysgwr fod yn ddisgybl preswyl yn yr ysgol neu yn agos iddi.

1.24 Rhoddir hawl tebyg i ddysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd, ond yn yr achos hwn, os ydynt yn byw mwy na thair milltir o'u hysgol addas agosaf a gynhelir; uned

---

33 Adran 2(2) o'r Mesur

atgyfeirio disgybl, ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal neu ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad  o anghenion addysgol arbennig. Lle bydd yr awdurdod lleol wedi trefnu i'r dysgwr breswylio yn yr ysgol neu gerllaw, nid yw'r ddyletswydd i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim yn bodoli.

1.25 Mae'r hawl yn cynnwys trafnidiaeth ar gyfer unrhyw ddysgwr o oed ysgol gorfodol sy'n mynychu ei sefydliad addysg bellach addas fel myfyriwr llawn amser, os yw'r lleoliad hwnnw yn dair milltir neu ragor o gartref y dysgwr ac nid yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r dysgwr fynychu sefydliad sy'n nes na thair milltir o'i gartref.

1.26 Mae'r hawl hefyd yn cynnwys teithio rhwng y cartref a'r ysgol, lle mae'r dysgwr wedi ei gofrestru mewn mwy nag un ysgol ac angen mynychu gwahanol ysgolion ar wahanol ddyddiau o'r wythnos. Er enghraifft byddai hyn yn cynnwys yr angen i deithio i ysgol wahanol ar ddechrau a/neu ddiwedd y dydd. Gallai pontio gynnwys pan fydd dysgwr yn symud o uned anghenion arbennig i addysg brif ffrwd.

## Gwneud Trefniadau Teithio Addas

1.27 Rhaid i'r awdurdod lleol[34] wneud trefniadau teithio addas i hwyluso presenoldeb y dysgwr bob dydd yn ei ysgol agosaf lle cynigir addysg a hyfforddiant iddo. Dan Adrannau 3(5) a 4(6) o'r Mesur Trafnidiaeth nid yw trefniadau'n addas os:

- byddant yn achosi lefelau afresymol o straen i'r dysgwr
- bydd y daith yn cymryd cyfnod afresymol o amser
- nad yw'r daith honno fod yn ddiogel

1.28 <u>Lefelau Afresymol o Straen</u>

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau teithio addas i sicrhau nad ydynt, cyn belled â phosibl yn ymarferol, yn achosi lefelau afresymol o straen i'r dysgwr[35]. Nid oes diffiniad cyfreithiol o 'straen', nac ychwaith pa feini prawf y dylai awdurdodau lleol eu hystyried i benderfynu a yw taith

---

[34] Adran 3 o'r Mesur.
[35] Adran 3(5) o'r Mesur.

yn achosi lefel afresymol o straen. Penderfyniad yr awdurdodau lleol yw dewis sut i gynnal asesiadau straen, yn unol â'u polisi eu hunain ar deithio gan ddysgwr.

1.29 Amseroedd Teithio

Nid yw'r Mesur yn dynodi terfyn amser penodol ar gyfer teithiau, serch hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion unigol dysgwyr wrth ystyried a yw cyfnod amser y daith yn rhesymol. Dylai asesiad ystyried natur, diben ac amgylchiadau pob taith. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried y canlynol wrth asesu amseroedd teithio dysgwyr[36]:-

- oed y dysgwr
- a oes gan y dysgwr unrhyw anabledd neu anawsterau dysgu sydd angen eu hystyried[37]
- at ddibenion y ddogfen hon, lleoliad cartref y dysgwr mewn perthynas â'r ysgolion sydd ar gael yn yr ardal[38]

1.30 Teithio Diogel

Er diben y ddogfen hon, diffinnir 'teithio diogel' fel 'darparu trefniadau teithio priodol i sicrhau, mor ymarferol â phosibl, nad yw'r teithiwr mewn perygl[39], boed yn wybyddus neu'n annisgwyl, a allai achosi trawma a/neu niwed iddo neu i unigolion eraill'.

1.31 Rhoddir rhagor o wybodaeth ar deithio diogel mewn perthynas â llwybrau cerdded sydd ar gael ym Mhennod 1 paragraffau 1.60 – 1.64 a Phennod 5 o'r ddogfen hon.

1.32 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwiriadau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg priodol ar deithio gan ddysgwyr yn cael eu cwblhau. Dylai'r asesiad ystyried ffactorau sy'n achosi straen; amserau teithio priodol a

[36] Darperir gwybodaeth am yr hyn a allai gael eu hystyried yn amseroedd teithio priodol yn Adran 3 (Cwestiwn 4)
[37] Bydd angen ystyried hyd y daith mewn amser ac addasrwydd yr ysgol (y bydd y dysgwr angen mynediad iddi) – yn enwedig os bydd ysgol arbenigol a enwir yn cael ei nodi yn natganiad anghenion addysgol arbennig y dysgwr.
[38] Mae 'ardal' yn cyfeirio at ysgolion priodol y tu mewn a'r tu allan i ardal yr awdurdod.
[39] At ddibenion y ddogfen hon, darperir y diffiniad o 'risg' yn yr eirfa (Adran 2)

threfniadau teithio diogel[40] wrth benderfynu pa ddarpariaethau trafnidiaeth sy'n addas i ddysgwyr.

1.33 Dylai awdurdodau lleol fod yn fodlon bod trefniadau cytundebol ar gyfer teithio gan ddysgwyr yn ddiogel. Mae hyn yn ddyletswydd barhaus felly dylai awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau mewn grym i fonitro cytundebau a bod unrhyw weithredu i ddatrys problemau'n digwydd yn gyflym. Nid oes unrhyw fanyleb gyfreithiol ynglŷn â pha bryd y dylid cwblhau asesiadau felly mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn wrth benderfynu sut i gwrdd â'r gofyniad hwn. Rhoddir rhagor o wybodaeth ar yr arfer orau ar gyfer asesiadau risg yn Adran 3 (Cwestiynau 1 a 2) o'r ddogfen hon.

1.34 <u>Gwneud Trefniadau Teithio Eraill</u>

Mae adran 3 o'r Mesur yn ymdrin â darpariaeth deithio benodedig, lle nad yw'r ddarpariaeth hon yn briodol neu'n drefniant deithio anaddas, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau trefniadau teithio eraill.

1.35 Mae adran 4 o'r Mesur yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill ar gyfer plant o oed ysgol gorfodol os bydd yr awdurdod o'r farn bod angen hwyluso presenoldeb plentyn yn yr ysgol. Mae'r trefniadau teithio hyn yn berthnasol i'r daith rhwng cartref ac ysgol addas agosaf y dysgwr ar ddechrau a/neu diwedd y diwrnod ysgol yn unig ac nid yw'n cynnwys teithio yn ystod y dydd.

1.36 Mae adran 4 yn darparu'r sail ar gyfer awdurdodau lleol fedru rhoi cymorth i ddysgwyr deithio os bydd ganddynt anghenion penodol yn sgil anhawster dysgu, anabledd neu unrhyw reswm arall sy'n galw am yr angen am drefniadau teithio o'r fath er mwyn hwyluso presenoldeb y plentyn.

1.37 Wrth ystyried a yw trefniadau teithio'n addas, rhaid[41] i awdurdod lleol:

[40] Adran 3(5) o'r Mesur
[41] Adran 4(5) o'r Mesur.

- roi sylw i'r asesiad angen a gwblheir dan adran 2 o'r Mesur (a amlinellir ym Mhennod 1 paragraffau 1.11 – 1.20 o'r ddogfen hon)
- roi sylw i'r trefniadau teithio sy'n ddyletswydd arno i'w paratoi dan Adran 3 o'r Mesur
- ystyried oed y dysgwr
- ystyried unrhyw anabledd neu anhawster dysgu[42]
- ystyried natur y llwybr teithio y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd

## Ysgol Addas Agosaf

1.38 Y diffiniad a roddir ar gyfer yr "ysgol addas agosaf" yw ble mae'r "addysg neu'r hyfforddiant yn addas mewn perthynas ag oed, gallu a dawn y dysgwr ac unrhyw anawsterau dysgu a allai fod ganddo[43]".

1.39 Mae angen i awdurdodau lleol ystyried addasrwydd yr ysgol wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn briodol ar gyfer y dysgwr. Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu pa ysgol addas yw'r un '<u>agosaf</u>' i'r dysgwr, yn unol â'i bolisi teithio gan ddysgwyr a'i bolisi addysg. Mae angen i awdurdodau lleol gyflwyno sut y nodir yr ysgol addas agosaf a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn eu polisi teithio gan ddysgwyr yn unol â darpariaethau a amlinellir yn Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009.[44]

1.40 Gall rhieni a dysgwyr nodi pa ysgol maent yn ei ffafrio, neu fath neilltuol o ddarpariaeth iaith neu grefydd, ond nid yw'r Mesur yn galluogi i'r rhieni a'r dysgwyr hynny fedru hawlio trafnidiaeth am ddim i'r ysgol a ffafrir ganddynt na'r / neu'r lleoliad, oni bai fod yr awdurdod lleol yn penderfynu mai'r ysgol honno yw ysgol addas agosaf y dysgwr a bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter. Darperir rhagor o wybodaeth am ddymuniadau rhieni a dysgwyr ym Mhennod 1 paragraffau 1.44 – 1.47 a Phennod 6 paragraffau 6.6 – 6.9.

---

[42] Mae hyn yn cynnwys ystyried anabledd y dysgwr a / neu anabledd rhiant y dysgwr. Gweler Pennod 1 paragraffau 1.83 – 1.97 am ragor o wybodaeth ar y ddarpariaeth hon

[43] Adran 4(9) o'r Mesur

[44] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/regulation/4/made

1.41 Rhaid darparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim[45] i ysgol sydd y tu hwnt i ardal yr awdurdod lleol os dynodir (dan y darpariaethau a amlinellir ym Mhennod 1, paragraffau 1.38 ac 1.41) mai'r ysgol honno yw'r un addas agosaf ac os yw'r dysgwr yn byw:

- yn bellach na'r pellteroedd statudol penodedig ar gyfer ei oed (gweler Pennod 1 paragraff 1.9 (pwyntiau bwled 1 a 2); neu
- dan y pellter statudol a ddynodir ar gyfer ei oed lle mae'r llwybr penodedig y disgwylir i'r dysgwr deithio arno wedi ei nodi fel un nad yw ar gael gan yr awdurdod perthnasol

1.42 Derbyn Dysgwr i Mewn i Ysgol

Os na fedr dysgwr gael ei dderbyn i mewn i'w ysgol addas agosaf sy'n golygu bod yn rhaid i'r dysgwr fynychu'r ysgol nesaf addas agosaf, mae'r un ddyletswydd ar yr ysgol i ddarparu trafnidiaeth am ddim.

1.43 Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion 2013[46] ('Cod 2013') yn amlinellu mewn rhagor o fanylder y gofynion statudol sy'n llywio derbyn i mewn i ysgol. Daeth y Cod 2013 i rym ar 8 Gorffennaf 2013 ac mae'n berthnasol ar gyfer trefniadau derbyn i mewn i ysgol o fis Medi 2014/15 ymlaen. Mae paragraffau 2.48 – 2.55 o'r Cod 2013 yn amlinellu sut y gellir defnyddio pellter rhwng cartref ac ysgol i benderfynu ar hawl i ddysgwr gael ei dderbyn i mewn i ysgol ble mae'r galw am le yno'n golygu bod y meini prawf gordanysgrifio'n weithredol[47].

1.44 Ffafriaeth gan Rieni

Mae adran 86 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[48] yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol alluogi rhiant i ddewis yr ysgol yr hoffai ei blentyn fynychu. Er diben y ddogfen hon diffinnir hyn fel 'deddfu dewis rhiant'.

[45] Mae hyn yn ymwneud â dysgwyr o oed ysgol gorfodol yn unig.
[46] 005/2013. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?lang=cy
[47] Rhoddir rhagor o wybodaeth ynglŷn â meini prawf gordanysgrifio yn Adran 3 (Cwestiwn 44) o'r ddogfen hon.
[48] 1998 c.31. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/section/86

1.45 Nid yw dewis rhiant yn rhoi'r hawl iddynt roi ei blentyn yn yr ysgol a ffafrir. Os bydd lle ar gael yn yr ysgol a ffafrir gan rieni, dylai'r awdurdod sy'n rheoli'r derbyniadau dderbyn y cais fel rheol. Gall hyn olygu na fydd rhai dysgwyr yn mynychu eu hysgolion addas agosaf ac yn byw peth pellter o'r ysgol y byddant yn ei mynychu.

1.46 Os bydd rhiant yn defnyddio'i hawl i nodi dewis wrth benderfynu pa ysgol y bydd ei blentyn yn ei fynychu ac nid honno yw'r ysgol addas agosaf a gytunwyd gan yr awdurdod lleol, nid oes gan y dysgwr hawl i gael darpariaeth deithio rhad ac am ddim – hyd yn oed os bydd y dysgwr yn cwrdd â'r meini prawf pellter neu oed sy'n galluogi trafnidiaeth rad ac am ddim. Dan yr amgylchiadau hyn gall awdurdod lleol ddefnyddio ei ddisgresiwn a darparu trafnidiaeth dan adran 6 o'r Mesur. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio'r grym hwn yn unol ag adran 9 y Mesur, sy'n amlinellu bod yn rhaid i drefniadau teithio beidio â ffafrio mathau penodol o addysg neu hyfforddiant, mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cynnig darpariaeth i bob dysgwr sydd yn y sefyllfa hon o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth hon ym Mhennod 5 – Asesu Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol, paragraff 5.54 a Phennod 6 'Cyfrifoldebau Rheini' paragraffau 6.1 – 6.9 a 6.11 – 6.12.

Dewis y Plentyn

1.47 Mae gofyn i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[49] yn ogystâl ag unrhyw ymrwymiadau cysylltiedig. Pan fydd plentyn yn nodi ei hoff ddewis ar gyfer ysgol i'w mynychu, os nad yr ysgol addas agosaf yw honno, yna nid oes gan y dysgwr hawl i gael darpariaeth drafnidiaeth rad ac am ddim, hyd yn oed os yw'r plentyn yn cwrdd â'r meini prawf pellter ac oed a ddefnyddir ar gyfer pennu trafnidiaeth rad ac am ddim. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth hon ym Mhennod 6 – 'Cyfrifoldebau Rheini' paragraffau 6.1 – 6.9 a 6.11 – 6.12.

[49] https://www.gov.uk/government/policies/creating-a-fairer-and-more-equal-society/supporting-pages/the-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc

## Presenoldeb Disgyblion yn yr Ysgol

1.48 Mae adran 444 o'r Ddeddf Addysg 1996 yn nodi ei bod hi'n drosedd gan rieni os nad ydynt yn sicrhau bod eu plentyn cofrestredig yn mynychu ysgol yn rheolaidd. Mae adran 20 o'r Mesur yn diwygio adran 444[50] i sicrhau yr amddiffynnir rhieni mewn erlyniad os methodd yr awdurdod lleol gyflawni'r dyletswydd, ble bod gofyn, o dan y Mesur i hwyluso presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

1.49 Y diffiniad o blentyn sy'n 'derbyn gofal' yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio unigolyn (iau na 18 oed) sydd yng ngofal awdurdod lleol neu y darperir llety iddo am fwy na 24 awr gan awdurdod lleol[51] wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol[52]. Gallai hwn fod yn lleoliad gyda gofalwyr maeth; mewn cartrefi preswyl neu gyda rhieni neu berthnasau eraill ('gofal gan berthynas')[53].'

1.50 Mae dysgwr sydd wedi ei ddynodi fel 'plentyn sy'n derbyn gofal' yn wahanol i blentyn (dysgwr) gyda phreswyliad deuol [54].

1.51 Dan Adran 3 a 4 o'r Mesur, mae'r un meini prawf oed a phellter yn berthnasol ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal' (dysgwyr) â'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal. Ond nid yw'r ddarpariaeth bod yn rhaid i'r dysgwr fynychu ei ysgol addas agosaf i'w gartref yn berthnasol i ddysgwyr 'sy'n derbyn

[50] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/444

[51] Fel y diffinnir gan Adran 22(1) Deddf Plant 1989.

[52] Mae'r rhain yn swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol yn unol ag ystyr Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (ac eithrio swyddogaethau dan Adran 17, 23B a 24B Deddf Plant 1989). O gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, bydd plentyn sy'n "derbyn gofal" yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf i gyfeirio at blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol neu y darperir llety iddo am fwy na 24 awr gan awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y disgrifir yn Atodlen 2 i'r Ddeddf (ac eithrio swyddogaethau dan adran 15, Rhan 4 neu adrannau 109, 114 neu 115 y Ddeddf. http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted

[53] Darperir rhagor o wybodaeth am blant sy'n derbyn gofal yn Adran 3 (Cwestiynau 5 a 6) y ddogfen hon. Amlinellir rhagor o wybodaeth am ba hawl trafnidiaeth a roddir i ddysgwyr mewn preswyliad deuol ym Mhennod 1 paragraffau 1.54-1.59.

[54] Ceir rhagor o wybodaeth ar blant sy'n derbyn gofal yn Adran 3 (Cwestiynau 4 a 5) o'r ddogfen hon. Amlinellir rhagor o wybodaeth ar ba hawl a roddir i ddysgwyr mewn preswyliad deuol ym mharagraffau 1.53 – 1.59.

gofal' (yn yr un modd ag y mae i ddysgwyr nad ydynt yn derbyn gofal). Ceir rhagor o wybodaeth yn egluro'r cyfiawnhad am y gwahaniaeth hwn mewn darpariaeth yn Adran 3 (Cwestiwn 6) o'r ddogfen hon.

**Cartref Arferol**

1.52 Mae adran 19 o'r Mesur yn gosod y darpariaethau ar gyfer pennu cartref arferol unigolyn mewn amgylchiadau neilltuol. Nid oes diffiniad statudol o'r term 'cartref arferol'. Serch hynny er diben y ddogfen hon diffinnir 'cartref arferol' fel rhywle lle mae'r dysgwr yn byw fel arfer, neu os yw'n ifancach na 16 oed, cartref y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni.

1.53 Mae 'byw' yn golygu mwy nag ymweld yn achlysurol. Os nad oes gan ddysgwr gartref arferol yna dylid ystyried mai ei gartref yw ei leoliad ar y pryd[55].

1.54 Preswyliad deuol

Golyga preswyliad deuol bod gan ddysgwr fwy nag un cartref (cartref arferol). Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddysgwyr lle nad yw eu rhieni'n byw gyda'i gilydd, a'r dysgwr yn byw gyda'r naill riant yn eu tro[56] neu gyda rhiant a gofalwr arall, lleoliad maeth ac ati.

1.55 Lle bydd gan ddysgwr breswyliad deuol dylid ystyried y ddau leoliad preswyl fel cartref arferol y dysgwr. Os yw'r dysgwr yn byw mewn mwy na dau leoliad o'r fath yna dim ond y ddau le agosaf at ei ysgol fydd yn gymwys[57].

1.56 Mae adrannau 3 ac 19 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth i ddysgwyr (sydd â phreswyliad deuol) i'w hysgol addas agosaf os yw'r dysgwr mewn oed cymwys a'r cartref(i) yn cwrdd â'r meini prawf statudol o ran pellter (gweler paragraffau 1.21 – 1.26 ac 1.51). Os nad yw'r meini prawf statudol yn cael eu cwrdd mae gan awdurdodau lleol y dewis o hyd i ddarparu trafnidiaeth yn ôl eu disgresiwn dan bwerau adran 6. Rhoddir

[55] Adran 19(1) o'r Mesur.
[56] Mae 'rhiant' yn golygu rhiant yn yr ystyr a roddir yn adran 576(1) o Ddeddf Addysg 1996 sef unigolyn a rhywun nad yw'n riant ond sydd â chyfrifoldeb fel rhiant, neu sydd yn gofalu am y plentyn.
[57] Adran 19(6) o'r Mesur.

cyngor pellach ynglŷn â'r ddarpariaeth hon yn Adran 3 (Cwestiynnau 7 a 8) o'r ddogfen hon.

1.57 Mae adran 9 o'r Ddeddf Addysg 1996[58] yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol lynu at yr egwyddor gyffredinol y dylid addysgu dysgwyr yn unol â dymuniadau eu rhieni cyn belled â phosibl yn ymarferol, a chyn belled â phosibl hefyd o ran cydweddu â'r ddarpariaeth o gyfarwyddiadau a hyfforddiant effeithiol ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

1.58 Pan fydd gan ddysgwr ddau gartref arferol sydd wedi eu lleoli mewn dau awdurdod lleol gwahanol, bydd y naill awdurdod yn gyfrifol am drefniadau teithio'r dysgwr pan fydd y dysgwr yn byw yn yr ardal honno.

1.59 Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â phreswyliad deuol ym Mhennod 6 – 'Cyfrifoldebau Rhieni' – paragraff 6.11 a Adran 3, Cwestiynnau 7 a 8.

## Pellteroedd Cerdded a Llwybrau Cerdded Sydd Ar Gael

1.60 Mae adran 3 o'r Mesur yn gosod y meini prawf pellter sy'n golygu y bydd dysgwyr yn gymwys i hawlio trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i'w hysgol addas agosaf ac yn ôl. Cyfeirir at y pellteroedd sydd yn llai na'r trothwyon hyn, er diben y ddogfen hon, yn 'bellteroedd cerdded'.

1.61 Dan adran 3(7) o'r Mesur dylid mesur y pellter cerdded yn ôl y 'llwybr byrraf sydd ar gael'. Dylai llwybr sydd ar gael fod yn ddiogel (cyn belled â phosibl yn ymarferol) ar gyfer dysgwr sydd heb unrhyw anabledd neu anhawster dysgu i gerdded y llwybr ar ei ben ei hun neu gydag oedolyn cynorthwyol os yw oed neu lefel o ddealltwriaeth y dysgwr yn galw am hynny.

1.62 Os nad yw llwybr 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall 'ar gael' o fewn y trothwy pellter priodol sy'n berthnasol i oedran y dysgwr, y gellir ei ddefnyddio, fel y rhagnodir yn adran 3 y Mesur, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'w ysgol addas agosaf er bod y pellter o'r cartref i'r ysgol yn llai na'r terfyn pellter sy'n berthnasol i oedran y dysgwr.

[58] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/56/section/9

1.63 Mewn achosion o'r fath mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i'r dysgwr i'w ysgol fwyaf addas agosaf ac yn ôl, ond dim ond os yw'r dysgwr yn mynychu ei ysgol addas agosaf. Os nad yw'r dysgwr yn mynychu ei ysgol addas agosaf ac os nad yw'r llwybr cerdded 'ar gael' nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim.

1.64 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol gynnal asesiad o bellteroedd a Llwybrau cerdded i'r ysgol yn unol â'r:

- weithdrefn asesu risg a amlinellir ym Mhennod 5 y ddogfen hon
- canllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n llywodraethu'r ddarpariaeth iechyd a diogelwch[59]

Darperir rhagor o wybodaeth am pryd y dylid cynnal asesiadau risg yn Adran 3 (Cwestiwn 2) y ddogfen hon.

## Trafnidiaeth i Ddysgwyr Nad Ydynt Mewn Addysg neu Hyfforddiant Gorfodol

Dysgwyr ôl-16

1.65 Mae rhan 2 o'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr sydd dan 19 oed sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant ac sydd â chartref arferol o fewn ardal yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd yn 19 oed ond wedi cychwyn cwrs pan oeddent dan 19 oed ac yn parhau i fynychu'r cwrs hwnnw.

1.66 Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n parhau gyda'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif ffrwd.

1.67 Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ddysgwr sydd ag anabledd neu anhawster dysgu mewn addysg bellach neu hyfforddiant

[59] http://www.hse.gov.uk/workplacetransport/separating.htm

ôl-16. Er wrth asesu anghenion teithio dysgwyr dan adran 2(4) o'r Mesur, rhaid i awdurdod lleol "roi sylw yn enwedig" i anghenion dysgwyr sydd yn anabl neu ag anawsterau dysgu. Nid yw dysgwr sydd wedi ei ddatgan felly sydd yn parhau mewn addysg prif ffrwd ôl-16 yn medru hawlio trafnidiaeth yn rhad ac am ddim oni bai bod trefniadau trafnidiaeth wedi eu nodi'n benodol yn ei Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Gweler Cod Ymarfer AAA Cymru (paragraffau 8.70 i 8.90) i gael rhagor o wybodaeth ar gostau trafnidiaeth i blant gyda datganiadau.

1.68 Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafnidiaeth yn ôl eu disgresiwn ar gyfer dysgwyr ôl-16 oed. Ceir rhagor o wybodaeth ar ddarpariaethau trafnidiaeth yn ôl disgresiwn ym Mhennod 1 paragraffau 1.98 – 1.105.

1.69 Mae'r Mesur yn diddymu Adran 509AA o'r Ddeddf Addysg 1996 fel nad yw'n ofynnol bellach i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi datganiad polisi trafnidiaeth ar wahân mwyach ar gyfer dysgwyr oed chweched dosbarth. Serch hynny, dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth ynglŷn â darpariaethau teithio dysgwyr ôl-16 o fewn y wybodaeth a gyhoeddir ganddynt ynglŷn â threfniadau cyffredinol a pholisïau mewn perthynas â theithio o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ym Mhennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6.

1.70 <u>Plant Dan 5 Oed (Meithrinfa)</u>

Mae adran 2(1) o'r mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd yn ifancach na'r oed ysgol gofynnol (dan 5 oed), sydd yn mynychu ysgol feithrin[60] ac sy'n byw fel arfer o fewn ardal yr awdurdod.

[60] Mae'r ddarpariaeth hon yn ymdrin â phob plentyn dan 5 oed (y rhai 3 a 4 oed) sy'n cael addysg mewn unrhyw ysgol neu feithrinfa sy'n sefydliad dysgu a gynhelir neu nas cynhelir.

1.71 Nid oes dyletswydd statudol i awdurdod lleol ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim i unrhyw ddysgwr meithrin sydd dan bump oed.

1.72 Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafnidiaeth yn ôl eu disgresiwn ar gyfer dysgwyr dan bump oed sy'n mynychu meithrinfa. Ceir rhagor o wybodaeth ar ddarpariaethau trafnidiaeth yn ôl disgresiwn ym Mhennod 1 paragraffiau 1.98 – 1.105.

1.73 Dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau teithio dysgwyr mewn meithrinfa o fewn y wybodaeth a gyhoeddir ganddynt am drefniadau cyffredinol a pholisïau mewn perthynas â theithio dysgwyr o'r cartref i'r ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ym Mhennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6.

## Addysg Cyfrwng Cymraeg / Cyfrwng Saesneg

1.74 Wrth benderfynu pa ysgolion yw'r ysgolion addas agosaf ar gyfer dysgwyr yn eu hardal, mae gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ddyletswydd dan Adran 10 o'r Mesur i 'hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg'.

1.75 Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafnidiaeth yn ôl eu disgresiwn i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf oherwydd dewis iaith. Ceir rhagor o wybodaeth ar ddarpariaethau trafnidiaeth yn ôl disgresiwn ym Mhennod 1 paragraffau 1.98 – 1.105.

1.76 Dylai awdurdodau ei gwneud yn eglur yn eu dogfennau derbyn i'r ysgol eu polisi ar ddarparu teithio am ddim neu â chymorth i ysgolion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylid trin ffafriaeth i'r naill iaith neu'r llall yr un fath. Dylai awdurdodau hefyd gymryd Cynllun Iaith

Gymraeg[61] a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)[62] yr awdurdod i ystyriaeth.

1.77 Dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau teithio dysgwyr mewn perthynas â mynediad at ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Dylid cynnwys y wybodaeth hon fewn y wybodaeth[63] a gyhoeddir ganddynt ynglŷn â threfniadau cyffredinol a pholisïau mewn perthynas â theithio dysgwyr o'r cartref i'r ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ym Mhennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6.

1.78 Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru[64] i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Cynllun yn gosod allan cynigion yr awdurdod lleol ar sut y bydd yn gweithredu ei swyddogaethau addysgiadol ar gyfer :

- Gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ("Addysg Cyfrwng Cymraeg") yn ei ardal
- Gwella safonau addysg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal

1.79 Pan yn gosod allan sut y mae hyn yn mynd i gael ei gyflawni, efallai bydd angen cymryd teithio gan ddysgwyr i ystyriaeth a'i gorffori i'r cynllun.

## Trafnidiaeth i Ysgolion Enwadol

1.80 Dan ddeddfwriaeth trafnidiaeth i ysgolion gyfredol, mae gan ddysgwr hawl i drafnidiaeth i ysgol enwadol os bydd yr

---

61 O fis Tachwedd 2014, bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan Safonau Iaith Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy

62 http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy

63 Rheoliad 4 o Reoliadau 2009.

64 Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/section/84/enacted

awdurdod lleol o'r farn mai honno yw ysgol addas agosaf y dysgwr. Mae Adran 6 y Mesur yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol wneud trefniadau trafnidiaeth yn ôl disgresiwn i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgolion addas agosaf oherwydd ffafriaeth enwadol. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth o drafnidiaeth yn ôl disgresiwn ym Mhennod 1 paragraffau 1.98 – 1.105.

1.81 Mae paragraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 (OS 2009/569)[65] yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ei gwneud hi'n gwbl glir yn eu dogfennau derbyn i'r ysgol ynglŷn â'u polisi wrth ddarparu teithio rhad ac am ddim neu gymorth, i ysgolion enwadol.

1.82 Dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau teithio dysgwyr i ysgolion enwadol. Dylid cynnwys y wybodaeth hon fewn y wybodaeth a gyhoeddir ganddynt ynglŷn â threfniadau cyffredinol a pholisïau mewn perthynas â theithio dysgwyr o'r cartref i'r ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth ar Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 ym Mhennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6.

## Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Anableddau ac Anawsterau Dysgu

1.83 Dan Adrannau 2 (4) (a) a 4 (b) o'r Mesur mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried anableddau ac anawsterau dysgu dysgwr wrth asesu anghenion teithio dysgwyr yn ei ardal.

1.84 Mewn perthynas â thrafnidiaeth i ddysgwyr, wrth benderfynu a yw plentyn am fynychu eu hysgol fwyaf addas agosaf, rhaid i awdurdod lleol ystyried addasrwydd yr ysgol honno drwy roi sylw i (ymysg materion eraill) unrhyw anawsterau dysgu y gall fod gan y dysgwr, hyd yn oed os oes gan y dysgwr ddatganiad AAA[66]. Mae'r diffiniad "anhawster dysgu" o fewn y Mesur[67] yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw anabledd a

[65] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/contents/made
[66] Adran 3(6)
[67] Adran 24(1).

all dysgwr ddioddef ohono sydd un ai'n atal neu'n amharu'r unigolyn hwnnw rhag defnyddio'r cyfleusterau a ddarperir mewn ysgol neu sefydliad addysgiadol arall.

1.85 Dan Adran 3 o'r Mesur os yw ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad ar gyfer plentyn[68] neu ysgol nad yw'n cael ei gynnal yn benderfynol o fod yr ysgol fwyaf addas agosaf a bod y dysgwr yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer trafnidiaeth rad ac am ddim, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim o'r cartref i'r ysgol i'r dysgwr.

1.86 Bydd y trefniadau trafnidiaeth ar gyfer dysgwr gydag AAA yn dibynnu ar ei amgylchiadau personol a'r llwybr sydd angen iddo ei ddefnyddio. Dan Adran 4 o'r Mesur, os na all dysgwr o oed ysgol gofynnol gerdded (gyda chymorth rhywun neu ar ei ben ei hun) i'w ysgol addas agosaf oherwydd anabledd neu anhawster dysgu, hyd yn oed os yw'r pellter i'w hysgol addas agosaf yn llai na'r trothwy statudol i'r grŵp oed hwnnw, mae adran 4 y Mesur yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio priodol ar gyfer y plentyn hwnnw. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried pa drefniadau sy'n briodol i hwyluso presenoldeb y dysgwr yn yr ysgol yn unol â'u polisi teithio i ddysgwyr.

1.87 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010[69] yn cynnwys nifer o ddyletswyddau sydd yn berthnasol pan mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau dan y Mesur.

1.88 Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus (PSED) yn adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010[70] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth weithredu eu pwerau a'u dyletswyddau, i *roi sylw* i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfleoedd i bobl gyda nodweddion i'w diogelu ac i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol yn benodol i awdurdodau lleol i roi sylw i unrhyw anabledd neu anhawster dysgu gan ddysgwyr wrth wneud amryw asesiadau a'r penderfyniadau yn sgil hyn. Serch hynny, nid yw hyn yn disodli'r angen i gydymffurfio hefyd â PSED wrth wneud asesiadau a phenderfyniadau dan y Mesur. Felly, dylai

[68] Dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996.
[69] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
[70] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149

awdurdodau lleol bob amser ystyried a oes yna unrhyw effeithiau negyddol pellach gan yr asesiadau ar grwpiau a ddiogelir a’r penderfyniadau a wnânt dan y Mesur, ac os felly, a fyddai’n briodol cymryd camau i liniaru effeithiau hynny.

1.89 Ar wahân i’r PSED, mae adran 29(7) o’r Ddeddf Cydraddoldeb 2010[71] yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud rhai addasiadau rhesymol penodol mewn perthynas ag anabledd wrth ddarparu gwasanaethau neu gynnal swyddogaethau cyhoeddus. Ni all awdurdod godi tâl am unrhyw addasiadau rhesymol a wna dan y ddyletswydd hon.

1.90 Mae Adran 4 o’r Mesur yn creu gofyniad penodol i awdurdodau lleol addasu eu darpariaeth trefniadau teithio fel bod plentyn sydd ag anabledd neu anhawster dysgu yn byw yn agosach i’w ysgol addas agosaf na’r pellteroedd a ddynodir yn adran 3, ond bod angen trefniadau teithio i hwyluso presenoldeb y plentyn yn yr ysgol honno, yna mae’n ddyletswydd ar yr awdurdod i wneud y trefniadau hynny.

1.91 Serch hynny, mae’r ddyletswydd addasiadau rhesymol yn parhau’n berthnasol i natur y drafnidiaeth neu’r trefniadau teithio y mae’r awdurdod lleol yn eu gwneud dan y Mesur. Dylai’r awdurdod lleol sicrhau y bydd y trefniadau a wnawn yn caniatáu i ddysgwyr anabl elwa yn yr un modd â’r rhai nad ydynt yn anabl – er enghraifft, drwy sicrhau bod y drafnidiaeth a ddarperir yn hygyrch ac yn ddiogel ar gyfer y dysgwr anabl neilltuol.

1.92 Mae hi’n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion teithio pob dysgwr dan 19 oed sy’n derbyn addysg neu hyfforddiant o fewn ei ardal[72]. Nid yw’n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trefniadau trafnidiaeth ysgol â chymhorthdal i ddysgwyr dros 16 oed, waeth pa anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau disgresiwn yn adran 6 o’r Mesur i roi cymorth os dymunant. Mae adran 9 y Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau nad yw trefniadau teithio yn ffafrio mathau penodol o addysg neu hyfforddiant. Felly, os bydd awdurdod lleol yn darparu

[71] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/29
[72] Adran 2(2) y Mesur.

trafnidiaeth yn ôl disgresiwn, dylai'r ddarpariaeth hon gael ei chynnig i bob dysgwr sydd mewn amgylchiadau tebyg ar draws ardal yr awdurdod.

1.93 Mae 'Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru'[73] yn gosod y materion sydd angen eu hystyried gan awdurdodau wrth ddarparu trafnidiaeth i ddysgwyr gyda datganiad AAA. Dylai awdurdod adolygu hawl y dysgwr a'i anghenion trafnidiaeth yn rheolaidd, hyd yn oed os yw'r datganiad yn nodi darpariaeth drafnidiaeth yn benodol neu beidio.

1.94 Argymhellir bod gan awdurdodau lleol bolisi clir a chyson ar ddarpariaeth drafnidiaeth ar gyfer disgyblion AAA. Ceir rhagor o wybodaeth ar y ddarpariaeth hon yn Adran 3 (Cwestiynau 14 i 16).

1.95 Fel rhan o'r gweithdrefnau caffael ar gyfer tendro, gan gynnwys caffael trafnidiaeth a all gael ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr anabl, dylai awdurdodau lleol ystyried eu dyletswyddau dan y Ddeddf Diogelu data 1998[74] mewn perthynas â data personol, gan gynnwys data personol sensitif[75]. Ni ddylai dogfennau tendro ryddhau hunaniaeth dysgwyr i'w cludo nac ychwaith y wybodaeth a allai hefyd roi gwybod pwy yw'r dysgwr.

1.96 Argymhellir y dylai awdurdodau lleol gydweithio gydag ysgolion a gweithredwyr yn briodol i sicrhau mai'r unig wybodaeth a roddir i weithredwyr ynglŷn â dysgwyr yw'r hyn sydd yn angenrheidiol iddynt ei chael er mwyn galluogi darpariaeth drafnidiaeth briodol ar gyfer y dysgwr.

1.97 Rhoddir rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth o wybodaeth datgelu a gwahardd ym Mhennod 1 paragraffau 1.106-1.116 a Rhan 3 (Cwestiynau 19 – 22).

---

[73] Ailargraffwyd yn Ionawr 2004 (ISBN 0 7504 2757 4) (paragraffau 8:87 to 8:90) [Cod Ymarfer AAA].
[74] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents
[75] http://www.ico.gov.uk/upload/documents/library/data_protection/practical_application/guidance_on_data_security_breach_management.pdf

## Trefniadau Trafnidiaeth yn ôl Disgresiwn

1.98 Mae rhan 6 o'r mesur yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniant y credent a all fod o fudd i hwyluso taith dysgwyr i'r lleoliad lle cant eu dysgu neu eu hyfforddi ac oddi yno. Mae'r pŵer yn ymwneud ac yn berthnasol i'r dysgwr yn byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod.

1.99 Nid yw darpariaethau teithio yn ôl disgresiwn yr un fath â darpariaethau trafnidiaeth statudol[76]. Nid oes yn rhaid i awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau disgresiwn i ddarparu teithio rhad ac am ddim neu gyda chymorth os nad yw'n ystyried bod y ddarpariaeth yn briodol i hwyluso trafnidiaeth dysgwyr o fewn ei ardal fel awdurdod.

1.100 Mae enghreifftiau o pan gallai darpariaeth trafnidiaeth yn ôl disgresiwn gael ei defnyddio yn cynnwys:

- Trafnidiaeth i ddysgwyr nad ydynt o oed ysgol gorfodol (h.y. dan 5 oed yn mynychu ysgol feithrin neu mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16)
- Trafnidiaeth i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf
- Trafnidiaeth i ddysgwyr sy'n byw o fewn y trothwy isafswm pellter sy'n berthnasol i oed y dysgwr

1.101 Os yw awdurdod lleol yn gwneud defnydd o'i bwerau Adran 6, yn unol ag adran 9 y Mesur, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi'n gyfartal ar gyfer pob dysgwr sydd yn yr un amgylchiadau o fewn ardal yr awdurdod hwnnw. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw bolisi yn un teg, yn rhesymol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb perthnasol fel nad yw'r awdurdod yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon rhwng dysgwyr wrth ddefnyddio ei bwerau adran 6.

1.102 Ni all trefniadau teithio a wneir gan awdurdod lleol wahaniaethu rhwng gwahanol gategorïau o ddysgwyr. Rhaid peidio â thrin dysgwyr o oed ysgol gorfodol, mewn sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynnal ond sy'n gymwys

[76] Darpariaethau statudol yw'r rhai sydd yn ofynnol i awdurdod lleol eu darparu ar gyfer dysgwyr penodol sy'n cwrdd â'r meini prawf sy'n eu galluogi i gael trafnidiaeth rhad ac am ddim.

dan Adran 1(4) o'r Mesur fel "mannau perthnasol eraill", yn llai ffafriol na dysgwyr o'r un oed mewn ysgolion a gynhelir.[77] Ni ddylid trin dysgwyr eraill sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant llawn amser mewn sefydliadau nad ydynt yn cael eu cynnal (ond sydd o fewn Adran 1(4) y Mesur) yn llai ffafriol na dysgwyr o'r un oed mewn ysgolion a gynhelir. Felly hefyd, ni ddylid gwahaniaethu rhwng dysgwyr sy'n mynychu ysgolion a gynhelir a'r rhai o'r un oed gydag anhawster dysgu, anabledd neu sy'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol sy'n mynychu sefydliadau dysgu ar wahân i ysgolion a gynhelir.

1.103 Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, rhaid i awdurdodau lleol[78] gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â'u polisïau ar gyfer darparu teithio yn ôl disgresiwn o fewn ei bolisi teithio gan ddysgwr. Ceir rhagor o wybodaeth ar y Rheoliadau hyn ym Mhennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6.

1.104 Os bydd awdurdod lleol yn dewis gwneud defnydd o bŵer Adran 6 i ddarparu trefniadau trafnidiaeth yn ôl disgresiwn, mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i ddileu'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol. Drwy wneud hyn dylai'r awdurdod ddilyn y gweithdrefnau cywir wrth dynnu'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl yn unol â'i brotocolau polisi perthnasol megis ymgynghoriad cyhoeddus er enghraifft.

1.105 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu newid neu ddileu'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl disgresiwn y mae'n ei gyflenwi, rhaid iddo gyhoeddi'r wybodaeth[79] cyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd pryd y bydd y newidiadau'n dod i rym yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr 2009.

[77] Adran 9 o Fesur 2008
[78] Rheoliad 4 o Reoliadau 2009.
[79] Yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 (OS 2009/569) http://www.assemblywales.org/sub-ld8637-e.pdf

## Trefniadau Datgelu a Gwahardd

1.106 Mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012[80] (y 'Ddeddf 2012') yn gosod y prosesau gwirio cyn cyflogi sydd yn rhaid eu dilyn gan awdurdodau lleol a darparwyr addysg wrth wirio cofnodion pobl sy'n dymuno gweithio gyda grwpiau bregus, gan gynnwys plant, i sicrhau eu bod yn addas i wneud hynny ac nad ydynt yn peri risg.

1.107 Daeth y trefniadau datgelu a gwahardd newydd i rym ar 10 Medi 2012. Ar gyfer unigolion nad ydynt mewn gweithgaredd a reoleiddir, ond sy'n gweithio gyda phlant a phobl fregus (drwy dâl neu heb dâl), gall cyflogwyr ofyn i weld gwiriadau cofnodion troseddol, er nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny.

1.108 Ym mis Rhagfyr 2012, unodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) i greu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)[81]. Gwiriadau DBS yw'r enw a roddir yn awr ar yr hen wiriadau CRB.

1.109 Mae'r DBS yn rhoi cymorth i gyflogwyr wneud penderfyniadau diogelach wrth recriwtio ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a grwpiau bregus, drwy ei waith o wirio cofnodion troseddol ac i wahardd.

1.110 Mae'r gwaith gwirio'n caniatáu i gyflogwyr gael mynediad at hanes cofnodion troseddol pobl sy'n gweithio, neu sy'n ceisio gweithio gyda phlant neu oedolion. Mae'r DBS yn cyhoeddi tri math o ddatgeliad, pob un yn cynrychioli lefel wahanol o wirio. Penderfynir ar y lefel yn ôl dyletswyddau'r swydd neilltuol neu'r swyddogaethau. Mae swyddi sy'n ymwneud â gofalu, goruchwylio neu fod yn bennaf gyfrifol am blant neu oedolion angen gwiriad DBS manwl.

1.111 Mae'r ochr wahardd o'r DBS yn darparu gweithwyr achos arbenigol sy'n prosesu atgyfeiriadau ynglŷn ag unigolion sydd wedi achosi niwed neu sy'n creu risg o niweidio plant a/neu grwpiau bregus. Maent yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwy ddylai fod ar y rhestr gwahardd o safbwynt plant a/neu'r rhestr oedolion ac yn eu hatal yn gyfreithlon rhag gweithio gyda phlant neu grwpiau bregus. Mae'n

[80] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents/enacted
[81] https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/overview

anghyfreithlon i gyflogwyr gyflogi rhywun neu ei ganiatáu i wirfoddoli yn y math hwn o waith os yw wedi ei gynnwys ar un o'r rhestrau gwahardd.

1.112 Tystysgrifau yn unig y bydd y DBS yn eu rhoi i ymgeiswyr. Bydd angen i gyflogwyr ofyn i ymgeiswyr i gael gweld eu Tystysgrif DBS. Ni all rhywun sydd dan 16 oed ymgeisio am wiriad DBS.

Diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir'

1.113 Dim ond y bobl hynny a all gael cysylltiad rheolaidd ac agos gyda phlant ac oedolion wnelo'r DBS â nhw, sef yr hyn a ddiffinnir yn 'Weithgaredd a Reoleiddir' mewn deddfwriaeth. O bwys i ysgolion a cholegau Addysg Bellach, mae diffiniad a sgôp Gweithgaredd a Reoleiddir gyda phlant wedi newid. Mae bod yn gwbl glir ynglŷn â'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir yn bwysig oherwydd:

- Bydd rolau a ddaw'n rhan o'r diffiniad newydd o Weithgaredd a Reoleiddir angen gwiriad DBS manwl a'r gwiriad rhestr gwahardd briodol (ar gyfer plant, oedolion neu'r ddau)
- Bydd sefydliad sydd yn caniatáu unigolyn sydd wedi ei wahardd i weithio mewn gweithgaredd a reoleiddir, ac yn gwybod am hynny, yn torri'r gyfraith
- Os byddwch yn tynnu rhywun oddi wrth weithgaredd a reoleiddir (neu y byddwch wedi gwneud hynny pe na fyddent wedi gadael eisoes) neu ei fod wedi niweidio rhywun o grŵp bregus gan gynnwys plant neu fod risg iddo wneud hynny, mae'n ofynnol arnoch yn gyfreithlon i drosglwyddo gwybodaeth am yr unigolyn hwnnw i'r DBS (sef 'dyletswydd i atgyfeirio'). Mae'n drosedd peidio â gwneud hynny. Os credwch fod yr unigolyn wedi troseddu, fe'ch cynghorir yn gryf i drosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu

1.114 Gellir crynhoi Gweithgaredd a Reoleiddir[82] (h.y. gwaith na ddylai unigolyn sydd wedi ei wahardd ei wneud) mewn perthynas â phlant, fel gweithgaredd heb oruchwyliaeth mewn ystod gyfyngedig o sefydliadau gyda'r cyfle i fod yn gyswllt â phlant. Mae'r sefydliadau penodedig hyn yn

[82] Adran 5 ac Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

cynnwys ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant a sefydliadau cyn ysgol.

1.115 Dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd mae sgôp Gweithgaredd a Reoleiddir yn cynnwys gweithgareddau nad yw'n cael eu goruchwylio megis gyrru cerbyd ar gyfer plant yn unig (trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr).

1.116 Yn ychwanegol, er mwyn bod yn gymwys fel Gweithgaredd a Reoleiddir rhaid i'r gweithgaredd a berfformir ddigwydd yn rheolaidd. Mae 'rheolaidd' yn golygu cael ei gynnal gan yr un unigolyn yn rheolaidd (unwaith yr wythnos neu'n amlach) neu'n amlach na thri[83] diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu mewn rhai achosion, rhwng 2am a 6am).

## Safonau Cerbydau

1.117 Mae'n ofynnol i gerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludo dysgwyr gydymffurfio ag anghenion deddfwriaethol diogelwch ffyrdd a thrafnidiaeth y Deyrnas Unedig. Dylai awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir gydweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA) (yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA)[84] gynt), Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)[85] a'r Comisiynydd Traffig[86] ynglŷn ag unrhyw bryderon sydd ganddynt wrth amau rhywun sy'n torri safonau cyfreithiol.

1.118 Dylai awdurdodau lleol roi gweithdrefnau monitro a gwerthuso cadarn mewn grym i sicrhau bod anghenion deddfwriaethol presennol wedi eu gosod yn glir mewn cytundebau ac yn cael eu cwrdd. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth y bydd gwregysau diogelwch, erbyn 1 Hydref 2014, wedi eu gosod yn ofynnol ar bob sedd ar fysus penodedig a ddefnyddir i gludo dysgwyr i'r ysgol ac oddi yno (Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011). Ceir rhagor o wybodaeth ar Fesur Diogelwch ar Gludiant i

---

83 Diwygiwyd gan OS 2010/1154 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 Gorchymyn (Gweithgaredd a Reoleiddir, Datganoli, Darpariaethau Amrywiol) 2010. http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1154/contents/made

84 Darperir rhagor o wybodaeth am y DVSA a VOSA yn yr eirfa (Adran 2) ac yn Adran 3 (Cwestiwn 23)

85 http://www.hse.gov.uk/

86 https://www.gov.uk/government/organisations/traffic-commissioners

Ddysgwyr (Cymru) 2011 a darpariaeth gwregysau diogelwch ym Mhennod 4, paragraffau 4.6 – 4.22.

## Trwyddedu a Hyfforddi Gyrwyr Bysus

1.119 Yn 2008 dan Reoliadau Gyrwyr Cerbydau (Tystysgrifau Cymhwysedd Proffesiynol) 2007[87] roedd hi'n ofynnol gan Yr Asiantaeth Safonau Gyrru (DSA) erbyn Medi 2013 i bob gyrrwr bws yn y Deyrnas Unedig gael 'Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr' (CPC)[88]. I gael CPC, rhaid i yrrwr gwblhau o leiaf 35 o oriau o hyfforddiant gyrru cyfnodol o fewn cyfnod o bum mlynedd[89]. Unwaith y bydd gyrrwr wedi cwblhau'r hyfforddiant CPC yn llwyddiannus, caiff 'Gerdyn Cymhwysedd i Yrrwr' (DQC), fydd ei angen arno a'i gadw wrth yrru'n broffesiynol. Bydd angen adnewyddu'r CPC a'r DQC bob 5 mlynedd, felly bydd angen i unrhyw yrrwr bws dreulio isafswm o 35 awr o hyfforddiant gyrrwr dros y 5 mlynedd nesaf (2013-2018) i fod yn gymwys ar gyfer adnewyddu. Mae'r DSA wedi cytuno ar 'drefniant unwaith ac am byth' y bydd gyrwyr categori deuol (sef gyrwyr bysus a lorïau), unwaith y byddant wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol cyn Medi 2013, yn cael 6 blynedd i gwblhau'r rhan nesaf o hyfforddiant – sy'n golygu y bydd angen cwblhau'r elfen hon o hyfforddiant rhwng Medi 2013 a Medi 2019.

1.120 Ar hyn o bryd nid oes gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i'r hyfforddiant CPC bws neu gategori deuol gynnwys modiwl hyfforddiant penodol ar drafnidiaeth i ddysgwyr ar gyfer gyrwyr sy'n gweithio ar fysus a ddefnyddir i gludo dysgwyr. Darperir rhagor o gyfarwyddyd ar hyfforddiant gyrrwyr yn Adran 3 (Cwestiwn 3).

## Newidiadau mewn Amserau Sesiynau Ysgol

1.121 Mae adran 11 o'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i hyrwyddo'r

[87] O Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2003/59/EC ar y cymhwyster cychwynnol a'r hyfforddiant cyfnodol o yrwyr cerbydau ffordd neilltuol sy'n cludo nwyddau a theithwyr.
[88] http://www.gov.uk/driver-certificate-of-professional-competence-cpc
[89] Yn 2009, cyflwynwyd CPC i yrwyr lorïau hefyd, gyda'r gofyniad i yrrwr lori fod wedi cwblhau o leiaf 35 o oriau o hyfforddiant gyrrwr erbyn 10 Medi 2014 er mwyn cael tystysgrif CPC.

defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio wrth wneud eu gwaith dan y Mesur. Golyga hyn y dylai awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd wrth asesu anghenion a gwneud trefniadau teithio.

1.122 Mae Adran 21 o'r Mesur yn addasu Adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 i ganiatáu awdurdodau lleol i gyflwyno rhybudd i gyrff llywodraethu rhai ysgolion neilltuol i newid amserau sesiynau ysgol ble byddai hyn yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio neu wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau teithio. Mae Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009[90] yn gosod y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd yr awdurdod lleol yn bwriadu newid amserau sesiynau ysgolion.

1.123 Mae Adran 32 o Ddeddf Addysg 2002[91], fel y'i diwygiwyd gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, yn gosod pwy sy'n gyfrifol am bennu:

- dyddiadau tymhorau ysgol
- gwyliau ysgol
- amserau sesiynau ysgol

1.124 Ar gyfer ysgolion sylfaen, rhai â chymorth gwirfoddol ac ysgolion sylfaen arbennig, y corff llywodraethu sy'n pennu'r uchod[92]. Ar gyfer ysgolion cymunedol, rhai wedi eu rheoli'n wirfoddol, ysgolion cymunedol arbennig ac ysgolion meithrin a gynhelir, y corff llywodraethu sy'n pennu amserau'r sesiynau ysgol a'r awdurdod addysg lleol sy'n pennu'r tymhorau ysgol a'r gwyliau[93].

1.125 Pan fydd awdurdod lleol yn ystyried bod angen newid mewn amserau sesiynau ysgol neu'n hwylus er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio, neu wella effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd trefniadau teithio a wnaed neu sydd i'w gwneud, gall roi rhybudd ysgrifenedig i'r corff llywodraethu y bydd yn pennu'r amser y bydd sesiwn

---

[90] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=119939&ds=4/2009

[91] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/32

[92] Adran 32(2) Deddf Addysg 2002
[93] Adran 32(1) Deddf Addysg 2002

cyntaf yr ysgol yn cychwyn a'i hail un yn gorffen (neu os oes un sesiwn yn unig, ei amser cychwyn a gorffen[94]).

1.126 Mae Rheoliad 3 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn gosod y gweithdrefnau i'w cymryd gan yr awdurdod addysg lleol pan fydd yn cynnig newid amserau sesiynau ysgolion cymunedol, rhai wedi eu rheoli'n wirfoddol, ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion sylfaen, ysgolion sy'n cael cymorth gwirfoddol neu ysgolion sylfaen arbennig.

Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys:

- Ymgynghori â'r corff llywodraethu, y pennaeth a staff eraill yr ysgol
- Cynnal cyfarfod gyda'r rhieni a'r disgyblion yn yr ysgol
- Rhoi rhybudd o dri mis o leiaf o'r newid a pha bryd y bydd yn digwydd

1.127 Yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, rhaid i unrhyw newidiadau i drefniadau teithio i ddysgwyr sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau i amserau sesiynau ysgol[95] fod ar gael ac wedi eu cyhoeddi erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd berthnasol.

1.128 Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn gosod y gweithdrefnau i'w cymryd gan gorff llywodraethu ysgol gymunedol, rhai wedi eu rheoli'n wirfoddol, ysgolion cymunedol arbennig neu ysgol feithrin pan fydd yn cynnig newid amserau sesiynau ysgol.

1.129 Rhaid i gyrff llywodraethu[96] ymgynghori â'r awdurdod lleol a staff yr ysgol, paratoi datganiad yn amlinellu'r newidiadau a chynnal cyfarfod gyda rhieni a disgyblion yr ysgol cyn gwneud y newid. Nid yw'r rheoliad hwn yn berthnasol i ysgolion sylfaen, rhai sy'n cael cymorth gwirfoddol ac ysgolion sylfaen arbennig. Os yw'r newid yn ymwneud â'r amser y mae'r sesiwn ysgol yn cychwyn yn y bore neu'n gorffen yn y prynhawn, rhaid i'r corf llywodraethu roi tri mis o leiaf o rybudd a dim ond ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y

[94] Adran 32(5) i (9) Deddf Addysg 2002
[95] Rheoliad 4 o Reoliadau 2009
[96] Rheoliad 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgol (Cymru) 2009.

caniateir i’r newid ddod i rym.  Fel arall rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd o leiaf a dim ond ar ddechrau tymor ysgol y caniateir i’r newid ddod i rym.

## Codi Tâl am Drafnidiaeth

1.130 Nid yw awdurdodau lleol yn gallu codi tâl am drefniadau trafnidiaeth sydd angen iddynt eu gwneud ar gyfer dysgwyr o oed ysgol gofynnol dan Adran 3 a 4 o’r Mesur, ar wahân i blant sy’n derbyn gofal lle mae’r awdurdod yn gwneud trefniadau teithio i blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod arall. Yn yr achosion hyn gall hawlio’r costau yn ôl dan yr awdurdod gweithredol (dan adran 18 o’r Mesur).

1.131 Pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio’i bwerau adran 6 i ddarparu trefniadau teithio yn ôl disgresiwn i ddysgwyr nad ydynt yn medru hawlio darpariaeth drafnidiaeth rad ac am ddim, gellir codi tâl am y trefniadau hyn.

1.132 Ar gyfer dysgwyr nad ydynt o oed ysgol gofynnol, nid oes cyfyngiad ar godi tâl. O safbwynt dysgwyr o oed ysgol gofynnol, rhaid codi tâl yn unol ag Adran 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996[97] (fel y’i diwygiwyd gan Adran 22 o’r Mesur[98]). Darperir rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth hon yn Adran 3 (Cwestiwn 26).

1.133 Mae adran 6 o Ddeddf Drafnidiaeth 1985[99] yn darparu ar gyfer cofrestru gofynnol o wasanaethau bysus lleol gyda’r Comisiynydd Traffig. Rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol gofrestru pob gwasanaeth sy’n cludo teithwyr sy’n talu am y daith dan adran 6 o Ddeddf 1985. Dan Adran 46 Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981[100], gall awdurdod lleol ddefnyddio bws ysgol i gludo teithwyr sy’n talu am y daith pan mae / nad yw’n cael ei ddefnyddio i gludo plant sy’n medru hawlio trafnidiaeth ysgol am ddim. Rhaid i weithredwyr contract gofrestru unrhyw wasanaethau lle mae dysgwyr, nad ydynt yn gymwys i gael trafnidiaeth dysgwyr rhad ac am ddim, yn cael eu cludo wrth dalu am eu taith.

[97] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/455
[98] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2
[99] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2
[100] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1985/67/section/6

## Pwerau Cyffredinol

1.134 Dan Adran 15 o'r Mesur mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi canllaw a chyfarwyddyd. Wrth weithredu unrhyw un o'u swyddogaethau dan y Mesur, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach roi sylw i'r canllaw a roddir gan Weinidogion Cymru.

1.135 Gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd hefyd dan adran 15 i'w gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau wneud trefniadau teithio i ddysgwyr dan adrannau 3,4 neu 6 o'r Mesur. Gellir rhoi cyfarwyddiadau o'r fath i un neu ragor o awdurdodau lleol neu i awdurdodau lleol yn gyffredinol. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ar achosion unigol neu ar faterion polisi cyffredinol. Gellir gweithredu'r pŵer p'un ai a yw'r awdurdod lleol mewn sefyllfa ragosodedig o'i ddyletswyddau neu beidio. Nid yw'n disodli neu'n effeithio ar bwerau mwy cyffredinol o gyfarwyddo sydd gan Weinidogion Cymru dan adrannau 496-497A o Ddeddf Addysg 1996[101].

1.136 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â safonau cerbydau, archwiliadau, gorfodi neu drwyddedu cerbydau neu yrwyr. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r materion hyn.

## Ystyriaethau Cyfreithiol Eraill

1.137 Mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir hefyd yn gorfod ystyried y canlynol:

Deddfwriaeth a pholisi cydraddoldeb a hawliau dynol megis:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents
- Deddf Hawliau Dynol 1998. - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

[101] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/14

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents
- Deddf Diogelu Data 1998 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents
- Deddf Plant 1989 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents
- Deddf Plant 2004 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - https://www.gov.uk/government/policies/creating-a-fairer-and-more-equal-society/supporting-pages/the-united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents
- Cynllun Hawliau Plant 2014 http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/?lang=cy
- Mesur Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007 - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2316/contents/made Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/contents

Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau Iechyd a Diogelwch megis:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (OS 1999/3242) - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/contents/made
- Rheoliadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gweithle 1992 (OS 1992/3004) = http://www.legislation.gov.uk/uksi/1992/3004/contents/made
- Canllaw ar 'Workplace Transport Safety' (HSG 136), a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2005 - http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg136.htm
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents
- Gorchymyn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Gweithgarwch Rheoledig, Datganoli, Darpariaethau Amrywiol) 2010 - http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/1154/contents/made

Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau Gwasanaethau Cymdeithasol megis:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/42/contents
- Canllawiau Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau 2007 http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=cy#
- Canllawiau Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau 2006 - http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/strongerpartnerships/?lang=cy
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/enacted

Deddfwriaeth Addysg megis:

- Deddfau Addysg (1996 a 2002) - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/contents
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/contents
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/contents
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents/enacted
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2004 (ailargraffiad) - http://www.ipsea.org.uk/AssetLibrary/Downloadable%20documents/specialeducationneedse[1].pdf
- Cod Trefniadaeth Ysgolion Statudol 2013 - http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=cy
- Cod Derbyn i Ysgolion 2013 - http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?lang=cy

- Cod Apelau Derbyn i Ysgolion Statudol 2013 - http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?lang=cy
- Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) - http://www.assemblywales.org/sub-ld9585-e.pdf
- Canllawiau Cynhwysiant Cymdeithasol (Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion) 2006 - http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?lang=cy
- Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/572/contents/made
- Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998 - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/1607/contents/made
- Gorchymyn Addysg (Dyddiad Gadael yr Ysgol) 1997 - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1997/1970/contents/made

Deddfwriaeth, polisi a channlawiau ar drafnidiaeth megis:

- Deddf Trafnidiaeth 1985 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1985/67/contents
- Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/14/contents
- Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnyddio) 1986 (OS 1986/1078) - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1986/1078/contents/made
- Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) 1993/176 - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1993/176/contents/made
- Deddf Lleihau Traffig Ffordd (Targedau Cenedlaethol) 1998 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/24/contents
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/contents
- Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/contents/made
- Canllawiau Statudol ynghylch y Cod Ymddygiad wrth Deithio 2009 - http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/travelcode/tbcstatutoryguidance/?lang=cy
- Y Cod Teithio - http://wales.gov.uk/travelcode

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2014 - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents/enacted
- Rheoliadau Gyrwyr Cerbydau (Tysysgrifau Cymhwysedd Proffesiynol) 2007 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/605/contents/made
- Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/6/contents
- Arweiniad ynghylch Asesiadau Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol 2009 (cyhoeddiad Llywodraeth Cymru) - http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/hometoschooltransport/?lang=cy

## Adran 1: Darpariaethau Statudol.

## Pennod 2: Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan.

### Trosolwg

2.1. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ("y Mesur") yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol[102] ar Weinidogion Cymru i lunio Cod Ymddygiad wrth Deithio a'i gyhoeddi. Cyflwynwyd Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan (y "Cod Teithio"[103]) gan adran 12 y Mesur ac mae wedi bod yn weithredol ers mis Ionawr 2010.

2.2. Mae'r Cod Teithio yn nodi cyfrifoldebau dysgwyr wrth deithio. Ynghyd â'r Cod Teithio ceir canllaw statudol a gyhoeddir dan adran 15 o Fesur 2008, sy'n rhoi cyngor ar sut i sicrhau, cyn belled â phosibl yn ymarferol, taith ddiogel ac yn disgrifio hawliau dysgwyr wrth deithio.

2.3. Diben y Cod Teithio a'r Canllaw cysylltiedig yw hyrwyddo diogelwch wrth deithio, drwy osod set o safonau ymddygiadol ledled Cymru, ar gyfer pob dysgwr. Mae'r Canllaw'n amlinellu'r gweithdrefnau sydd yn rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgol lynu â nhw dan y Cod Teithio.

2.4. Rhennir y Cod teithio'n ddwy Adran: mae Adran Un yn berthnasol i ymddygiad wrth deithio ar unrhyw fath o drafnidiaeth (h.y. bysus, trenau, beicio, cerdded, teithwyr mewn car rhiant neu rywun arall, neu unrhyw fath arall o deithio). Mae Adran Dau yn cwmpasu ymddygiad sy'n benodol i deithio ar fws sef y "Cod Teithio ar Fws", gan roi cyfarwyddyd ychwanegol ar anghenion ymddygiadol i ddysgwyr sy'n teithio ar fysus i'r ysgol ac yn ôl.

2.5. Mae'r Cod Teithio'n disodli pob cod ymddygiad teithio i ddysgwyr eraill a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol cyn dyfodiad y Cod Teithio. Serch hynny, efallai yr hoffai awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth deithio atodol a

[102] Adran 12 o'r Mesur
[103] http://wales.gov.uk/topic/transport/publications/travelbehaviourcode/?lang=cy

pholisïau yn unol â'r Cod teithio cyn belled nad ydynt yn anghyson â'r darpariaethau statudol a amlinellir yn y Cod Teithio.

2.6. Mae'r Cod Teithio'n gosod yr anghenion penodol ynglŷn ag ymddygiad dysgwyr. Mae'n amlinellu set o safonau ymddygiadol cyffredin sy'n berthnasol i holl fathau o deithio gan ddysgwyr, waeth pwy fydd yn darparu'r cludiant – awdurdodau lleol, corff llywodraethu neu fathau eraill o gludiant a ddefnyddir gan ddysgwyr (megis tacsis, bysus cyhoeddus, trenau, beics, cerdded neu gar rhiant neu unrhyw fath arall o deithio).

2.7. Mae'n god ymddygiad gorfodol ar gyfer holl ddysgwyr dan 19 oed (neu sydd wedi cyrraedd 19 ond a ddechreuodd gwrs cyn 19 oed ac sy'n parhau ar y cwrs hwnnw)[104].

2.8. Argymhellir bod awdurdodau lleol, sefydliadau addysgiadol, rhieni, gweithredwyr trenau a bysus, tacsis ac eraill a gontractir yng Nghymru yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cod Teithio ac yn cydymffurfio ag ef. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau rhieni ac ysgolion mewn perthynas â'r Cod teithio ym Mhennod 6, paragraff 6.10 a Phennod 7 paragraffau 7.2-7.5 a Adran 3, Cwestiynnau 13, 29 a 31.

2.9. Mae Rhan 12 o'r Mesur yn dynodi bod y Cod teithio'n briodol i deithiau o'r cartref i'r ysgol yn ogystal â theithiau rhwng meysydd dysgu yn ystod y dydd[105].

2.10. Mae canllaw statudol y Cod Teithio[106] yn gosod fframwaith ar gyfer y drefn sancsiynau o fewn y Cod teithio ac yn darparu ar gyfer rhoi terfyn ar drafnidiaeth rad ac am ddim neu â chymhorthdal ar gyfer cyfnodau penodol o amser, os yw dysgwr yn camymddwyn ar drafnidiaeth i ddysgwyr.

---

[104] Mae Adran 89(2A) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn datgan ei bod hi'n ofynnol i benaethiaid gynnwys y Cod Teithio o fewn eu polisi ymddygiad a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Teithio.

[105] Megis teithio i fynychu cyrsiau yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Llwybrau 14-19) – Rhoddir rhagor o wybodaeth ar Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn Adran 3 (Cwestiwn 28).

[106] http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/travelcode/tbcstatutoryguidance/?lang=cy

2.11. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i adolygu'r Cod teithio o dro i dro[107]. Cyn adolygu'r Cod Teithio, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion a sefydliadau priodol yn eu tyb nhw, er enghraifft awdurdodau lleol, ysgolion a dysgwyr[108].

**Gorfodi'r Cod Teithio - Sancsiynau[109]**

2.12. Pan fydd awdurdod lleol dan ddyletswydd (dan Adran 3 a 4 o'r Mesur) i ddarparu trafnidiaeth, rhaid dilyn y gofynion a osodir yn Rhan 14 o'r mesur, cyn tynnu unrhyw ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl, sef:

- Bod yn fodlon bod y dysgwr wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio (tabl isod)

| Eich Cyfrifoldeb | Eich Diogelwch | Eich Hawliau |
|---|---|---|
| •Parchwch eraill bob amser gan gynnwys dysgwyr eraill, gyrwyr a'r cyhoedd<br><br>•Parchwch gerbydau ac eiddo bob amser<br>•Byddwch yn gwrtais bob amser<br>•Peidiwch fyth â thaflu ysbwriel<br>•Gweithredwch o fewn y gyfraith bob amser | • Cofiwch ymddwyn yn dda wrth deithio<br>• Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser wrth deithio<br>• Peidiwch fyth â cheisio tynnu sylw'r gyrwyr<br>• Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn ddoeth bob amser<br>• Teithiwch ar lwybr diogel bob amser | • Bod yn ddiogel wrth deithio<br>• Cael eich trin yn deg ac yn barchus<br>• Dweud wrth rywun os bydd unrhyw un yn amharu arnoch<br>• Peidio â chael eich bwlio na'ch targedu |

<u>a bod yr amodau canlynol, sy'n berthnasol i'r dysgwr, yn cael eu cwrdd:</u>

[107] Gosodir y ddyletswydd hon yn Adran 12(4) o'r Mesur.
[108] Adran 12(6) o'r Mesur.
[109] Rhoddir canllaw ynglŷn â'r gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer gorfodi sancsiynau mewn perthynas â'r Cod Teithio yn Adran 3 (Cwestiwn 29).

- 1. I roi cyfle i'r dysgwr a rhiant y dysgwr i leisio barn <u>ac</u> i ystyried y farn honno

- 2. Ymgynghori â phennaeth yr ysgol neu sefydliad dysgu perthnasol y cofrestrwyd y dysgwr, <u>ac</u> i roi rhybudd o 24 awr o leiaf i'r pennaeth cyn tynnu'r ddarpariaeth yn ôl

- 3. Sicrhau bod y penderfyniad i dynnu trefniadau teithio yn ôl yn rhesymol dan yr amgylchiadau. Wrth benderfynu hyn, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r materion canlynol:

  - a yw'r cyfnod o dynnu'r drafnidiaeth yn ôl yn cyfateb ac yn gyson ag amgylchiadau'r achos
  - a oes unrhyw amgylchiadau arbennig yn berthnasol i'r tynnu'n ôl sydd yn wybyddus i'r awdurdod lleol (neu'n ymwybodol ohonynt) gan gynnwys:
    - oed y dysgwr
    - unrhyw anghenion addysgiadol arbennig sydd gan y dysgwr
    - unrhyw anabledd sydd gan y dysgwr
    - a fyddai'r dysgwr yn colli'r cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus
    - a all rhieni'r dysgwr wneud trefniadau eraill rhesymol yn hytrach

- 4. Rhoi rhybudd o 24 awr o leiaf i rieni'r dysgwr cyn tynnu'r ddarpariaeth yn ôl (Mae Pennod 6 – 'Cyfrifoldebau Rhieni' paragraff 6.10 yn egluro rhwymedigaethau rhieni mewn perthynas â pha ddarpariaethau y dylid eu paratoi os tynnir trafnidiaeth yn ôl)

- 5. Sicrhau nad yw'r cyfnod o dynnu'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl yn hirach na 10 diwrnod ysgol yn olynol

- Sicrhau nad fyddai'r cyfnod o dynnu'n ôl yn golygu y byddai'r dysgwr wedi cael cyfanswm o fwy na 30 o ddyddiau ysgol o ddarpariaeth drafnidiaeth wedi eu tynnu'n ôl yn ystod y flwyddyn ysgol dan sylw

2.13. Mae'r Mesur yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru greu rheoliadau o safbwynt[110]:

- Newid y nifer o ddyddiau y gellir tynnu'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl
- Dynodi'r categorïau o bobl a all apelio
- Dynodi'r amgylchiadau lle caniateir gwneud apeliadau
- Dynodi cyfansoddiad y paneli apelio
- Dynodi gweithdrefnau'r apeliadau
- Darparu ar gyfer apeliadau yn erbyn tynnu darpariaeth drafnidiaeth yn ôl
- Darparu ar gyfer adolygu penderfyniadau i dynnu darpariaeth drafnidiaeth yn ôl
- Darparu ar gyfer effaith penderfyniadau ar apeliadau
- Darparu taliadau lwfans i aelodau'r paneli apelio
- Sicrhau bod gwybodaeth am apeliadau ar gael

2.14. Pan fydd gan ddysgwr anghenion addysgol arbennig, dylai awdurdodau lleol ystyried pa gamau sy'n rhesymol i'w cymryd, fel y nodir yn y ddogfen hon. Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru[111] ac adrannau 2 a 3 Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2009 – Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion[112] yn rhoi canllaw pellach ar sut i ddelio â chamymddwyn ar gyfer dysgwyr anabl a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu.

## Cyhoeddi Codau Teithio Awdurdodau Lleol

2.15. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi'r Cod Teithio yn unol ag adran 12(5) o'r Mesur a'r hyn sy'n ofynnol o fewn Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009[113]. Mae Pennod 3 paragraffau 3.1 – 3.6 yn rhoi rhagor o wybodaeth ar ba ddarpariaethau sydd angen eu cwmpasu gan y Rheoliadau hyn.

---

[110] Adran 14(15) o'r Mesur.

[111] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang-cy

[112] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?lang=cy

[113] Paragraff 4, Atodlen 1 i Reoliadau 2009

2.16. Mae gan Gynghorau Ysgol swyddogaeth allweddol i'w chyflawni ac, yn benodol, gallent godi'r mater o fwlio bob blwyddyn a thrafod y cynnydd a wnaed o ran datblygu camau i fynd i'r afael â'r mater. Trwy wneud hynny, byddai hyn yn unol ag erthygl 12 CCUHP sy'n nodi y dylid cymryd safbwyntiau plant i ystyriaeth pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt[114]

[114] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/uncrc/?lang=cy

## Adran 1: Darpariaethau Statudol.

## Pennod 3: Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009

### Cyhoeddi Gwybodaeth a Pholisïau Trafnidiaeth Ysgol i Rieni

3.1. Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr 2009[115] ("y Rheoliadau 2009") yn disodli paragraffau 8, 19 a 20 o Atodlen 1 o Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ysgolion) (Cymru) 1997[116]. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio dan y Mesur a'i rhoi ar gael. Mae'r Rheoliadau yn gosod nid yn unig pa wybodaeth sydd angen i awdurdodau lleol ei chyhoeddi ond hefyd pa bryd a sut y dylid cyhoeddi'r wybodaeth a'i rhoi ar gael i rieni, dysgwyr, cyrff llywodraethu, penaethiaid a/neu bobl eraill.

3.2. Nid yw trefniadau teithio i ddysgwyr yn ystod diwrnod ysgol (e.e. teithio i fynychu cwrs mewn lleoliad dysgu arall megis rhai sy'n rhan o'r Rhaglen Llwybrau Dysgu (14-19)), wedi eu cynnwys gan y Rheoliadau ac nid yn amodol ar y darpariaethau hyn.

3.3. Yn ychwanegol i'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, dan Reoliadau 2009, i gyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:-

- Y polisi cyffredinol ar ddarparu trafnidiaeth am ddim
- Y polisi cyffredinol ar unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer teithwyr nad ydynt yn cael darpariaeth drafnidiaeth yn rhad ac am ddim
- Yr amgylchiadau fydd yn caniatáu talu costau teithio rhesymol
- Trefniadau a pholisïau mewn perthynas â dysgwyr gydag anawsterau dysgu/anableddau
- Gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud ymholiadau/cwynion ynglŷn â threfniadau teithio ac unrhyw weithdrefn apeliadau gan awdurdod lleol

[115] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/contents/made
[116] O.S. 1997/1832.

- Unrhyw wybodaeth arall y bydd yr awdurdod lleol yn ei ystyried o fudd i ddysgwyr yn ei ardal ynglŷn â threfniadau teithio a wneir gan sefydliadau eraill

3.4. Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael erbyn 1 Hydref cyn y flwyddyn academaidd sy'n berthnasol i'r wybodaeth[117]. Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael[118]:-

- Ar wefan yr awdurdod lleol
- I rieni yn ddi-dâl ar gais ac ar gael i'w gyfeirio ato i rieni a phobl eraill yn:
    - swyddfeydd yr awdurdod lleol: ac
    - ym mhob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol
- mewn llyfrgelloedd cyhoeddus
- mewn unrhyw le perthnasol arall y gall dysgwyr ystyried ei fynychu
- wedi ei gylchu i rieni disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol ac a all symud i ysgol arall a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw. (Dim ond i'r ysgol y gallai'r disgybl symud iddi y bydd angen i'r awdurdod lleol roi'r wybodaeth)

3.5. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd ddarparu'r canlynol, yn rhad ac am ddim[119] ac ar gais corff llywodraethu, pennaeth, rhiant plentyn neu unrhyw ddysgwr arall yn ardal yr awdurdod lleol:-

- gwybodaeth yn ymwneud ag asesu anghenion dysgu'r teithiwr dan adran 2 o'r Mesur
- gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd trafnidiaeth neu drefniadau teithio lle mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i wneud trefniadau teithio
- gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn ag a yw llwybr 'ar gael'
- gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn ag a oes angen y trefniadau teithio i hwyluso presenoldeb y plentyn bob diwrnod yn y lleoliad lle y bydd yn cael ei addysg neu hyfforddiant (adran 4(1) o'r Mesur)
- gwybodaeth yn ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â gwneud trefniadau teithio drwy ddefnyddio pwerau yn ôl disgresiwn (adran 6 o'r Mesur)

---

[117] Rheoliad 4(2) o Reoliadau 2009
[118] Rheoliad 4(3) o Reoliadau 2009
[119] Rheoliad 5 o Reoliadau 2009.

3.6. Dylai rhieni fedru deall pa ddewisiadau sydd ar gael iddynt ac unrhyw oblygiadau cost wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn. Yn unol â hyn argymhellir y dylai awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni ynglŷn â threfniadau trafnidiaeth ynghyd â, neu fel rhan o'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â derbyn plant i'r ysgol. (Ceir rhagor o wybodaeth ar feini prawf derbyn i'r ysgol a chyhoeddiad ar drefniadau derbyn yn rhan 2.2, 2.11 a 2.12 o'r Cod Statudol Derbyn i Ysgolion 2013[120]).

[120] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?lang=cy

## Adran 1: Darpariaethau Statudol.

## Pennod 4: Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

## Trosolwg

4.1. Mae Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011[121] ("y Mesur 2011") yn gwneud newidiadau i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Diben y newidiadau hynny yw gwella diogelwch yr holl ddysgwyr, cyn belled â phosibl yn ymarferol, ar drafnidiaeth benodedig a ddefnyddir ar gyfer cludo dysgwyr.

4.2. Mae Mesur 2011 yn ymgorffori nifer o ddarpariaethau ynglŷn â manyleb cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig gan ddysgwyr.

4.3. Mae Mesur 2011 hefyd yn cyflwyno troseddau a chosbau i'w defnyddio os torrir yr elfennau gofynnol dan y Mesur[122].

4.4. Hyd yma'r unig ddarpariaeth a gyflwynwyd gan Fesur 2011 a weithredir arno yw'r gofyniad bod yn rhaid i bob bws a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr i'r ysgol ac yn ôl, a drefnwyd gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gael **gwregysau diogelwch wedi eu gosod** ar bob sedd teithiwr erbyn **1 Hydref 2014.**

4.5. Mae darpariaethau eraill a gyflwynwyd gan Fesur 2011 nad ydynt wedi cael eu gweithredu hyd yma, yn cynnwys:

- recordio delweddau neu sain ar drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr
- asesiadau risg diogelwch ar drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr
- hyfforddiant i yrwyr (yn neilltuol i drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr)
- goruchwylwyr ar drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr

[121] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?lang=cy

[122] Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y defnydd o sancsiynau troseddol a sifil.

- pwerau i archwilio a chael mynediad at gerbydau a safleoedd sydd ym mherchnogaeth cyrff perthnasol ac yn cael eu rheoli ganddynt er diben trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr.

**Darparu Gwregysau Diogelwch.**

4.6. Mae'r Adran hon yn disgrifio'r gofyniadau statudol mewn perthynas â darparu gwregysau diogelwch ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr, a lywodraethir gan ddeddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

<u>Deddfwriaeth yn Llywodraethu Darpariaeth Gwregysau cyn 1 Hydref 2014</u>

4.7. Pennir y gofynion ar gyfer gosod gwregysau diogelwch gan Reoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986[123] (fel y'i diwygiwyd). Rhaid ffitio gwregysau sedd i bob bws mini[124]. Rhaid hefyd ffitio gwregysau sedd mewn coetsis (a ddiffinnir fel bws mawr gyda phwysau gros wedi'i ddylunio o dros 7.5 tunnell a chyflymder uchaf o dros 60mya) a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ar 1 Hydref 1988 neu ar ôl hynny[125]. Rhaid i fysiau gyda phwysau cerbyd gros sy'n uwch na 3500kg ac a ddefnyddiwyd gyntaf ar ôl 1 Hydref 2001 gael gwregysau sedd wedi eu ffitio ar bob sedd sy'n wynebu ymlaen ac yn ôl[126].

<u>Deddfwriaeth yn Llywodraethu Darpariaeth Gwregysau ar ôl 1 Hydref 2014</u>

4.8. Mae Mesur 2011 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff perthnasol[127] sicrhau bod pob bws a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr[128] wedi cael ei ffitio â

---

[123] http://www.legislation.gov.uk/uksi/1986/1078/made
[124] Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 1986 yn diffinio bws mini fel cerbyd a addaswyd i gario mwy nag 8 o deithwyr ond nid mwy nag 16 yn ychwanegol at y gyrrwr.
[125] Rheoliad 3 o Reoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 (fel y'i diwygiwyd).
[126] Rheoliad 47 o Reoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 (fel y'i diwygiwyd)
[127] Diffiniad statudol o 'gorff perthnasol' yw'r canlynol, 'awdurdod lleol' a/neu 'corff llywodraethu ysgol a gynhelir' fel y nodir yn adran 14N o Fesur 2011.
[128] Mae Adran 3 (Cwestiynau 35 a 36) yn gosod pa gerbydau nad ydynt wedi eu cynnwys gan ddarpariaeth gwregysau diogelwch Mesur 2011.

gwregys sedd ar bob sedd a ddefnyddir ar 1 Hydref neu ar ôl hynny.

4.9. Bydd bysiau na chawsant eu caffael gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu er diben trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yn cael eu heithrio rhag y gofyniad hwn, hyd yn oed pan fydd dysgwyr yn defnyddio'r cerbydau hyn wrth deithio o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl.

4.10. Mae'r ddarpariaeth gwregys diogelwch yn berthnasol i bob bws a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol, gan gynnwys bysiau gwasanaeth cyhoeddus[129] os cant eu defnyddio ar gyfer unrhyw wasanaeth drafnidiaeth benodedig, a hyd yn oed os bydd y mwyafrif o'u teithiau ar lwybrau gwasanaeth drafnidiaeth amhenodedig i ddysgwyr.

4.11. Rhaid i seddi ar fysiau deulawr a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr ers 1 Hydref 2014, gael eu ffitio hefyd â gwregysau diogelwch yn yr un modd â cherbydau un llawr.

Gwisgo Gwregysau Diogelwch

4.12 Llywodraethir gwisgo gwregysau diogelwch gan y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 (fel y'i diwygiwyd)("y Ddeddf 1988"). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i deithwyr oed 14 neu'n hŷn sydd yn eistedd mewn bws neu goets i ddefnyddio gwregys diogelwch os oes un wedi ei osod.

4.13 Ar gyfer teithwyr o dan 14 oed, cyfrifoldeb gyrrwr y cerbyd yw sicrhau bod y plentyn yn gwisgo gwregys diogelwch[130]. Serch hynny, mae gyrwyr y mathau canlynol o gerbydau wedi eu heithrio rhag y gofyniad hwn[131]:

- Bysiau mawr – gydag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr
- Bysiau bach – llai nag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr lle nad oes gwregysau diogelwch ar gael, a

[129] Rhoddir diffiniad statudol o 'fysiau gwasanaeth cyhoeddus' yn yr eirfa (Adran 2)
[130] Adran 15(3) Deddf Traffig Ffyrdd 1988 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/52/section/15
[131] Mae Adran 3 (Cwestiwn 37) yn rhoi cyngor ar sut i berswadio plant ifanc a dysgwyr sut i wisgo gwregysau diogelwch

- Bysiau bach – llai nag 8 o seddi yn ychwanegol at y gyrrwr os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaeth lleol o fewn ystyr Deddf Trafnidiaeth 1985 (hynny yw cerbyd gwasanaeth cyhoeddus sy'n cludo teithwyr ar y ffordd sy'n talu'n unigol) neu os yw'r cerbyd wedi'i ddylunio neu'i addasu ar gyfer teithwyr sy'n sefyll

4.14 Mae rhan 15b o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 yn pennu, pan osodir gwregysau diogelwch mewn bws, rhaid i weithredwr bws gymryd pob cam rhesymol i sicrhau yr hysbysir pob teithiwr am y ffaith ei bod hi'n ofyniad cyfreithiol i wisgo gwregys diogelwch. Gellir hysbysu teithwyr am y gofyniad hwn yn y dulliau canlynol:

- Cyhoeddiad swyddogol gan yrrwr y bws, tywysydd(wyr) neu ddisgybl
- Cyflwyniad clywedol (pan ddaw disgyblion ar y bws neu mor fuan â phosibl wedi hynny)
- Arwydd darluniol neu eiriau wedi eu harddangos yn amlwg ar bob un sedd sydd â gwregys diogelwch

4.15 Gall y teithwyr hynny sydd â chyflyrau meddygol gael eu heithrio rhag gwisgo gwregys diogelwch, ond rhaid iddynt[132] gario eu tystysgrif eithrio gyda nhw wrth deithio.

4.16 Bydd gweithredwyr bysiau nad ydynt yn llwyddo i ddarparu'r hysbysiadau angenrheidiol yn wynebu dirwy hyd at £2,500.

Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd

4.17 Mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2003/20/EC[133] yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr oed 3 i 13 wisgo gwregysau diogelwch ar fws neu goets. Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglŷn â sut i drosi a gorfodi'r gofyniad cyfreithiol hwn yn y Deyrnas Unedig.

[132] Rheoliadau Cerbydau Motor (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) 1993/176 http://www.legislation.gov.uk/uksi/1993/176/regulation/2/made

[133] Rhoddir gwybodaeth ar y Gyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd yn yr Eirfa (Adran 2)

## Sancsiynau Troseddol

4.18 Cyflwynodd y Mesur 2011 drefniant o sancsiynau troseddol i Fesur 2008[134] ble bydd:

- corff perthnasol yn methu sicrhau bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd yn y bysiau y mae'n eu darparu neu'n eu sicrhau

- ‘unigolyn’ (er enghraifft gweithredydd bws) sy'n darparu'r bws ar gyfer cludiant i ddysgwyr yn methu sicrhau bod gwregysau diogelwch wedi'u ffitio i bob sedd deithiwr

4.19 Mae Adran 14H o Fesur 2008 yn rhoi’r grym i Weinidogion Cymru i benodi corff gorfodi os dymunant. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi penodi corff gorfodi gan benderfynu mai’r heddlu sydd fwyaf priodol i gyflawni’r swyddogaeth honno o fod yn awdurdod gorfodi ar gyfer y ddarpariaeth gwregysau diogelwch o’r Mesur yng Nghymru.

4.20 Mae gan yr heddlu’r pŵer i gynnal gwiriadau ar hap ar ymyl y ffordd yn ystod teithiau i’r ysgol neu ar dir yr ysgol cyn neu ar ôl y daith i wirio bod gwregysau diogelwch wedi eu gosod ar bob sedd deithiwr ar drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr.

4.21 Pan fyddant ar gael bydd archwilwyr yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA) (VOSA gynt) yn rhoi cymorth i’r heddlu p’run bynnag a ble bynnag y byddant yn cynnal gwiriadau neu weithrediadau trafnidiaeth ysgol yng Nghymru. (Darperir rhagor o wybodaeth am y DVSA a VOSA yn Adran 3,Cwestiwn 23).

## Atebolrwydd y rhai sy’n darparu neu’n sicrhau trafnidiaeth i ddysgwyr – pwy fydd yn cael ei erlyn?

4.22 Pan geir erlyniad am drosedd dan ddarpariaethau Mesur 2008, awdurdod lleol neu gorff llywodraethu’r ysgol a gynhelir fyddai’n gyfrifol ac ni fyddai unrhyw atebolrwydd unigol. Serch hynny, mewn rhai achosion byddai’n bosibl i unigolyn gael ei erlyn ar wahân ochr yn ochr â’r cwmni neu awdurdod lleol. Er enghraifft mewn achos o gwmni bysiau

[134] adran 14A o Fesur 2008

(neu awdurdod lleol), lle gellir profi y troseddwyd drwy ganiatâd unigolyn o fewn y cwmni (neu awdurdod lleol)[135].

[135] adran 14L o Fesur 2008 (fel y'i diwygiwyd)

**Adran 1: Darpariaethau Statudol.**

## Pennod 5: Asesiad Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol

### Trosolwg

5.1 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol[136]. Argymhellir bod awdurdodau lleol yn cymryd y darpariaethau canlynol i ystyriaeth wrth wneud asesiad.

### Rhan 1: Y Weithdrefn Asesu Risg O Ran Risgiau Ffisegol/Traffig

5.2 Mae cwmpas yr adran hon yn cynnwys y berthynas rhwng dysgwyr a thraffig. Fel cerddwyr, mae dysgwyr yn wynebu nifer o bryderon a nodir isod. Bydd cerdded y llwybr yn galluogi aseswyr risg i nodi peryglon.

### Cyflwr y Llwybr

5.3 Er mwyn dosbarthu llwybr fel un sydd ar gael, mae Gweinidogion Cymru yn argymell bod angen i'r llwybr fod yn:

- Droetffordd addas barhaus ar ffyrdd sydd â llif traffig cymedrol i drwm [137] **neu**
- "Fannau camu"[138] ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld addas i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr **neu**
- Ar ffyrdd â llif traffig isel iawn, dim "mannau camu", ond llinellau gweld sy'n ddigon da i roi rhybudd addas ymlaen llaw

5.4 Os oes angen croesi ffyrdd, mae Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai fod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Llochesau i gerddwyr **neu**

[136] Adran 2 o'r Mesur
[137] Diffinnir llifoedd traffig ym Mhennod 5 paragraffau 5.8 – 5.12
[138] At ddibenion y ddogfen hon, darperir y diffiniad o "Fannau camu" yn yr eirfa (Adran 2).

- WeledEdd - dylai fod yn ddigon da i alluogi cerbydau i stopio o ystyried y rheol cyflymder 85fed canradd (neu'r cyflymder y mae dim mwy na 15% o'r traffig yn teithio'n gyflymach nag ef) - nodir pellteroedd stopio cerbydau yn Rheolau'r Ffordd Fawr[139] **neu**
- Fylchau[140] digonol yn y llif traffig a llinellau gweld i gynnig digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel **neu**
- Gyfleusterau croesi digonol (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican) **neu**
- Fannau digonol i gerddwyr wrth oleuadau traffig (gan gynnwys llochesau angenrheidiol) **neu**
- Batrolau Croesi digonol mewn ysgolion (pobl lolipop)

5.5 Mae asesiadau risg o lwybrau cerdded yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i ysgol 'ar gael' (yn ddiogel) i gerdded ar ei hyd. Hefyd, mewn achosion lle ystyrir bod llwybr 'ddim ar gael' (anniogel) gall y broses asesu benderfynu pa drefniadau diogelwch y gellid eu gwneud i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' neu y gall fod 'ar gael' (yn ddiogel) i gerdded ar ei hyd. Wrth benderfynu a ddylid cynnal ymarfer asesu risg ai peidio, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r llwybr wedi cael ei asesu o'r blaen. Os yw wedi cael ei asesu o'r blaen, beth sydd wedi newid a fyddai'n golygu bod angen asesiad pellach? Er enghraifft:

- Damwain neu ddigwyddiad tebyg
- Ystadegau damweiniau uchel
- Agor neu gau ysgolion
- Newidiadau a wnaed i lwybr – gwaith ffordd, newidiadau i seilwaith
- Newidiadau i gyfansoddiad a chyfanswm y traffig, gan gynnwys beicwyr
- Newidiadau yn effeithio'r llwybr – tai/datblygiadau tai newydd/prosiectau adeiladu ar raddfa fawr
- Newidiadau i briodweddau'r bobl sy'n cerdded ar hyd y llwybr – fel defnyddiwr cadair olwyn yn defnyddio'r llwybr

[139] https://www.gov.uk/browse/driving/highway-code
[140] Amlinellir bylchau digonol mewn llif traffig yn fwy manwl ym Mhennod 5 paragraffau 5.8 – 5.12

## Traffig

5.6 Argymhellir bod asesiadau'n cael eu cynnal ar yr amser arferol y mae dysgwyr yn teithio i'r ysgol ac oddi yno, sef yn y bore ar yr amser cyn i'r ysgol ddechrau, pan fydd y llif traffig drymaf yn gyffredinol (oni bai y gellir dangos bod llif y prynhawn yn drymach); ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol arferol. Dylid cynnal o leiaf tri arolwg.

5.7 Dylid hefyd cymryd terfynau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion i ystyriaeth o ran llif traffig er mwyn penderfynu pa fesurau diogelwch sydd eu hangen.

## Llif Traffig ar Ffyrdd

5.8 Mae llif traffig ar hyd ffyrdd yn ffactor arwyddocaol wrth benderfynu ar ddiogelwch[141] llwybr a gerddir.

5.9 Ceir llif traffig isel ar ffyrdd sydd â llif traffig sy'n is na 400 cerbyd mewn cyfnod o 1 awr; ceir llif traffig cymedrol ar ffyrdd â llif traffig rhwng 400 ac 840 o gerbydau yr awr; a cheir llif traffig trwm ar ffyrdd â llif traffig o fwy na 840 o gerbydau'r awr.

5.10 Argymhellir bod aseswyr risg yn cynnal dadansoddiad bwlch. Mae hwn yn cofnodi nifer y bylchau yn llif y traffig a dylai gofnodi data mewn cyfnodau olynol o bum munud. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol.

5.11 Argymhellir bod cyfrifon traffig yn cael eu cofnodi fel gwerthoedd cyfwerth "cerbyd teithwyr" (Unedau Cerbyd Teithio - PCUau), gan ddefnyddio'r ffactorau canlynol:

[141] At ddibenion y ddogfen hon, darperir y diffiniad o 'Diogelwch' yn yr eirfa (Adran 2)

| | |
|---|---|
| 3 beic pedlo | 1 PCU |
| 2 feic modur | 1 PCU |
| 1 Car | 1 PCU |
| 1 cerbyd nwyddau ysgafn (hyd at 3.5 tunnell o bwysau gros) | 1 PCU |
| 1 Bws/Coets (dros 3.5 tunnell) | 2 PCU |
| Cerbydau Nwyddau (dros 3.5 tunnell) | 2 PCU |
| Cerbydau Nwyddau (dros 7.5 tunnell/lorïau sawl echel) | 3 PCU |

5.12 Cyfrifir cerbydau sy'n teithio'r ddwy ffordd ac eithrio ar systemau unffordd. Caiff ffyrdd deuol eu cyfrif fel ffyrdd unffordd ar y naill ochr a'r llall. Pan fo'r llif traffig ddwy ffordd (un ffordd o ffordd ddeuol) yn is na 240 o gerbydau'r awr, asesir bod y ffordd yn ddiogel i'w chroesi. Mae hyn yn gyfwerth ag 1 cerbyd bob 15 eiliad, sy'n gadael bwlch rhesymol i groesi ffordd 7m o led ar gyflymder cerdded o 0.92 m yr eiliad.

## Hanes o Wrthdrawiadau

5.13 Argymhellir bod yr hanes o anafiadau ar y ffordd ar hyd y llwybr yn cael ei nodi gan roi sylw arbennig i fannau lle ceir perygl penodol o ddamweiniau. Os defnyddir y llwybr ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus hefyd, dylid gwneud nodyn o arosfannau a lefel y defnydd cynyddol gan gerddwyr a allai effeithio ar y lle sydd ar gael ar lwybrau troed. Er enghraifft, gallai aseswyr risg gynnwys hanes gwrthdrawiadau 3 blynedd yn yr asesiad ar gyfer y llwybr cyfan.

5.14 Os nodir risg[142], argymhellir bod mesurau priodol yn cael eu hystyried – cyflwyno twmpathau ffordd neu gamerâu cyflymder, er enghraifft[143].

[142] At ddibenion y ddogfen hon, darperir y diffiniad o 'Risg' yn yr eirfa (Adran 2).
[143] Caiff twmpathau ffordd neu gamerâu cyflymder eu gosod fel ymateb i ystadegau Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yn unig fel rheol.

## Llwybrau Troed

5.15 Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y caiff troetffyrdd, llain ar ochr y ffordd o led a chyflwr rhesymol, llwybr troed neu lwybr ceffylau oll eu tybio i ddarparu llwybr sydd ar gael fel rheol. Bydd angen i'r droetffordd fod yn ddigon llydan i gerdded ar ei hyd ac, yn achos plant ifanc neu'r rhai y dylai rhywun fynd gyda nhw, dylai fod yn ddigon llydan i ganiatáu goruchwyliaeth ddiogel. Dylid archwilio cyflwr y llwybr er mwyn sicrhau ei fod yn rhydd o rwystrau dan draed ac o ddeiliant gormodol.

5.16 Ar ffordd â llif traffig isel, gellir tybio fel rheol bod llain ymyl ffordd y gall plentyn a rhiant sydd gydag ef gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael. Gall llawer o lwybrau sydd ar gael fod ar hyd ffyrdd nad oes ganddynt droetffordd na llain ymyl ffordd. Ar y ffyrdd hyn, argymhellir y dylid ystyried lled y lôn gerbydau, cyflymder y traffig a'r math o draffig (e.e. cerbydau nwyddau trwm neu hir aml) yn ogystal â gwelededd/linellau gweld a allai gael eu heffeithio gan droeon llym, perthi uchel neu rwystrau eraill.

5.17 Lle canfyddir bod diffyg 'mannau camu' ar lwybr, gallai fod problemau hefyd gyda gwelededd addas - mae'r nodweddion sy'n effeithio ar y 'mannau camu' sydd ar gael yn aml yn effeithio ar welededd - perthi, graddiant ac ati. Mewn achosion o'r fath, argymhellir bod y rhain yn cael eu hystyried yn y meini prawf asesu a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol.

5.18 Os nodir risg yna gallai'r canlynol gynnig ateb:

- cael gwared ar lystyfiant **neu**
- ailosod wyneb neu ledaenu'r llwybr troed sydd ar gael **neu**
- ddarparu llwybr troed newydd **neu**
- ddarparu golau

## Mannau croesi

5.19 Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried a oes cyfleusterau croesi fel llochesau canolog, croesfannau i gerddwyr neu oleuadau traffig ar gael. Lle nad oes unrhyw

gyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob man croesi'r ffordd sydd ei angen, gan roi ystyriaeth i gyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.20 Os oes angen croesi ffyrdd, yna dylai fod:

- Bylchau digonol yn llif y traffig a llinellau gweld i gynnig digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylid defnyddio'r dadansoddiad o amser bylchau yn ôl y gofyn **neu**
- Llochesau i gerddwyr **neu**
- Gyfleusterau croesi (e.e. croesfan sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Fan i gerddwyr wrth oleuadau traffig **neu**
- Batrôl Croesi wrth yr Ysgol

5.21 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gweledeedd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau yn teithio yn arafach nag ef) o lif y traffig. Dylid ystyried pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen gwneud dyfarniad parhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl ganllawiau neu atebion i bob sefyllfa y gellid ei hwynebu.

5.22 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troetffordd neu i wella llinellau gweld yna efallai y bydd angen cynghori ar fannau croesi diogel. Efallai na fydd y droetffordd yn barhaus ar rai ffyrdd gwledig. Bydd angen gwneud dyfarniad cytbwys am y "mannau camu" sydd ar gael.

5.23 Gellir asesu'r anhawster o groesi mewn man trwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gallai traffig sy'n llifo'n rhydd ddarparu bylchau ar gap ac yn weddol aml, ond mae cyflymder yn tueddu i fod yn uwch a byddai angen i fylchau fod yn hwyr er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel. Mae bwlch derbyniol i groesi o gwrb i gwrb yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol normal mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau hwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill.

5.24 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy na'r amser a gymerir i groesi'r

ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gellid dosbarthu bylchau hwy fel bylchau lluosog yn hytrach na fel un bwlch yn unig.

5.25 O ran croesfan rheilffordd, mae angen rhoi sylw arbennig i'r math o groesfan a digwyddiadau a gofnodwyd i asesu diogelwch y groesfan.

**Camlesi, Afonydd, Ffosydd ac Argloddiau**

5.26 Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig, lle'n briodol, sicrhau bod rhwystrau a nodweddion diogelwch priodol yn cael eu cynnwys a bod y rhain o'r uchder priodol i gymryd grwpiau oedran y dysgwyr a allai ddefnyddio'r llwybr i ystyriaeth. Mae nodweddion diogelwch yn cynnwys rhwystrau gwell, arwyddion gwell, mwy o olau neu lwybrau eraill sydd ar gael.

5.27 Bydd hefyd yn bwysig darganfod:

- a fu llifogydd[144] difrifol ar hyd y llwybr
- a yw hyn yn digwydd yn rheolaidd a
- phan fydd llifogydd difrifol, a oes dargyfeiriad priodol ar gael?

5.28 Gellir cael gwybodaeth am weithdrefnau rheoli llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru[145].

**Golau**

5.29 Bydd lefel y golau naturiol yn amrywio yn ystod y flwyddyn. Gallai newid tymhorol ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o'r asesiad o'r llwybr (os bydd yr amodau a adroddir yn creu anawsterau i'r dysgwr a / neu'r hebryngwr).

5.30 Argymhellir bod goleuadau stryd yn cael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.

[144] At ddibenion y ddogfen hon, darperir diffiniad o 'Llifogydd' yn yr eirfa (Adran 2)
[145] http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/?lang=cy

## Newidiadau Arfaethedig yn yr Ardal

5.31 Dylai'r asesiad ystyried unrhyw gynigion a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'r awdurdod lleol yn debygol o feddu ar lawer o'r wybodaeth hon ac felly bydd y gwiriadau canlynol yn hysbysu'r asesiad risg:

- Adrannau priffyrdd ar gyfer gwaith ffordd arfaethedig a fyddai'n cael effaith byrdymor ar amodau traffig (e.e. cynlluniau lledaenu'r ffordd)
- Adrannau cynllunio ar gyfer datblygiadau a allai gael effaith hirdymor ar draffig (e.e. datblygiadau tai neu fanwerthu)
- Adrannau addysg i wirio unrhyw achosion arfaethedig o ad-drefnu a/neu uno ysgolion

5.32 Pan gaiff newidiadau arfaethedig eu datblygu ac y gallent effeithio ar lwybrau cerdded i'r ysgol, argymhellir bod arweinydd adran berthnasol yr awdurdod lleol yn ymgynghori â thimau teithio gan ddysgwyr fel sy'n briodol.

## Croesfannau Rheilffordd

5.33 Ceir mwy na 6,500 o groesfannau rheilffordd ym Mhrydain ac mae 1,167 (neu 18% ohonynt) yn rhan o Lwybr Network Rail Cymru.

5.34 Lle'n berthnasol, argymhellir bod aseswyr risg yn cynnwys ystyriaeth o risg croesfannau rheilffordd yn yr asesiad risg. Mae Network Rail wedi cynhyrchu deunydd addysgol i ysgolion sydd ar gael trwy glicio http://www.networkrail.co.uk/level-crossing/

5.35 Lle'n briodol, dylai aseswyr risg ystyried cysylltu â thîm Network Rail o Reolwyr Croesfannau Rheilffyrdd sy'n gallu cynnig cyngor a chanllawiau ar fesurau rheoli asesiadau risg croesfannau rheilffordd, fel digwyddiadau ymwybyddiaeth risg croesfannau rheilffordd. Mae manylion cyswllt ar gael yn http://safety.networkrail.co.uk/Services/Contacts

## Rhan 2: Gweithdrefn Asesu Risg o ran Perygl Cymdeithasol

### Natur Perygl Cymdeithasol

5.36 Gellir dehongli 'Perygl Cymdeithasol' mewn gwahanol ffyrdd ac mae'n oddrychol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r dehongliadau mwyaf cyffredin a ddarperir gan blant a phobl ifanc fel a ganlynol: perygl dieithriaid; perygl(on) gan bedoffiliaid; perygl(on) gan droseddwyr (mygwyr, lladron, llofruddwyr, herwgipwyr); ymddygiad gwrthgymdeithasol (presenoldeb bwlïaid neu bobl sy'n gaeth i alcohol neu gyffuriau ar lwybrau a gerddir i'r ysgol); ac amlygiadau ffisegol, fel nodwyddau a daflwyd neu fannau lle mae pobl yn cam-drin/camddefnyddio cyffuriau.

5.37 Mae plant yn cael profiad o beryglon go iawn wrth gerdded i'r ysgol ac oddi yno. Fel oedolion, gall plant hefyd deimlo peryglon hyd yn oed os nad oes rhai'n bodoli, a bydd hynny hefyd yn dylanwadu'n ddealladwy ar eu hymddygiad ac mae angen cymryd hynny i ystyriaeth. Gallai perygl tybiedig deimlo ddim llai gwir na pherygl go iawn. Bydd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn penderfynu a chefnogir y perygl tybiedig gan unrhyw dystiolaeth cyn cynnal asesiadau risg.

5.38 Pan yn briodol, mae Gweinidogion Cymru yn argymell bod gwasanaethau awdurdod lleol eraill yn gweithio i leddfu rhai ofnau, fel gwasanaethau glanhau'r stryd neu wardeniaid cŵn er enghraifft.

5.39 Efallai hefyd y bydd angen gweithio gydag athrawon a rhieni plant sy'n poeni am berygl dieithriaid fel y gellir tawelu meddwl y plentyn er ei bod yn dal yn ymwybodol o ymddygiad gwrth-risg; teithio gyda ffrindiau, peidio â siarad â dieithriaid ac ati. O'r herwydd, awgrymir bod swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol yn cyfeirio'r achosion hynny nad ydynt yn cael eu profi gan dystiolaeth at yr ysgol berthnasol.

### Mynd i'r Afael â Pherygl Cymdeithasol mewn Asesiadau Risg – Gweithio gyda Phartneriaid

5.40 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau

sydd ag arbenigedd mewn mynd i'r afael a mesur perygl cymdeithasol, gan gynnwys cyfrifoldeb amdano. Yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gyfrifol am drosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol tra bod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

5.41 Mae Adran 25 Deddf Plant 2004[146] yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu cydweithrediad rhwng yr awdurdod a 'phartneriaid perthnasol' i wella lles plant a phobl ifanc. Y 'partneriaid perthnasol' sy'n cyfansoddi'r Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDPau). Fel rheol, mae'r cyrff hyn yn cynnwys Awdurdod yr Heddlu; Prif Swyddog yr Heddlu; y bwrdd prawf lleol; y tîm troseddau ieuenctid; Ymddiriedolaeth y GIG; y Bwrdd Iechyd Lleol; a'r awdurdod lleol perthnasol (yn enwedig uwch-Gyfarwyddwyr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai swyddogion trafnidiaeth awdurdodau lleol gael eu gwahodd i gyfarfodydd hyn y BLlDP a'u mynychu'n rheolaidd i drafod diogelwch llwybrau a gerddir. Fel arall, argymhellir bod materion trafnidiaeth yn cael eu cynnwys fel eitem agenda ym mhob cyfarfod a dylid ymgysylltu ymhellach â swyddogion trafnidiaeth lle'n briodol.

5.42 Mae Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007[147] yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol, ar ôl ymgynghori â phartneriaid, gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n nodi sut y byddant yn gwella lles plant a phobl ifanc yn eu hawdurdod. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai gwybodaeth am sut yr aseswyd risg llwybrau a gerddir a sut y'u gwnaed yn fwy diogel gael ei chynnwys yn y Cynlluniau hyn.

5.43 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol[148], sef 'Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau' 2006 (Cylchlythyr 35/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru)[149] a 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' 2007 (Cylchlythyr 31/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru)[150] sy'n amlinellu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi cynllun yn nodi strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau o ran plant a phobl ifanc. Darperir

---

[146] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/section/25
[147] O.S. 2007/2316. - http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2316/contents/made
[148] Dan adrannau 25(B) 26 a 27(4) Deddf Plant 2004
[149] http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/strongerpartnerships/?lang=cy
[150] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=cy

rhagor o wybodaeth am y dogfennau hyn yn Adran 3 (Cwestiwn 18).

## Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA)[151]

5.44 Dan adrannau 325-327 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003[152], ceir dyletswydd statudol ar yr “Awdurdodau Cyfrifol” (yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a’r Gwasanaeth Carchardai) i wneud trefniadau ar gyfer asesu, rheoli a lleihau’r risg a berir gan droseddwyr rhywiol a threisgar perthnasol i leihau ail-droseddu a diogelu’r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys y rhai yr ystyrir eu bod yn peri risg, neu risg posibl, o niwed i blant.

5.45 Mae’n ddyletswydd statudol ar sefydliadau partner, sy’n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, timau troseddau ieuenctid a darparwyr tai cymdeithasol, i gydweithredu â’r Awdurdodau Cyfrifol[153]. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i aseswyr risg awdurdodau lleol weithio’n unol â’r fframwaith cyfreithiol a ddisgrifir uchod i gael gafael ar yr arbenigedd perthnasol o ran rheoli’r risgiau a berir i blant sy’n defnyddio llwybrau a gerddir i’r ysgol.

5.46 O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai bodolaeth unrhyw beryglon o’r fath gael ei gefnogi gan dystiolaeth (boed yn ansoddol neu’n feintiol).

5.47 Wrth gydweithredu ag asiantaethau eraill, bydd angen i awdurdodau lleol sefydlu protocolau rhannu gwybodaeth sy’n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998[154] (yn enwedig gan fod gwybodaeth sy’n ymwneud â phlant yn sensitif)[155].

---

[151] https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-public-protection-arrangements-mappa--2
[152] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/section/325
[153] Adran 325(3) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
[154] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents
[155] Amlinellir rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth hon yn Adran 3 (Cwestiwn 22 y ddogfen hon),

## Rhan 3:  Gofyn am Safbwyntiau Dysgwyr

Pam mae'n bwysig gofyn am safbwyntiau plant?

5.48 Mae'n bwysig am y rhesymau canlynol:

- Mae Adran 1 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[156] yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Ran 1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r Protocolau sy'n gysylltiedig ag ef, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.  Yn benodol, mae Erthygl 12 yn nodi bod gan blant yr hawl i fynegi eu barn ar yr hyn ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei chymryd i ystyriaeth.  Mae Llywodraeth Cymru o'r farn felly ei bod yn hollbwysig galluogi llais plant a phobl ifanc i hysbysu ei gwaith datblygu polisi, yn enwedig o ran y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

- Plant yw defnyddwyr y llwybrau a gerddir i'r ysgol

5.49 Gall awdurdodau lleol ganfod safbwyntiau plant mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) – mae'r rhain yn bodoli ym mhob ardal awdurdod lleol gyda'r diben o ddod â'r holl wasanaethau sy'n gweithio dros blant a phobl ifanc 0-25 oed ynghyd.  Mae pob partneriaeth yn cynnig llais i wasanaethau plant ac yn arwain y gwaith o hyrwyddo gwaith partneriaeth
- Ffurflenni llwybrau a gerddir i'r ysgol i rieni – gellir llenwi'r rhain er mwyn galluogi safbwyntiau i gael eu mynegi am ddiogelwch llwybrau a gerddir
- Cynghorau Ysgol - grwpiau o ddisgyblion yw'r rhain a etholir gan eu cyd-ddisgyblion i gynrychioli eu safbwyntiau a chodi materion gyda phenaethiaid neu lywodraethwyr yr ysgol
- Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd – gall plant a phobl ifanc rannu eu safbwyntiau gyda nhw pan fyddant yn ymweld ag ysgolion

[156] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

- Gwersi ysgol – gall y rhain gasglu data i'w gyfrannu at Gynghorau Ysgol, er enghraifft gwersi daearyddiaeth sy'n cynnwys arolwg neu archwiliad risg o'r ardal leol
- Cynulliadau Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) – mae'r rhain yn bodoli ym mhob ward fel fforwm lle gall yr Heddlu ac aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys plant, drafod materion cyfoes/materion o bryder lleol
- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan – yn rhan o'r rhaglen hon, mae swyddogion yr heddlu mewn lifrai yn darparu gwersi ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth i leihau trosedd ac anhrefn ac i hybu dinasyddiaeth gadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc
- Cynlluniau Teithio i'r Ysgol – gall y rhain gael eu cymeradwyo gan Grŵp Diogelwch Awdurdod Lleol a fyddai'n archwilio'r Cynlluniau sy'n cynnwys safbwyntiau'r plant ar ddiogelwch llwybrau a gerddir o'r cartref i'r ysgol
- Y defnydd o flychau negeseuon sy'n galluogi athrawon, rhieni a dysgwyr i godi pryderon

  Gellid cymryd safbwyntiau a gwybodaeth a gesglir o'r ymarferion ymgysylltu hyn i ystyriaeth a rhoi sylw dyledus iddynt pan gynhelir asesiadau.

5.50 Mae pa mor aml y mae awdurdodau lleol yn gofyn am safbwyntiau plant a phobl ifanc yn fater iddyn nhw. Mae Gweinidogion Cymru yn argymell bod awdurdodau lleol yn ystyried y ffactorau canlynol i'w helpu i benderfynu pryd a pha mor aml i gynnal y broses asesu risg:

- Damwain, digwyddiad neu gynnydd mewn anafiadau personol
- Ystadegau damweiniau uchel
- Agor ysgolion newydd a / neu uno ysgolion presennol (sy'n golygu defnyddio llwybrau newydd)
- Newidiadau a wneir i lwybr – gwaith ffordd, newidiadau i seilwaith, cau ffyrdd dros dro
- Traffig - newidiadau i gyfansoddiad a chyfanswm traffig
- Newidiadau sy'n effeithio'r llwybr – beicwyr, tai/datblygiadau tai newydd, prosiectau adeiladu ar raddfa fawr
- Bwlio/ymddygiad gwrth-gymdeithasol – gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu fynd i'r afael â'r rhain

## Rhan 4: Helpu i Sicrhau Diogelwch Plant ar y Llwybr o'r Cartref i'r Ysgol

5.51 Ceir amrywiaeth o ffyrdd y gall awdurdodau lleol helpu i sicrhau, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol, diogelwch plant a phobl ifanc ar y llwybr a gerddir rhwng y cartref a'r ysgol:

- Y ddarpariaeth o ragor o bobl lolipop
- Rhoi mesurau gostegu traffig ar waith
- Annog plant i gerdded gydag oedolion, ffrindiau neu grwpiau (mewn bysiau cerdded)
- Annog rhieni i fynd gyda'u plant i'r ysgol
- Annog rhieni i rannu cludiant i'r ysgol – gallai arfer o'r fath gael ei gydgysylltu gan Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon neu grwpiau cymunedol)
- Darparu hyfforddiant Kerbcraft i blant a phobl ifanc – byddai hon yn ffordd dda o addysgu plant sut i fod yn gerddwyr mwy diogel trwy fynd â nhw ar ffyrdd a dangos iddynt sut y gall gwneud y penderfyniadau cywir ac ymddwyn yn gywir eu helpu i gadw'n ddiogel
- Gwneud darpariaeth ehangach o hyfforddiant teithio - mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol y gellir eu haddysgu sut i gerdded yn annibynnol rhwng y cartref a'r ysgol. Profwyd bod hyfforddiant o'r fath o fudd i'r rhai sy'n ei dderbyn (sy'n datblygu mwy o synnwyr o annibyniaeth a hyder) a'i fod yn gost-effeithiol i awdurdodau lleol
- Gwersi neu wasanaethau ysgol i drafod ymddygiad diogel
- Annog Swyddogion Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, i gerdded ar hyd y llwybrau a gerddir i sicrhau, cyn belled ag y mae'n ymarferol, eu bod yn ddiogel
- Gostwng terfynau cyflymder o gwmpas ysgolion i 20 mya a mynd i'r afael â pharcio ar balmentydd
- Annog yr ymarferwyr sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio, darparu a chymeradwyo strydoedd preswyl newydd neu ag addasu strydoedd presennol i gyfeirio at Lawlyfr yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Strydoedd, a'i ddefnyddio https://www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets. Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae'r berthynas rhwng adeiladau a'r stryd yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd sy'n dda i bobl

- Hybu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithrediad y Cod Teithio gan Ddysgwyr statudol

**Rhan 5: Mecaneg y Broses Asesu Risg**

5.52 Mae'r matrics Asesu Risg yn Atodiad 1[157].

5.53 Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid neilltuo'r un pwysigrwydd i'r meini prawf amrywiol a ddefnyddir ar gyfer asesu risg pa un a ydynt yn ffisegol, yn dopograffig, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol neu'n ddaearyddol.

5.54 Gall rhieni wneud cais i fynd gyda'r Asesydd Risg yn ystod yr asesiad risg.

5.55 Os bydd anghydfod rhwng awdurdodau lleol a rhieni, argymhellir y dylid defnyddio'r dulliau datrys anghydfod presennol:

- Cam 1 – cyfeirir cwynion at Adran Drafnidiaeth yr awdurdod lleol perthnasol
- Cam 2 – os na chânt eu datrys, cyfeirir achosion o anghydfod at Swyddog Cwynion neu Swyddog Monitro'r awdurdod lleol
- Cam 3 - os na chaiff yr achos ei ddatrys o hyd, dylai achwynwyr fynd ag ef at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pan gaiff achosion eu cyfeirio at yr Ombwdsmon, mae'n rhaid i'r mater gydymffurfio â'r meini prawf cymhwyso penodol sy'n caniatáu cyfeiriad, sydd ar gael yn http://www.ombudsman-wales.org.uk/Contact%20us.aspx

**Rhan 6: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

Ym marn Gweinidogion Cymru:

[157] Argymellir bod y matrics hwn yn cael ei ddefnyddio fel sail i awdurdod lleol ddatblygu ffurflen asesu dadansoddiad risg mwy manwl fel sy'n briodol ac yn unol â'r canllawiau statudol hyn.

## Rhieni[158]

5.56 Mae gan rieni y cyfrifoldebau canlynol:

- Cyfrifoldeb rhieni yw penderfynu ar ba oed y byddai'n briodol i'w plentyn gerdded i'r ysgol ar ei ben ei hun
- Os na fydd plentyn yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim a'i fod yn gorfod cerdded i'r ysgol, cyfrifoldeb rhieni fydd gwneud trefniadau teithio priodol i'w plant rhwng y cartref a'r ysgol. O fewn y gymuned, mae gan rieni'r dewis o rannu cludiant i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod rhieni yn darganfod a all grwpiau cymunedol gydgysylltu'r gweithgarwch hwn
- Cynghorir rhieni i sicrhau bod eu plant yn ymwybodol o God Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan ('y Cod Teithio') – mae'r Cod Teithio yn nodi'r safonau ymddygiad y dylai dysgwyr gydymffurfio â nhw wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol, waeth beth fo'r dull teithio

## Penaethiaid

5.57 Mae gan benaethiaid gyfrifoldeb statudol i:

- Ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gydymffurfio â'r Cod Teithio[159]; a
- Phenderfynu ar safon yr ymddygiad a ystyrir yn dderbyniol (lle na chaiff ei bennu gan y corff llywodraethu neu Weinidogion Cymru)[160]

Argymhellir bod penaethiaid yn:

- Cynnwys y Cod Teithio ym Mholisi Ymddygiad yr Ysgol ac yn sicrhau y cydymffurfir ag ef
- Cydweithredu â'r awdurdod lleol, gan gynnwys asiantaethau perthnasol eraill (fel yr Heddlu), pe bai unrhyw ddiffyg cydymffurfiad â'r Cod neu ddigwyddiadau yn ymwneud â materion amddiffyn plant

---

[158] Amlinellir y diffiniad o 'rhiant' yn adran 576 Deddf Addysg 1996. Er hwylustod, darperir y diffiniadau o 'rhiant' a 'cyfrifoldeb rhiant' yn yr eirfa (Adran 2)
[159] Gweler adran 89(2A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.
[160] Gweler adran 89(3A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

Dan adran 89(5A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006[161], mae gan benaethiaid y grym i gosbi dysgwyr sydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Teithio y tu allan i safle'r ysgol - er enghraifft, pan fydd dysgwyr y tu allan i safle'r ysgol ac nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan aelodau staff addysgu (fel y daith gerdded rhwng y cartref a'r ysgol).

**Awdurdodau Lleol[162]**

5.58 Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn cynnwys:

- Nodi a oes llwybr a gerddir ar gael
- Nodi risgiau a chymryd camau lliniaru lle'n briodol
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau partner i gwblhau asesiadau risg sy'n mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd
- Ymgynghori â phlant a phobl ifanc (gan gynnwys trwy sefydliadau/cyrff eraill)

Ceir Rhestr Wirio Asesu Risg a awgrymir i awdurdodau lleol yn Atodiad 2.

**Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Sefydliadau Addysgol**

5.59 Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gasglu plant wrth glwyd yr ysgol i gael ei gynnwys yn y polisi iechyd a diogelwch y mae'n rhaid i bob cyflogwr addysg feddu arno. Mae'r Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr, sy'n cynnwys pennod ar iechyd a diogelwch yn darparu canllawiau pellach, sydd ar gael drwy'r ddolen isod: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/?lang=cy

5.60 Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974[163] a rheoliadau cysylltiedig yn gwneud y cyflogwr yn gyfrifol yn gyffredinol am iechyd a diogelwch. Mae'r unigolyn neu'r corff yr ystyrir yw'r cyflogwr yn amrywio yn dibynnu ar y math o ysgol:

---

[161] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/89
[162] Mae awdurdod lleol yn golygu'r holl adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod ac nid yw wedi ei gyfyngu i dimau teithio gan ddysgwyr
[163] 1974 c.37 http://www.hse.gov.uk/legislation/hswa.htm

- I ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau disgyblion, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Addysg Lleol ddarparu canllawiau iechyd a diogelwch i'r ysgolion hynny a sicrhau bod aelodau staff y dirprwyir tasgau Iechyd a Diogelwch fel asesu risg iddynt wedi eu hyfforddi ac yn gymwys i gyflawni'r tasgau hynny
- I ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu yw'r cyflogwr fel rheol
- I ysgolion annibynnol, y corff llywodraethu neu'r perchennog yw'r cyflogwr fel rheol

**Cyfrifoldeb – Ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau), Cyrff Llywodraethu**

5.61 Mae'n rhaid bod gan y cyflogwr bolisi iechyd a diogelwch a threfniadau i'w roi ar waith. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974[164] yn berthnasol.

5.62 Mae'n rhaid i gyflogwyr asesu risg pob gweithgaredd, cyflwyno mesurau i reoli'r risgiau hynny, a dweud wrth eu gweithwyr cyflogedig am y mesurau. Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999[165] yn berthnasol.

5.63 Yn ymarferol, gall cyflogwyr ddirprwyo tasgau iechyd a diogelwch penodol i unigolion (gall awdurdodau lleol eu dirprwyo i ysgolion). Ond mae'r cyflogwr yn cadw'r cyfrifoldeb terfynol waeth pwy sy'n cyflawni'r tasgau. Dylai'r cyflogwr gadw llwybr archwilio felly, gan ei gwneud yn eglur pwy sy'n gwneud beth a chadarnhau bod y tasgau hynny'n cael eu cyflawni.

5.64 Mae gan gyflogwyr addysg gyfrifoldebau iechyd a diogelwch tuag at athrawon, aelodau staff, disgyblion, ymwelwyr a gwirfoddolwyr, gan gynnwys sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles disgyblion yn yr ysgol ac ar ymweliadau oddi ar y safle.

[164] Gweler adran 2 Deddf 1974
[165] O.S. 1999/32425. Gweler rheoliad 3.

5.65 Mae gan weithwyr cyflogedig gyfrifoldebau hefyd. Dylid hefyd cadw mewn cof ei bod yn ofynnol dan ddeddf gyffredinol esgeuluster i athrawon drin a gofalu am ddisgybl dan 18 oed fel y byddai rhiant gofalus (Williams v Eady [1893] 10 TLR 41, CA).

## Adran 1: Darpariaethau Statudol

## Pennod 6: Cyfrifoldebau Rhieni.

### Trosolwg

6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu cyfrifoldebau rhieni a gwarchodwyr i sicrhau bod darpariaeth drafnidiaeth i ddysgwyr yn unol â deddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

### Hawl Dysgwyr i gael Darpariaeth Drafnidiaeth am Ddim

6.2 Gall dysgwyr hawlio darpariaeth drafnidiaeth am ddim dim ond os ydynt yn byw 2 filltir neu ragor o'u hysgol gynradd addas agosaf neu 3 milltir neu ragor o'u hysgol uwchradd ac os yw'r dysgwr o oed ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed). Os nad yw dysgwr yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir yn rhannau 3 a 4 o'r Mesur nid oes raid i'r awdurdod lleol perthnasol ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim i'r ysgol iddo. Yn y pen draw, mae'r ddyletswydd gyfreithiol o sicrhau bod plentyn yn mynychu ysgol yn sefyll gyda'r rhiant neu warchodwr cyfreithiol y plentyn hwnnw. [166]

### Ysgol Addas Agosaf

6.3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cod Derbyn i Ysgolion ym mis Gorffennaf 2013 ("Cod 2013") dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[167] ("y Ddeddf 1998"). Mae Cod 2013 yn statudol ac yn gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi rhestr o ysgolion a gynhelir o fewn ardal yr awdurdod o 2014/15 ymlaen. Gellir gweld y wybodaeth hon drwy wefan unigol yr awdurdod lleol neu wrth ofyn amdani. Cyfrifoldeb y rhiant yw gofyn am y wybodaeth hon gan nad yw'n cael ei chyhoeddi'n awtomatig i rieni. Darperir dolenni i wefan pob awdurdod lleol yn Atodiad 3.

6.4 Dan y Ddeddf 1998 a'r Cod 2013, mae gan rieni'r hawl i nodi pa ysgol y dymunant eu plentyn ei mynychu. Os yw'n bosibl fe

---

[166] Adran 7 Deddf Addysg 1996 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/7
[167] Fel y'i diwygiwyd gan adran 40 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/section/40/

dderbynnir dewis y rhieni gan yr awdurdod derbyn perthnasol a bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i mewn i'r ysgol a ddewiswyd. Mae'n bwysig nodi nad yr ysgol a ddewisir gan y rhieni yw ysgol addas agosaf y plentyn o angenrheidrwydd. Mae'r hawl i gael darpariaeth drafnidiaeth yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gysylltiedig yn unig â dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf. Nid yw dysgwyr, (trwy eu dewis nhw neu eu rhieni), nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf, yn medru hawlio darpariaeth drafnidiaeth rad ac am ddim[168].

6.5 Mae angen i rieni gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol i gael eglurdeb ynglŷn â pha ysgol yw'r un 'addas agosaf' i'w plentyn, er mwyn iddynt benderfynu pa ysgol yw eu dewis a'i nodi ar y ffurflen derbyn i ysgol[169]. Cyfrifoldeb y rhieni yw gofyn am y wybodaeth hon wrth bennu a yw eu plentyn yn gymwys i gael darpariaeth drafnidiaeth rad ac am ddim wrth gael mynediad at addysg a hyfforddiant. Dan God 2013 dylai awdurdodau, ar gais rhieni neu ofalwyr, ddarparu mynediad at wybodaeth ynglŷn â derbyniadau. Rhaid i hyn fod yn eglur ac yn hawdd ei ddeall fel y gall rhieni wneud penderfyniadau deallus ar gyfer eu plant.

<u>Dewis gan Rieni</u>

6.6 Mae Mesur 2008 yn berthnasol yn unig i drefniadau teithio gan ddysgwr i'r ysgol addas agosaf ac nid i ysgol a ddewiswyd fel hoff ddewis gan rieni lle ceir amrywiaethau yn y darpariaethau hyn.

6.7 Os bydd rhieni'n defnyddio'u dewis gan ffafrio sefydliad dysgu nad yw'n cynrychioli'r ysgol addas agosaf neu briodol i ddysgu eu plentyn/plant, nid oes gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu trafnidiaeth er mae ganddynt y pŵer i ddarparu yn ôl eu disgresiwn dan adran 6 o'r Mesur[170].

6.8 Os bydd rhiant yn dewis ysgol ar gyfer ei blentyn ar sail iaith neu ddewis enwadol ac nad yr ysgol honno yw'r un addas

[168] Gall dysgwyr fod yn gymwys i gael darpariaeth drafnidiaeth rhad ac am ddim neu gymhorthdal yn ôl disgresiwn, ond mae hyn yn amodol ar yr awdurdod lleol perthnasol yn gwneud defnydd o'i bwerau adran 6 o'r Mesur 2008.

[169] Darperir manylion cyswllt ar gyfer gwefan pob awdurdod lleol yn Atodiad 3.

[170] Ceir rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth o drafnidiaeth yn ôl disgresiwn yn Adran 1, Pennod 1.

agosaf fel y cytunwyd gan yr awdurdod lleol, yna mae hyn yn cynrychioli'r weithred o ddewis rhiant.

6.9 Felly hefyd, os bydd rhiant yn dewis symud ei blentyn o un sefydliad addysg i un arall heb gytundeb gan yr awdurdod lleol perthnasol, mae hyn hefyd yn cynrychioli'r weithred o ddewis rhiant. Golyga hyn bod yr hawl i gael trafnidiaeth yn rhad ac am ddim yn cael ei golli (hyd yn oed os bu i'r plentyn gael trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ac o'r ysgol y mynychwyd cynt).

## Cod Ymddygiad wrth Deithio

6.10 Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr gydymffurfio gyda'r telerau a'r amodau a fanylir arnynt ym Mhennod 2 paragraff 2.12 o'r ddogfen hon. Dan Ganllaw Statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio[171] 2009, mae gan rieni'r cyfrifoldebau canlynol mewn perthynas ag ymddygiad eu plentyn/plant:

- Sicrhau bod eu plentyn/plant yn ymwybodol o'r Cod ac yn ei ddeall
- Derbyn cyfrifoldeb wrth annog ymddygiad da a sicrhau bod eu plentyn/plant yn cydymffurfio â'r Cod
- Bod yn ymwybodol o oblygiadau tramgwyddo'r Cod ac effaith hyn ar hawl eu plentyn i gael darpariaeth drafnidiaeth i'w lleoliad dysgu ac oddi yno
- Bod yn gyfrifol am bresenoldeb parhaus eu plentyn yn y lleoliad dysgu os caiff y drafnidiaeth ei thynnu'n ôl
- Cydweithredu â sefydliadau addysg, gweithredwyr trafnidiaeth ac awdurdodau lleol i weithredu'r Cod

## Preswyliad Deuol

6.11 Pan fydd gan blentyn breswyliad deuol gall fod gofyn i awdurdodau lleol gynnal adolygiad i benderfynu a yw dysgwr yn parhau i fod yn gymwys am ddarpariaeth drafnidiaeth dan adrannau 3 a 4 o'r Mesur. Argymhellir y dylai'r adolygiad ystyried barn y rhieni ac yn glynu wrth weithdrefnau ymgynghori'r awdurdod. Os penderfynir nad yw'r dysgwr yn

[171] Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009
http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/travelcode/tbcstatutoryguidance/?/ang.en

mynychu ei ysgol addas agosaf mwyach, efallai na fydd yn gymwys felly am ddarpariaeth drafnidiaeth rad ac am ddim gan yr awdurdod hwnnw. Yr awdurdod lleol ddylai ystyried wedyn a allai'r dysgwr elwa o gael darpariaeth drafnidiaeth yn ôl disgresiwn dan adran 6 o'r Mesur. Ceir rhagor o wybodaeth ar ddarpariaethau preswyliad deuol ym Mhennod 1, paragraffau 1.54 – 1.59 o'r ddogfen hon.

**Plant sy'n cael eu Hebrwng**

6.12 Mae Adran 3 (8B) o Fesur 2008 yn datgan bod llwybr cerdded i'r ysgol neu leoliad dysgu perthnasol 'ar gael' os – "yw hi'n ddiogel i blentyn gerdded y llwybr gyda hebryngwr, petai oed y plentyn yn golygu bod angen hebryngwr". Mae hi'n ddyletswydd ar rieni i sicrhau bod eu plentyn yn cael[172] addysg addas llawn amser erbyn iddo gyrraedd 5 oed. Nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol ddarparu hebryngwr, oni bai y nodir hyn yn benodol yn Natganiad AAA dysgwr. Darperir rhagor o wybodaeth am asesu llwybrau a gerddir ym Mhennod 5 y ddogfen hon.

[172] Adran 7 Deddf Addysg 1996

## Adran 1: Darpariaethau Statudol

## Pennod 7: Cyfrifoldebau Ysgolion

### Trosolwg

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu cyfrifoldebau ysgolion a sefydliadau addysg eraill perthnasol mewn perthynas â sicrhau bod darpariaethau teithio gan ddysgwyr yn unol â deddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

### Polisi Ymddygiad mewn Ysgolion a'r Cod Ymddygiad wrth Deithio

Cyfrifoldebau dan y Cod Ymddygiad wrth Deithio, fel yr amlinellir yng nghanllaw statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio.[173]

7.2 Mae'r Cod Teithio yn gofyn i sefydliadau addysgiadol wneud y canlynol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymddygiad da a goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r Cod
- Gorfodi'r Cod yn briodol
- Ymgorffori'r Cod i mewn i bolisi ymddygiad presennol yr ysgol
- Hyfforddi staff perthnasol ar gynnwys y Cod a'r defnydd ohono
- Ymgysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol, gan ddarparu gwybodaeth a chymorth felly i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod
- Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o unigolyn priodol o fewn y sefydliad y gellid siarad ag o neu hi ynglŷn ag achosion o ymddygiad drwg wrth deithio o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl
- Os yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu trafnidiaeth, mae angen cydweithio â'r awdurdod wrth gymryd camau

[173] Cyhoeddir Canllaw Statudol gan Lywodraeth Cymru, 2009 dan adran 15 o Fesur 2008. Mae dyletswydd hefyd dan Adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i benaethiaid ymgorffori'r cod teithio i mewn i bolisi ymddygiad yr ysgol http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/learnertravel/travelcode/tbcstatutoryguidance/?/ang.en

disgyblu am dramgwyddo'r Cod, gan gynnwys cyfweld dysgwyr fel rhan o unrhyw ymchwiliad

- Sicrhau bod unigolion penodedig yn cadw cofnodion o bob achos a adroddwyd y maent yn gyfrifol am eu hymchwilio. Os yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ymchwilio digwyddiad rhaid trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol iddynt yn syth
- Os bydd trefniadau cytundebol a drefnwyd gan yr ysgol wedi eu rhoi ar waith gyda gweithredwyr trafnidiaeth, rhaid i'r ysgol sicrhau bod y gweithredwyr yn ymwybodol o'r Cod a'u cyfrifoldebau
- Sicrhau bod manylion cyswllt staff penodedig sy'n gyfrifol am ddelio â'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Cod ar gael i weithredwyr trafnidiaeth, dysgwyr a'r awdurdod lleol
- Adrodd unrhyw droseddau a amheuir neu faterion diogelwch plant, i'r partïon perthnasol

Digwyddiadau a Ymchwilir gan Sefydliadau Addysgiadol

7.3 Mae adran 89(2A) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (fel y'i diwygiwyd gan y Mesur) yn rhoi dyletswydd ar benaethiaid ysgolion perthnasol i sicrhau bod disgyblion yn cydymffurfio â'r Cod Teithio fel rhan o'u polisi cyffredinol yn yr ysgol ar ymddygiad.

7.4 Mae rhan 89(5A) o'r Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer statudol i benaethiaid i reoleiddio ymddygiad dysgwyr y tu allan i'r ysgol 'i raddau rhesymol' ac nad yw'n cael ei wneud fel rhan o'r Cod Teithio.

7.5 Gall ysgolion gyflwyno mesurau i reoleiddio ymddygiad dysgwyr pan nad ydynt ar dir yr ysgol ac nid dan oruchwyliaeth aelod o staff[174]. Gall cosbau disgyblu[175] gael eu gosod o ganlyniad i ymddygiad o'r fath, gan gynnwys tramgwyddo'r Cod Teithio, ond cosbir y dysgwr yn unig os bydd dan reolaeth gyfreithiol aelod o staff. Felly, gellid cosbi ymddygiad annerbyniol ar daith ysgol yn syth, lle bydd y dysgwr dan oruchwyliaeth uniongyrchol aelod o staff, ond nid pan, er enghraifft, y bydd y dysgwr yn camymddwyn ar ei daith rhwng y cartref a'r ysgol pan nad oes goruchwyliaeth. Bydd unrhyw gosb

[174] Adran 89(5A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/89
[175] Adran 90 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/90

am ymddygiad o’r fath yn cael ei osod yn adolygol pan fydd y dysgwr yn yr ysgol y tro nesaf neu pan fyddant dan reolaeth aelod staff y tro nesaf.

**Derbyn i’r Ysgol**

7.6 Mae paragraff 2.2 Cod Derbyn i’r Ysgol 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn ‘ddarparu mynediad hawdd at wybodaeth ddefnyddiol ar dderbyn i’r ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr’. Dylai ysgolion sy’n gweinyddu eu polisïau derbyn eu hunain ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy’n mynd i chweched dosbarth yr ysgol honno hysbysu’r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl am y dysgwyr a fydd yn mynychu chweched dosbarth yr ysgol. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cyngor i rieni ar faterion trafnidiaeth ysgol.

**Gwregysau Diogelwch ar Drafnidiaeth Benodedig i Ddysgwyr**

7.7 Mae gan Gyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir ddyletswydd dan y Mesur (fel y’i diwygiwyd) i sicrhau bod unrhyw fws y mae ysgol yn ei gaffael ac yn ei ddefnyddio ar gyfer cludiant penodedig i deithwyr rhwng y cartref a’r ysgol fod â gwregysau diogelwch wedi eu gosod ar bob sedd o 1 Hydref 2014. Ceir rhagor o wybodaeth ar y ddarpariaeth hon ym Mhennod 4, paragraffau 4.1 - 4.22.

## Adran 2: Geirfa

**Anabledd ac Unigolyn Anabl** - yr un ystyr ac a geir yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents> (a ddiddymodd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ond sydd wedi cadw'r un diffiniad o anabledd): "Unigolyn anabl yw rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy'n effeithio yn anffafriol ac yn sylweddol dros dymor hir ar allu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol normal, neu rywun a fu â'r fath amhariad yn y gorffennol".

**Anghenion Teithio Dysgwyr** - Mae adran 2 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn diffinio 'anghenion teithio dysgwyr' fel anghenion dysgwyr sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod am gael trefniadau teithio addas bob dydd i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno.

**Anhawster dysgu** - Mae adran 24(1) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn diffinio anhawster dysgu fel anhawster mwy sylweddol wrth ddysgu na'r mwyafrif o bobl o'r un oed, neu anabledd sydd un ai'n atal neu'n amharu'r unigolyn hwnnw rhag defnyddio cyfleusterau o'r math a ddefnyddir mewn lleoliadau perthnasol; ond ni ddylid ystyried bod gan unigolyn anabledd dysgu am yr unig reswm fod yr iaith (neu ffurf iaith) a ddysgir i'r unigolyn neu a fydd yn cael ei ddysgu iddo yn wahanol i iaith (neu ffurf iaith) a siaradwyd ar unrhyw adeg yng nghartref yr unigolyn.

**Awdurdod Derbyn** - Y corff sy'n gyfrifol am osod a gweithredu trefniadau derbyn i mewn i ysgol. Ar gyfer ysgolion a reolir yn gymunedol neu'n wirfoddol, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn oni bai bod y swyddogaeth, dan adran 88 (1)(a)(ii) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, wedi ei dirprwyo'n llawn i'r corff llywodraethu; ac ar gyfer ysgolion sylfaen neu a gymhorthir yn wirfoddol, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn.

**Bws** - cerbyd modur sydd wedi'i greu neu'i addasu i gario mwy nag 8 o deithwyr yn ychwanegol at y gyrrwr [176].

[176] Fel y diffinnir yn Rheoliad 3 o Reoliadau (Adeiladwaith a Defnydd) 1986

**Bws Gwasanaeth Cyhoeddus** – yr un diffiniad ag adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 sy'n datgan bod "cerbyd motor" (ar wahân i gerbyd tram) yn -

> (a) gerbyd sydd wedi ei addasu i gario mwy nag wyth o bobl, yn cael ei ddefnyddio i gario pobl ar sail llogi neu daliad; neu
> (b) gerbyd nad yw wedi ei addasu felly, yn cael ei ddefnyddio i gario teithwyr ar sail llogi neu daliad am ffioedd unigol fel rhan o fusnes cario teithwyr

**Bws Trefol:** Bysiau a ddyluniwyd i'w defnyddio ar lwybrau gwasanaeth bws lleol/gwledig a threfol gyda theithwyr sy'n sefyll.

**Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru** – Mae'r Cod yn darparu cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, sefyllfaoedd blynyddoedd cynnar ac eraill. Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cymorth iddynt gynnal eu dyletswyddau statudol, i adnabod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant.

**Coets** - Bws mawr gyda phwysau gros wedi'i ddylunio o dros 7.5 tunnell a chyflymder uchaf o dros 60 mya[177].

**Corff Perthnasol:**, Mae corff perthnasol yn cyfeirio at awdurdod lleol neu Gorff Llywodraethu ysgol a gynhelir fel y diffinnir yn adran 14N(2) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd).

**Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd/2003/20/EC** – Dan y Gyfarwyddeb, ymestynnir y gofyniad i ddefnyddio gwregys diogelwch pan fydd cerbyd yn symud i bob categori cerbyd ac i bob sedd sydd wedi ei ffitio â gwregys (ar wahân i rai eithriadau penodol.). Mae'r defnydd o systemau seddi diogel sydd wedi eu haddasu i faint a phwysau plant hefyd yn orfodol. Mae un rhan arall o'r Gyfarwyddeb sydd yn weddill y bydd angen ei throsi i Ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, yn ymwneud â'r gofyniad i blant rhwng 3 a 13 oed wisgo gwregysau diogelwch ar fysiau a choetsis pan ddarperir gwregysau felly.

**Cyfrifoldeb Rhiant** – Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989 ac mae'n golygu ymgymryd â'r hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau a'r awdurdod yn gyfreithiol

[177] Fel y diffinnir yn Rheoliad 3 o Reoliadau (Adeiladwaith a Defnydd) 1986

sydd gan riant plentyn, mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo. Mae Deddf Plant 1989 yn datgan, os nad oedd rhieni'r plentyn yn briod pan gafodd ei eni yna mae gan y fam gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Gall y tad, serch hynny, gael cyfrifoldeb rhiant drwy wahanol ddulliau cyfreithiol. Bellach (yn dilyn deddfu Deddf Mabwysiadau a Phlant 2002) bydd tad sydd wedi ei gofrestru felly yng nghofrestr genedigaethau a marwolaethau hefyd yn awtomatig yn cael hawlio cyfrifoldeb rhiant. Yn ychwanegol, nawr gall llys-rieni (sy'n cynnwys partneriaid sifil) gael cyfrifoldeb rhiant, er enghraifft drwy ddod i gytundeb â rhiant sydd â chyfrifoldeb rhiant.

**Cyrff Llywodraethu** – mae cyrff llywodraethu ysgolion yn gyrff corfforaethol sy'n gyfrifol am reoli ysgol gyda'r bwriad i hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgiadol. Mae gan gyrff llywodraethu dair prif swyddogaeth: gosod cyfeiriad strategol, sicrhau atebolrwydd a monitro a gwerthuso. Mae cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sylfaen yn awdurdodau derbyn ar gyfer eu hysgolion.

**Dalgylch** – Ardal ddaearyddol y gall plant oddi mewn iddi gael blaenoriaeth derbyn i ysgol benodol. Mae dalgylch yn rhan o drefniadau derbyn ysgol ac felly rhaid ymgynghori arno, ei benderfynu a'i gyhoeddi yn yr un modd â threfniadau derbyn eraill. Gall ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddewis diffinio eu dalgylch yn unol â ffin y plwyf, ond rhaid egluro hyn.

**Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 –** Diben y Ddeddf yw rhoi rhagor o ryddid i ysgolion, gan gynnwys y posibilrwydd o fod yn berchen ar eu hasedau eu hunain, cyflogi eu staff eu hunain a gosod eu trefniadau derbyn eu hunain, ond mae hyn yn berthnasol i ysgolion yn Lloegr yn unig bellach mewn gwirionedd. Gwaharddodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sefydliad ysgolion sefydledig pellach yng Nghymru. Mae darpariaethau pwysig eraill yn cynnwys creu dyletswydd ar yr awdurdod lleol i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer cyfleoedd addysgiadol; rhoi hawl statudol clir i staff ysgol i ddisgyblu myfyrwyr; darpariaethau'n ymwneud â safonau maethol bwyd ysgol; a diwygio arolygiadau ysgolion.

**Yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA)** – disodlodd VOSA fel asiantaeth weithredol yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r asiantaeth yn darparu amrywiaeth o wasanaethau trwyddedu, profi

a gorfodi gyda'r nod o wella safonau addasrwydd cerbydau i'r ffordd fawr.

**Diogelwch ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2011** – Cyfraith Gymreig a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ddiwygiodd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008[178] er mwyn gwella diogelwch ar drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr. Disodlwyd mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddfau'r Cynulliad (mewn perthynas â meysydd polisi datganoledig). Mae'r Mesur uchod yn dynodi ei bod hi'n ofynnol i bob ffurf o drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr gael gwregysau diogelwch wedi eu ffitio ar bob sedd deithiwr o 1 Hydref 2014.

**Diwrnod Ysgol** – Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel y ganlyn: "mae 'diwrnod ysgol', mewn perthynas ag ysgol, yn golygu unrhyw ddiwrnod y cynhelir sesiwn ysgol yn yr ysgol honno". Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu brynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn cynrychioli unrhyw ddiwrnod pryd y bydd yr ysgol yn cwrdd am ddiwrnod cyfan neu ran ohono. Diffinnir blwyddyn ysgol, mewn perthynas ag ysgol, fel y cyfnod sy'n cychwyn gyda thymor cyntaf yr ysgol wedi mis Gorffennaf ac yn gorffen ar gychwyn y tymor yn y mis Gorffennaf canlynol.

**Diogelwch** - dyma'r cyflwr o gael eich amddiffyn rhag perygl, risg neu anaf, neu o fod yn annhebygol o achosi'r rhain.

**Dosbarth meithrin** – Rhan o ysgol gynradd a ddefnyddir gan ddisgyblion oedran cyn ysgol – y rhai sydd o dan oedran ysgol gorfodol – ac sy'n darparu ystod o brofiadau addysgiadol strwythurol sy'n addas ar gyfer plant o'r oedran hwnnw.

**Dysgwr –** Unigolyn sy'n cael addysg neu hyfforddiant[179].

**Fforwm Derbyn** – Corff lleol statudol sy'n gyfrifol am gydgordio effeithiolrwydd a chydraddoldeb trefniadau derbyn yn lleol, ynghyd â monitro cydymffurfiaeth â Chod Derbyn i Ysgolion[180]. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau derbyn ac ysgolion, esgobaethau, y gymuned leol a rhieni sy'n llywodraethwyr. Gosodir swyddogaethau'r aelodau yn Rheoliadau Addysg (Fforwm Derbyniadau) (Cymru) 2003.

[178] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)
[179] Adran 1(3) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
[180] Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru Gorffennaf 2013-005/2013

**Lleoedd Perthnasol**[181] – ysgolion a gynhelir; sefydliadau yn y sector addysg bellach; ysgolion annibynnol a enwyd mewn datganiadau anghenion addysgol arbennig; ysgolion arbennig nas cynhelir; unedau cyfeirio disgyblion; lleoedd ar wahân unedau cyfeirio disgyblion lle trefnir addysg dan adran 19(1) o'r Ddeddf Addysg 1996; lleoedd lle mae addysg neu hyfforddiant a ariennir gan Weinidogion Cymru dan adran 34(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn cael ei ddarparu; sefydliadau lle sicrhawyd addysg a hyfforddiant a llety preswyl gan Weinidogion Cymru dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000; lleoedd lle darperir addysg feithrin gan awdurdod lleol neu gan unigolyn arall sy'n cael cymorth ariannol gan awdurdod lleol drwy drefniadau a wnaed ganddynt fel rhan o ddyletswydd a roddwyd gan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; lleoedd lle cynhelir cyfnodau o brofiad gwaith.

**Llifogydd** – gorlif o lawer iawn o ddŵr, ymhell y tu hwnt i'w gyfyngiadau arferol, yn enwedig dros yr hyn sy'n dir sych fel rheol.

**Perygl** - unrhyw ffynhonnell o ddifrod, niwed neu effeithiau iechyd andwyol posibl.

**Llwybrau sydd ar Gael** – Mae adran 3(8) o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn diffinio a yw hi'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu a yw hi'n ddiogel i'r cyfryw blentyn gerdded y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oedran y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr.

**Mathau Cynaliadwy o Deithio** – Mae adran 11 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn diffinio mathau cynaliadwy o deithio fel rhai a all wella lles corfforol y rhai sy'n eu defnyddio; a / neu les amgylcheddol yr ardal berthnasol.

**Meini prawf Gordanysgrifio** – y meini prawf sydd yn rhaid i awdurdod derbyn ei fabwysiadu ar gyfer ei ysgol(ion) a ddefnyddir yn unig pan fydd ysgol wedi ei gordanysgrifio i asesu pa blant gaiff gynnig lle. Unwaith y penderfynir ar y meini prawf, rhaid cyhoeddi'r meini prawf derbyn gan gynnwys y nifer a dderbynnir, gan yr ysgol o leiaf chwe wythnos cyn i'r rhieni nodi eu dewis. Rhaid i'r holl feini

[181] Adran 1(4) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

prawf fod yn wrthrychol ac yn dryloyw. Ceir canllawiau ar gyfer mabwysiadu meini prawf priodol yn y Cod Derbyn i Ysgol.

**Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009** – Mae'r Mesur yn darparu sail statudol ar gyfer y Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn darparu ar gyfer creu cwricwla lleol sy'n cynnwys ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a chyfleoedd i ddysgwyr.

**Bws mini** - Cerbyd motor sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gario mwy nag 8 o deithwyr mewn seddi ond nid mwy na 16 o deithwyr mewn seddi yn ychwanegol at y gyrrwr.

**Nifer o Dderbyniadau** – Y nifer o ddisgyblion y gellir eu derbyn mewn un grŵp blwyddyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn roi sylw i'r 'nifer derbyn penodedig' ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Cyfrifir y rhif derbyn penodedig yn unol â'r dull asesu capasiti a roddir yn y ddogfen ganllaw "Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru".[182] Mae rhifau derbyn yn rhan o drefniadau derbyn ysgol, a rhaid ymgynghori ar hynny ynghyd â gweddill trefniadau derbyn ysgol a'u cyhoeddi gyda'r trefniadau hynny ym mhrosbectws yr ysgol a phrosbectws cyfansawdd yr awdurdod lleol.

**Oedran Ysgol Gorfodol** – Mae rhan 8 o Ddeddf Addysg 1996 a'r Gorchymyn Addysg (Cychwyn Oedran Ysgol Gorfodol) 1998 yn egluro bod plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn y tymor sy'n dilyn ei bumed penblwydd. Diffinnir dyddiad tymhorau fel 31 Awst, 31 Rhagfyr a 31 Mawrth. Mae plentyn y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol os yw wedi cyrraedd 16 oed ar ddyddiad gadael penodedig yr ysgol, neu cyn y flwyddyn academaidd nesaf, sef y dydd Gwener olaf ym Mehefin.

**Plant sy'n Derbyn Gofal** – yr un ystyr ag a roddir yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, h.y. plentyn dan ofal awdurdod lleol, neu sy'n cael llety gan awdurdod lleol wrth weithredu unrhyw swyddogaethau sydd yn rhai gwasanaethau cymdeithasol o fewn eu diffiniad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (ar wahân i swyddogaethau dan adran 17, 23B a 24B).

---

182 Cod Derbyn i Ysgol, http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/0906measuringcapacity/?lang=cy

**Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009** – Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio a wnaed dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. Maent yn gosod nid yn unig y wybodaeth y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ei chyhoeddi ond hefyd sut y dylid cyhoeddi'r wybodaeth a'i roi ar gael i rieni/gwarchodwyr, dysgwyr, cyrff llywodraethu a/neu bobl eraill.

**Rhiant** – Mae'r diffiniad o "riant" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn cynnwys unrhyw unigolyn nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb dros blentyn neu unigolyn ifanc, neu sy'n gofalu drosto. Diffinnir cyfrifoldeb rhiant yn Neddf Plant 1989(3) (gweler diffiniad isod). Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at "riant" er diben y ddogfen hon yn unol â'r diffiniad o "riant" dan Ddeddf Addysg 1996. Bydd hyn yn cynnwys: pob rhiant naturiol, yn briod neu'n ddi-briod; unrhyw unigolyn, er nad yw'n rhiant naturiol, sydd â chyfrifoldeb fel rhiant dros blentyn neu unigolyn ifanc; ac unrhyw unigolyn sydd, er nid yn rhiant naturiol nac yn berson sydd â chyfrifoldeb fel rhiant, yn gofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

**Risg** - dyma'r siawns neu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cael ei niweidio, neu'n dioddef effaith andwyol, os caiff ei wneud yn agored i berygl.

**Mannau camu** - term sy'n cyfeirio at y cyfleuster i gerddwyr allu camu'n rhwydd oddi ar y ffordd ar wynebau rhesymol wastad a chadarn.

**Trefniadau Derbyn** – Y meini prawf cyffredinol ar gyfer gweithdrefnau, ymarferion a dim digon o le i bawb, wrth benderfynu ar ddyrannu lleoedd mewn ysgolion.

**Trefniadau Teithio** – trefniadau teithio o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys – y ddarpariaeth o drafnidiaeth; y ddarpariaeth o hebrwng un neu ragor o bobl i hebrwng plentyn wrth deithio; taliad rhan neu'r cyfan o gostau teithio rhesymol unigolyn; taliad o lwfansau mewn perthynas â'r defnydd o fathau neilltuol o deithio[183].

**Unedau Cyfeirio Disgyblion** – Ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan awdurdod lleol, ar gyfer plant nad ydynt yn medru mynychu ysgol prif ffrwd neu arbennig (er enghraifft oherwydd anawsterau

[183] Adran 1(2) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

emosiynol neu ymddygiadol) a gymeradwyir dan Adran 19(2) o'r Ddeddf Addysg 1996.

**Y Mesur Gordanysgrifio** – yr egwyddor sy'n dynodi'r amodau sy'n effeithio'r flaenoriaeth a roddir i gais, er enghraifft ystyried dewisiadau eraill neu roi blaenoriaeth i deuluoedd sy'n nodi math arbennig o ysgol yn eu dewisiadau (e.e. lle mae ysgolion eraill o'r un enwad).

**Yr Asiantaeth Cerbydau a Gwasanaethau Gweithredwyr (VOSA) -** Un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Drafnidiaeth. Mae'n darparu amrywiaeth o 11 wasanaethau trwyddedu, profi a gorfodi gyda'r nod o wella safonau'r cerbydau sydd ar y ffyrdd.

**Ysgol a gynhelir** – yn golygu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir[184].

**Ysgol arbennig nas cynhelir** – Yn golygu unrhyw ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 sydd â threfniant arbennig i fedru darparu ar gyfer addysg arbennig disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ac nad yw'n ysgol gymunedol nac yn ysgol sylfaen arbennig.

**Ysgol feithrin** – Mae ysgol gynradd yn ysgol feithrin os caiff ei defnyddio yn gyfan gwbl neu'n rhannol i ddarparu addysg i blant sydd yn ddwy oed ond sydd yn ieuengach nag oedran ysgol gorfodol (gweler adran 6 o Ddeddf Addysg 1996).

**Ysgol gynradd** – Mae adran 5 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio "ysgol gynradd" fel ysgol sy'n darparu addysg gynradd, os yw hi'n darparu addysg bellach neu beidio.

**Ysgol uwchradd** – Mae adran 5 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio "ysgol uwchradd" fel ysgol sy'n darparu addysg uwchradd, os yw hi'n darparu addysg bellach neu beidio.

**Yr Asiantaeth Cerbydau a Gwasanaethau Gweithredwyr (VOSA) –** cyn-asiantaeth weithredol yr Adran Drafnidiaeth a

[184] Dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Atodlen 5, Rhan 2 paragraff 25), diwygiwyd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 o ran y diffiniad o ysgol a gynhelir trwy adael "neu ysgolion sefydledig" allan.

ddisodlwyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA) (gweler yr eirfa am ragor o wybodaeth am DVSA).

## Adran 3: Canllaw Cynghori

### Cwestiynau Cyffredin:

1. **Mewn perthynas â thrafnidiaeth benodedig i ddysgwyr, beth ddylid ei gynnwys mewn asesiad risg trafnidiaeth?**

   Mae'n arfer dda, wrth gynnal asesiadau risg ar gyfer trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol, i gynnwys y canlynol:

   - Llwybr y daith
   - Adnabod y pwyntiau casglu a gollwng
   - Adnabod y pwyntiau casglu a gollwng yn yr ysgol
   - Y gyrrwr a'r cynorthwyydd sy'n teithio
   - Y cerbyd

   Ceir rhagor o wybodaeth wrth glicio'r ddolen ganlynol http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/hometoschooltransport/?lang=cy

   Ers mis Medi 2013, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i yrwyr bysiau a choetsis i gwblhau 37 awr o hyfforddiant gyrru ac wedi hynny fe roddir Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol – Cerdyn Cymhwyso Gyrrwr (CPC-DQC). Yn ôl y gyfraith rhaid i yrwyr [185] gario'u cerdyn CPC-DQC gyda nhw bob amser wrth yrru bws neu goets a'i ddangos i'r heddlu neu VOSA os bydd gofyn amdano.

   O 1 Hydref 2014, bydd yn ofynnol i drafnidiaeth benodedig i ddysgwyr gael gwregysau diogelwch wedi eu ffitio i bob sedd deithiwr[186].

   Rhaid i asesiadau risg trafnidiaeth gymryd sylw o anghenion ofyniadau cyfreithiol newydd pan wrth iddynt ddod i rym.

2. **Pa mor aml dylid cynnal asesiad risg?**

[185] Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2003/59
[186] Rheoliadau Gyrwyr Cerbydau (Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol) 2007 – yn deillio o Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2003/59/EC ar y cymhwysedd cychwynnol a'r hyfforddiant cyfnodol o yrwyr cerbydau neilltuol ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr.

Mae amledd asesiadau risg ar hyn o bryd yn fater wrth ddisgresiwn pob awdurdod lleol.

**3. A oes rhaid i yrwyr bysiau, sy'n cludo dysgwyr, gyflawni unrhyw hyfforddiant gorfodol (fel modiwl CPC cludo dysgwyr penodedig) i gyflawni eu dyletswyddau?**

Mae Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn cyflwyno'r gofyniad i yrwyr bysiau cludo dysgwyr penodedig gyflawni hyfforddiant cludo dysgwyr penodol, ond nid yw'r pwerau hyn wedi cael eu cychwyn eto.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod awdurdodau lleol a gweithredwyr cludiant yn cydweithio i sicrhau bod gyrwyr cludiant dysgwyr a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n cludo plant a phobl ifanc (boed yn: fysiau dysgwyr penodedig, bysiau gwasanaeth neu dacsi) yn cyflawni hyfforddiant o ran gwasanaeth cwsmeriaid i blant a phobl ifanc.

Gallai awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau wneud hyn gan ei gwneud yn ofynnol (yn unol â'u contractau gwasanaeth) bod gyrwyr yn cyflawni swm penodol o hyfforddiant i ddiwallu anghenion gwasanaeth cwsmeriaid plant / pobl ifanc / dysgwyr (fel yn eu modiwlau CPC) neu drwy hyfforddiant mewnol. Gallai hyn gynnwys:

- Gofal cwsmeriaid - ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
- Hyfforddiant cydraddoldeb
- Ymdrin ag AAA

**4. Beth a ystyrir fel hyd derbyniol o ran amser wrth deithio i ysgol gynradd neu uwchradd?**

Nid yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ('y Mesur') yn dynodi terfyn amser ar gyfer teithiau. Serch hynny, mae adran 2(5)(b) yn dynodi nad yw trefniadau trafnidiaeth yn addas os ydynt yn cymryd cyfnod afresymol o amser. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion unigol dysgwyr wrth ystyried pa mor rhesymol yw cyfnod amser taith. Dylai asesiad ystyried natur, diben ac amgylchiadau pob taith i bennu a yw'r cyfnod amser yn addas. Dylai'r asesiad ystyried y canlynol:-

- oed y dysgwr
- a oes gan y dysgwr unrhyw anabledd neu anawsterau dysgu y dylid eu hystyried
- lleoliad cartref y dysgwr mewn perthynas â'r ysgolion sydd ar gael yn yr ardal (h.y. pa un a yw'r ysgol addas agosaf wedi ei lleoli yn ardal yr awdurdod lleol neu ardal awdurdod cyfagos, yn unol â pholisïau trafnidiaeth ac addysg yr awdurdodau)

**5. Beth a olygir gan y term "plant sy'n derbyn gofal"?**

Mae'r un ystyr yn perthyn i "blant sy'n derbyn gofal" ag sydd yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, sef, plentyn sydd dan 18 oed yng ngofal yr awdurdod lleol neu sydd wedi cael llety gan awdurdod lleol wrth weithredu unrhyw swyddogaethau sydd yn rhai gwasanaethau cymdeithasol o fewn eu diffiniad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (ar wahân i swyddogaethau dan adran 17, 23B a 24B).

**6. Pam bod plant 'sy'n derbyn gofal' yn cael trafnidiaeth rad ac am ddim i ysgolion nad ydynt yn ysgolion addas agosaf i'w cartrefi?**

Dan Adran 3 a 4 o'r mesur, mae'r un meini prawf oedran a phellter yn briodol ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal' (dysgwyr) â'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal, ond nid yw'r egwyddor ei bod hi'n ofynnol i ddysgwr fynychu ei ysgol addas agosaf yn weithredol i ddysgwyr 'sy'n derbyn gofal' (yn yr un modd ag y mae i ddysgwyr nad ydynt yn derbyn gofal). Yr awdurdod lleol sydd yn gofalu am y plentyn fydd yn penderfynu ble y bydd y plentyn yn mynd i'r ysgol.  Gall yr ysgol a ddewisir fod yn ysgol wahanol i'r un addas agosaf oherwydd yr angen i sicrhau parhad mewn addysg neu gyswllt gyda brodyr a chwiorydd neu gyfeillion fel ffordd o hyrwyddo lles. Os felly, darperir trafnidiaeth.

**7. Os daw dysgwr yn 'breswylydd deuol', gan fyw gyda 2 riant (pobl â chyfrifoldeb rhiant) mewn dau gyfeiriad gwahanol, pam felly nad yw'r ysgol a fynychir ganddynt ar hyn o bryd yn cael ei hystyried o bosibl fel yr un addas agosaf mwyach?**

Rhaid ystyried unrhyw newidiadau i gartref arferol dysgwr wrth benderfynu os mai'r ysgol a fynychodd y dysgwr cyn newid cyfeiriad yw'r un addas agosaf o hyd.

Dylid cynghori rhieni os bydd un ohonynt neu'r ddau yn symud i gyfeiriad newydd, gall ysgol wahanol fod yr un addas agosaf ar gyfer eu plentyn. O ganlyniad, gall yr hawl i gael trafnidiaeth rad ac am ddim (os oedd yn ddilys cyn hyn) gael ei dynnu'n ôl. Gellir parhau i gynnig trafnidiaeth ar sail disgresiwn dan adran 6 o'r Mesur yn unol â pholisi trafnidiaeth ac addysg yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn â theithio gan ddysgwyr.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi eu trefniadau a'u polisïau cyffredinol mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr, i gynnwys y ddarpariaeth o drafnidiaeth rad ac am ddim [187]. Argymhellir y dylai'r wybodaeth hon gynnwys yr egwyddor y gall unrhyw newid i gartref dysgwr (gan gynnwys preswyliad deuol) effeithio ar gymhwysedd y dysgwr i gael trafnidiaeth am ddim.

## 8. Beth yw 'Trefniadau Byw Parhaol' o ran dysgwyr preswyliad deuol?

Dim ond trefniadau byw sefydledig parhaol ddylid eu hystyried. Byddai'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, plentyn sy'n aros 2 noson o bob wythnos ysgol gydag un 'rhiant' (unigolyn â chyfrifoldeb rhiant) a thair noson o bob wythnos ysgol gyda'r llall, neu wythnosau bob yn ail gyda phob rhiant. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â chyfnodau pan fydd y plentyn/unigolyn ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant yn unig h.y. yr wythnos ysgol. Nid yw'n berthnasol pan fydd plentyn yn treulio penwythnosau gyda gwahanol riant i le mae'r plentyn yn byw yn ystod yr wythnos ysgol.

Mewn rhai achosion, gallai cartref pob rhiant fod yn agosach na'r pellter cerdded o 2 neu 3 milltir, felly ni fyddai'n ddyletswydd ar awdurdod lleol yn gyffredinol dan adran 3 i ddarparu trafnidiaeth am ddim. Mewn achosion eraill, gallai tŷ un rhiant fod ymhellach na'r pellter cerdded a gallai un fod yn agosach, felly yn gyffredinol, bydd y ddyletswydd dan

[187] Rheoliad 4 o Reoliadau 2009

adran 3 ar waith yng nghyswllt y cartref sy'n bellach i ffwrdd yn unig.

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddysgwr deithio pellter afresymol i fynychu'r ysgol. Dylai pawb dan sylw roi ystyriaeth briodol i'r dewis o'r ysgol addas agosaf at gartrefi'r ddau riant.

**9. A oes gan rieni'r hawl i weld / gwneud cais am gopi o'r asesiad risg, ac os felly, sut ddylent fynd ati i wneud hynny?**

Dan Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, pan gwblheir asesiad risg ar lwybr i'r ysgol, mae gan riant yr hawl i wneud cais am gopi o'r asesiad risg gan yr awdurdod lleol a gwblhaodd yr asesiad dan Ran 2 o Atodlen 1.

I wneud hynny, dylai rhieni gysylltu â'r tîm Cludiant i'r Ysgol yn eu hawdurdod lleol.

**10. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'teithio' a 'thrafnidiaeth'?**

Mae teithio (h.y. Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008) yn cyfeirio at yr holl fathau o deithio gan gynnwys cerdded. Mae trafnidiaeth (h.y. Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011) yn gysylltiedig yn unig â thrafnidiaeth cerbydau ac nid yw'n cynnwys cerdded felly.

**11. Pam bod Deddf Teithio Llesol 2013 yn cyfeirio at lwybrau 'hygyrch' tra bod Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn cyfeirio at lwybrau sydd 'ar gael'. A oes gwahaniaeth ystyr rhwng y termau hyn?**

Diben y Ddeddf Teithio Llesol 2013 yw ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau'n barhaus ar gyfer cerddwyr a beicwyr, gan adnabod llwybrau presennol a rhai i'w defnyddio i'r dyfodol, gan felly hyrwyddo mynediad. Mae Deddf 2013 yn cyfeirio at lwybrau 'hygyrch' gan nad yw'r gwelliannau a gynllunnir wedi eu teilwra i gwrdd

ag anghenion grŵp penodol o bobl ond yn hytrach y cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi bod yn rhaid i lwybr[188] fod 'ar gael' gan mai dysgwyr yw'r defnyddwyr targed (sef plant a phobl ifanc). Defnyddir y llwybr sydd ar gael (neu'r un diogel) gan ddysgwyr sy'n teithio rhwng y cartref a'r ysgol.

## 12. A oes gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg?

Dan ddeddfwriaeth bresennol cludiant i'r ysgol, mae gan ddysgwr yr hawl i gael trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ysgol Cyfrwng Cymraeg os ystyrir gan yr awdurdod lleol mai honno yw'r ysgol addas agosaf ac mae'r dysgwr yn cwrdd â'r meini prawf yn gysylltiedig â'i oedran. Mae gan ddisgyblion cynradd yr hawl i gael trafnidiaeth rad ac am ddim os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf tra bod disgyblion uwchradd yn medru hawlio trafnidiaeth rad ac am ddim os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf.

Mewn achosion lle nad yw dysgwyr yn mynychu eu hysgol addas agosaf, mae awdurdodau lleol yn defnyddio'u disgresiwn i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim[189] i ysgolion Cyfrwng Cymraeg waeth beth yw'r meini prawf pellter, er mwyn hyrwyddo[190] mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg wrth weithredu swyddogaethau dan Fesur 2008, a dylid amlinellu hyn yn eu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

## 13. A yw'r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn berthnasol i Ddysgwyr gydag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?

[188] Adran 3(8) Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
[189] Adran 6 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
[190] Adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio'n berthnasol i ddysgwyr gydag AAA.

Serch hynny, os oes gan ddysgwr anghenion addysgol arbennig mae'n neilltuol o bwysig ystyried beth yw amgylchiadau unigol y dysgwr ac i drafod unrhyw sancsiynau posibl gyda lleoliad dysgu'r dysgwr. Wrth ystyried unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod gan y dysgwr, dylid rhoi sylw i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig a Chylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion i bennu pa sancsiynau a ddylid eu defnyddio i ddelio ag achosion o gamymddwyn.

## 14. A ddylai pob dysgwr sydd ag AAA gael trafnidiaeth un i un?

Nid o angenrheidrwydd. Mae gan awdurdodau lleol ddewisiadau sydd ar gael iddynt i hyrwyddo buddion dysgwyr ac i arbed arian (ond gan barhau i ddarparu trafnidiaeth briodol i ddysgwyr gydag AAA). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Asesu anghenion y dysgwr i benderfynu a oes angen trafnidiaeth arbenigol. Os felly, awgrymir y dylai'r awdurdod lleol ofyn cwestiynau megis:
  - A yw hi'n bosibl ac yn ymarferol i ddysgwr AAA deithio gyda dysgwyr AAA eraill? A oes wir angen darparu trafnidiaeth un i un? Beth fyddai'r manteision i'r dysgwr AAA o deithio gyda chyfoedion? Dylai awdurdodau lleol ystyried a allai dysgwr, gydag addasiadau rhesymol neu beidio, deithio ar drafnidiaeth brif ffrwd arferol. Gall addasiadau rhesymol olygu teithio gyda hebryngwr, defnyddio cadeiriau olwyn i gael mynediad ar fysiau, sicrhau bod y dysgwr yn eistedd wrth ochr neu ar wahân i ddysgwyr eraill fel bo'n briodol ac ati
  - Hyfforddiant Teithio – mae'r rhaglen hon yn rhoi cefnogaeth, cymorth a'r sgiliau i ddysgwyr i'w galluogi i fedru defnyddio trafnidiaeth brif ffrwd yn hyderus ac yn annibynnol

## 15. Beth yw Hyfforddiant Teithio?

Nod Cynlluniau Hyfforddiant Teithio yw rhoi'r sgiliau allweddol a hyder i ddysgwyr AAA iddynt fedru teithio'n annibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Yng Nghymru, er enghraifft, mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu Cynllun Hyfforddiant Teithio. Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant dwys un i un rhad ac am ddim i ddysgu disgyblion AAA sut i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y cartref a'r ysgol.

Wrth weithio un i un gyda hyfforddwr teithio, mae dysgwyr yn cael eu hebrwng i'r ysgol ac yn ôl dros gyfnod o amser nes eu bod yn barod i deithio'n annibynnol. Unwaith y bydd dysgwr wedi cwblhau'r hyfforddiant, rhoddir tocyn bws blynyddol iddynt y gallant ei ddefnyddio ar gyfer llwybrau ysgol yn ogystal â theithiau y tu allan i'r ysgol.

## 16. Beth yw'r trefniadau teithio ar gyfer dysgwr ôl-16 gyda Datganiad AAA?

Mae'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yn datgan y dylai'r ddarpariaeth o drafnidiaeth fod yn Rhan 6 (nad yw'n rhwymo mewn cyfraith ar awdurdod lleol). Os bydd awdurdod lleol yn dyfarnu bod angen trafnidiaeth o'r fath dan amgylchiadau eithriadol gan fod gan blentyn anghenion trafnidiaeth penodol, dylid cynnwys hyn yn y datganiad. Awdurdodau addysg lleol sy'n dal i fod yn gyfrifol am ddisgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol tan eu bod yn 19 oed.

## 17. Beth yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a beth mae'n ei olygu'n ymarferol?

Am y tro cyntaf, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol cydlynol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i Gymru.

Bydd y Ddeddf yn:

- Cryfhau pwerau ar gyfer diogelu plant ac oedolion, fel y gellir diogelu pobl sy'n agored i niwed mewn perygl yn fwy effeithiol
- Sicrhau bod pobl yn cael eu hasesu ar yr hyn sydd ei angen arnynt, yn hytrach na dim ond ar ba wasanaethau sydd ar gael yn lleol
- Cyflwyno asesiadau cludadwy, sy'n golygu os bydd pobl yn symud o un rhan o Gymru i un arall y byddant yn parhau i fod â'r hawl i'w hanghenion gael eu diwallu yn yr ardal newydd ar sail eu hasesiad gwreiddiol tan i asesiad newydd gael ei gynnal
- Hwyluso nifer gynyddol i fanteisio ar daliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth pobl, sy'n golygu y bydd gan bobl fwy o reolaeth dros sut y diwellir yr anghenion hyn
- Cyflwyno Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i nodi'n eglur iawn yr hyn y gall plant a disgyblion ei ddisgwyl gan wasanaethau cymdeithasol, i fesur llwyddiannau ac i weld lle mae angen gwelliannau
- Cyflwyno hawliau cyfatebol o asesiadau i ofalwyr fel y bydd gan bobl sy'n gofalu am rywun fel perthynas neu ffrind hŷn neu anabl yr un hawliau â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a
- Sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i wella canlyniadau i blant sydd angen teulu parhaol

## 18. Sut mae canllawiau statudol 'Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau' a 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' yn effeithio ar Deithio gan Ddysgwyr?

Mae adrannau 25 a 26 Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru ac amrywiaeth o bartneriaid i gydweithredu'n lleol er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol, a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun yn cyflwyno strategaeth yr awdurdod ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau o ran plant a phobl ifanc. Mae adran 27 Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwyr arweiniol ac aelodau arweiniol i fod yn gyfrifol am eu swyddogaethau dan adrannau 25 a 26.

Yn 2006 a 2007, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol dan adrannau 25(8), 26(5) a 27(4) Deddf 2004, sef ‘Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau’ a ‘Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau’. Dylid darllen y dogfennau cyfarwyddyd hyn gyda’i gilydd. Mae’r canllawiau yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol i gydweithredu trwy Bartneriaethau i wella lles plant a phobl ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol.

Disgwylir i bartneriaid lleol, wedi eu harwain gan yr awdurdod lleol (yng nghyd-destun ei swyddogaeth arweinyddiaeth gymunedol) i gydweithio i gyflawni’r newidiadau angenrheidiol i ddiwylliant ac arfer sefydliadol. Cyfrifoldeb y partneriaethau yw cynllunio strategol trwy broffilio’r ddarpariaeth o wasanaethau ar y cyd a nodi angen i gefnogi’r ddarpariaeth integredig o wasanaethau.

Mae’r partneriaethau yn gyfrifol am ddatblygu a chytuno’r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CYPP). Dylai’r cynllun fod yn ddogfen strategol o hyd y gellir ei reoli. Dylai nodi sut y bydd lles plant a phobl ifanc yn yr ardal yn cael ei wella. Bwriad hyn yw:

- Darparu gweledigaeth strategol a nodi’r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a fydd yn llywio gwaith yr holl bartneriaid
- Disgrifio sut y bydd gofynion strategaethau, polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu bodloni’n lleol
- Nodi amcanion y cytunwyd arnynt i wasanaethau a all weithredu fel cerrig milltir i alluogi cynnydd o ran gwella canlyniadau i’w mesur dros yr amserlen gynllunio
- Nodi’r cyfraniad a wneir gan bartneriaid unigol tuag at fodloni amcanion ar y cyd, gan sicrhau eu bod yn gyson ac yn cefnogi ei gilydd
- Darparu sail ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau a rhannu’r cyllid sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau craidd partneriaid statudol ac adnoddau neu gyfraniadau ariannol gan y sector gwirfoddol

Dylid adolygu cynlluniau’n flynyddol a gallent alluogi asesiadau risg o lwybrau a gerddir i gael eu cynnal ac i risgiau gael eu lliniaru fel sy’n briodol.

## 19. Beth yw ystyr Datgelu a Gwahardd gwybodaeth?

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA) wedi uno i greu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwiriadau DBS yw'r enw a roddir bellach ar yr hen wiriadau CRB. Mae dwy swyddogaeth i'r DBS:

a. Datgelu, sy'n chwilio drwy gofnodion yr heddlu a, mewn achosion perthnasol, gwybodaeth a gedwir gan swyddogaeth wahardd y DBS ac yn cyhoeddi tystysgrif DBS i'r ymgeisydd
b. Gwahardd i roi cymorth i ddiogelu grwpiau bregus gan gynnwys plant, rhag y bobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda nhw ac sy'n peri risg o niwed. Gall y DBS ddefnyddio unrhyw wybodaeth ar dystysgrif neu fel arall a gedwir gan y DBS i roi gwybod am ei benderfyniad i wahardd a wneir dan ei bwerau o fewn Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006[191]

## 20. Pa wybodaeth all y DBS ei rhannu / ddim ei rhannu dan yr anghenion presennol o wybodaeth ar Ddatgelu a Gwahardd a sut mae'r DBS yn prosesu data personol?

Yn gyfreithiol mae'r DBS yn gaeth i'r Ddeddf Diogelu Data 1998, ac mae'r gwasanaeth yn amlinellu ei safonau data mewn siarter gwybodaeth bersonol. Pan fydd y DBS yn prosesu data personol, yn ddibynnol ar ei bolisi preifatrwydd mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol:

- Yr unig ddata a gesglir ac a brosesir yw'r hyn sydd ei angen ar y DBS
- Y bobl sydd angen y data i wneud eu gwaith yw'r unig rai fydd yn ei weld
- Cedwir y data cyhyd ag y bydd ei angen
- Mae'r data a gedwir ynglŷn â phobl yn gywir ac yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses y DBS yn unig
- Mae'r penderfyniadau a wneir sydd yn effeithio ar bobl yn cael eu gwneud ar sail data dibynadwy a chyfredol

[191] Polisi Preifatrwydd DBS

- Diogelir y data rhag cael ei ddatgelu heb awdurdod ac yn ddamweiniol
- Ar gais, gall pobl gael copi o'r data a gedwir amdanynt
- Prosesir data mewn perthynas â'r gwasanaeth data drwy hysbysu pobl a chael eu caniatâd yn unig
- Mae gweithdrefn gwyno lawn wedi ei sefydlu

Cedwir data personol gan y DBS yn unig os yw unigolyn wedi gwneud cais am wiriad datgelu, wedi gwneud cais i fod yn gyd-lofnodwr ar gyfer gwiriad datgelu, neu wedi ei gyfeirio at y gwasanaeth gwahardd. Mae gan y DBS fynediad at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ("PNC"), sy'n darparu'r swyddogaeth ddatgelu gyda manylion adnabod sylfaenol megis enw a dyddiad geni'r bobl sydd wedi eu cynnwys ar y PNC. Ar gyfer y swyddogaeth wahardd rhoddir mynediad at fanylion personol a gwybodaeth am droseddau. Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefnau rhannu wedi ei chynnwys yng Nghytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn y ddolen ganlynol: http://www.waspi.org/

## 21. Pwy yw'r bobl sy'n destun gwiriadau DBS a beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau DBS?

Fe'ch cyfeirir at baragraffau 1.106 – 1.116 o'r ddogfen hon ar gyfer gwybodaeth am Drefniadau Datgelu a Gwahardd.

## 22. A ellir rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol adrannau mewn awdurdod lleol neu rhwng awdurdodau lleol dan yr hyn sy'n ofynnol drwy Wybodaeth Datgelu a Gwahardd?

Ym mhob awdurdod lleol, bydd gan wahanol adrannau berchnogaeth dros bolisi diogelu ar gyfer gwahanol grwpiau – er enghraifft, bydd gan yr Adran Addysg berchnogaeth dros bolisi diogelu mewn perthynas â phlant mewn ysgolion; bydd gan yr Adran Iechyd neu Wasanaethau Cymdeithasol berchnogaeth dros bolisi diogelu mewn perthynas â grwpiau bregus, gan gynnwys plant bregus; a bydd gan yr Adran Drafnidiaeth berchnogaeth dros bolisi diogelu mewn perthynas â threfniadau teithio gan ddysgwyr.

O ystyried y posibilrwydd y gallai cyfrifoldebau orgyffwrdd, ceir adegau lle bydd angen i staff o wahanol adrannau weld yr un data i wneud eu gwaith.

Y Ddeddf Diogelu Data yw'r cyfyngiad cyfreithiol ar rannu data. Rhaid i unrhyw waith prosesu neu rannu gwybodaeth gydymffurfio â'r ddeddf hon. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 8 o egwyddorion diogelu data sydd yn rhaid glynu atynt.

Yn yr achos hwn, mae'r cyfrifoldeb o gydymffurfio â'r Ddeddf yn nwylo'r DBS a'r awdurdod lleol gan mai nhw sy'n rheoli'r data. Maent yn penderfynu at ba bwrpas y defnyddir y data yn awr neu i'r dyfodol a sut y defnyddir y data.

Rhaid i'r gwaith o rannu data personol fod yn deg, yn gyfreithlon ac angen cwrdd ag o leiaf un o'r amodau a roddir yn Atodlen 2 ac, mewn achosion o ddata personol sensitif, o leiaf un amod a roddir yn Atodlen 3 o'r Ddeddf.

Rhaid hysbysu'r unigolyn sydd yn destun y data personol bod y data'n cael ei ddefnyddio. Gwneir hyn fel arfer drwy roi gwybodaeth brosesu deg i'r unigolyn sy'n cadarnhau pwy yw rheolwr y data, yn amlinellu pa ddata personol sy'n cael ei brosesu, i ba bwrpas, yn egluro unrhyw waith rhannu ac yn amlinellu hawliau'r unigolyn mewn perthynas â'r data dan sylw.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Diogelu data yn http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents

## 23. Beth yw'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) a'r Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA) a beth maen nhw'n ei wneud?

Roedd VOSA yn asiantaeth weithredol Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU. Caewyd yr asiantaeth ar 31 Mawrth 2014 ac fe'i disodlwyd ers hynny gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau, sydd bellach yn cyflawni'r swyddogaethau a gyflawnwyd gan VOSA gynt. Mae hyn yn cynnwys darparu amrywiaeth o wasanaethau trwyddedu, profi a gorfodi gyda'r nod o wella safonau addasrwydd cerbydau i'r ffordd fawr.

Mae rhagor o wybodaeth am yr Asiantaeth ar gael yn: https://www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-standards-agency

## 24. Pwy yw'r Comisiynydd Traffig a beth yw natur y gwaith?

Ar gyfer Cymru a Lloegr, mae chwe Chomisiynydd Traffig gan gynnwys Comisiynydd ar gyfer Ardal Draffig yng Nghymru (Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr).

Mae Comisiynwyr Traffig yn gyfrifol am drwyddedu a rheoleiddio'r rhai sy'n gweithredu cerbydau nwyddau trwm, bysiau a choetsis a chofrestru gwasanaethau bysiau lleol. Mae Comisiynwyr Traffig dirprwyol yn rhoi cymorth iddynt yn eu gwaith ac maent yn gyfrifol am nifer o ymchwiliadau cyhoeddus.

## 25. Pam bod angen i mi dalu'r awdurdod lleol am y ddarpariaeth drafnidiaeth i gludo fy mhlentyn i'r ysgol?

Dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gall disgyblion ysgolion cynradd sy'n byw mwy na 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf hawlio trafnidiaeth rad ac am ddim ac felly hefyd disgyblion ysgolion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy i ffwrdd.

Os penderfynir nad yw'r llwybr i'r ysgol yn ddiogel, yna ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol hyd yn oed os yw'r pellter o'r cartref i'r ysgol yn llai na'r hyn sy'n briodol i'w oed. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff y dysgwr hawlio trafnidiaeth yn rhad ac am ddim.

Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr nad ydynt yn cwrdd â'r anghenion hyn yn gymwys i gael trafnidiaeth rad ac am ddim. Mae gan awdurdodau lleol bŵer yn ôl disgresiwn dan adran 6 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim neu gymhorthdal i ddysgwyr nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf. Lle ceir cymhorthdal at drafnidiaeth gan awdurdod lleol a bod rhieni'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth hwn, gall yr awdurdod lleol, yn gyfreithlon, godi tâl am y ddarpariaeth hon.

## 26. Faint all awdurdod lleol ei godi am y drafnidiaeth ysgol a ddarperir ganddynt i ddysgwyr nad ydynt yn medru hawlio trafnidiaeth rad ac am ddim?

Pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bŵer yn ôl disgresiwn i ddarparu trafnidiaeth i ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael trafnidiaeth rad ac am ddim, gallant godi tâl am y drafnidiaeth honno.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt o oed ysgol gorfodol, nid oes cyfyngiad ar yr y swm y gellir ei godi. Mewn perthynas â dysgwyr o oed ysgol gorfodol, os codi'r tâl rhaid gwneud hynny'n unol ag Adran 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 22 o'r Mesur).

Mae hyn yn golygu pan ddarperir trafnidiaeth fel "ychwanegyn dewisol"[192] i ddysgwr o oedran ysgol gorfodol, ni ellir codi tâl oni bai y gwneir trefniadau gyda chytundeb rhiant y disgybl. Gall yr awdurdod lleol godi tâl ar riant y dysgwr[193]. Gallai'r gost i rieni fod yn uwch na'r gost a dalwyd gan yr awdurdod lleol i ddarparu'r "ychwanegyn dewisol".[194]

Efallai y bydd gan ddysgwyr anabl anghenion trafnidiaeth arbennig (neu addasiadau rhesymol) a all olygu cynnydd mewn costau trafnidiaeth. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn atal awdurdod rhag codi tâl am unrhyw addasiadau rhesymol a wnaeth ar gyfer dysgwyr anabl.

Mae hyn yn golygu os bydd y gost o ddarparu trafnidiaeth i ddysgwr anabl yn uwch nag y byddai pe bai'r awdurdod yn darparu trafnidiaeth i ddysgwr nad oedd yn anabl, er enghraifft, os yw'r drafnidiaeth a ddarperir i ddysgwr anabl yn cynnwys yr angen am hebryngwr neu'r defnydd o gerbyd arbenigol, ni all yr awdurdod godi swm uwch am y defnydd o'r cerbyd arbenigol a/ neu'r hebryngwr (neu unrhyw addasiad rhesymol arall) er y gallai'r gost i'r awdurdod lleol fod yn uwch[195].

[192] Adran 455(3) Deddf Addysg 1996 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/455
[193] Adran 456(2) Deddf Addysg 1996 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/456
[194] Gweler adran 456(3) Deddf Addysg 1996.
[195] Gweler adran 20(7) Deddf Cydraddoldeb 2010. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/20

## 27. Sut mae awdurdodau lleol yn delio â phob cais am drafnidiaeth ysgol?

Mae'n ofynnol i rieni gwblhau Ffurflen Gais Trafnidiaeth Ysgol a chynnwys:

- Manylion y dysgwr, gan gynnwys y cyfeiriad cartref (neu le preswyl arferol os yw hynny'n berthnasol)
- Manylion rhiant neu warchodwr y dysgwr
- Y rheswm dros wneud y cais
- Y lleoliad casglu/ safle bws agosaf i'r cartref

Drwy wneud hyn, mae pob cais am drafnidiaeth ysgol yn cael ei wneud ar sail unigol.

Mae'n bwysig bod ffurflenni cais am drafnidiaeth ysgol yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol perthnasol erbyn y dyddiad cau a nodir. Mae hyn yn sicrhau y bydd gan awdurdodau lleol yr amser sydd ei angen i brosesu'r ffurflen ac i roi trefniadau trafnidiaeth addas mewn trefn mewn da bryd.

## 28. Beth yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009?

Mae'r Mesur yn rhoi sail statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer creu cwricwla lleol sy'n cynnwys ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a chyfleoedd i ddysgwyr.

Gellir cynnig y cyrsiau ar wahanol safleoedd sy'n golygu'r angen i ddysgwyr deithio'n ychwanegol un ai ar gychwyn neu ddiwedd y diwrnod ysgol neu yn ystod y diwrnod.

Nid yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 na'r darpariaethau statudol a amlinellir yn y ddogfen hon yn weithredol ar gyfer darpariaeth teithio a thrafnidiaeth sydd eu hangen yn ystod diwrnod ysgol o ganlyniad i Lwybrau Dysgu 14-19

**29. Beth yw'r gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer gorfodi sancsiynau'r Cod Ymddygiad wrth Deithio?**

Rhoddir y gweithdrefnau perthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd yng nghanllaw statudol y Cod Teithio. Gellir gweld y canllaw drwy glicio'r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/tbcstatutoryguidance/?lang=cy

Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn os ceir digwyddiad yn cynnwys nifer o gamau i sicrhau y bydd y digwyddiad yn cael sylw teg a phriodol.

Gall fod achosion lle bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol dysgwr yn peryglu bywyd ac yn achosi difrod troseddol – er enghraifft, mewn achosion lle bydd tanau yn cael eu cynnau ar fysiau wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol. Mewn achosion o'r fath, bydd y drefn sancsiynu a nodir yng nghanllaw statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn annigonol i ddelio â natur ddifrifol y digwyddiadau hyn. Bydd yn rhaid i weithredwr y bysiau a/neu'r awdurdod lleol gyfeirio'r mater i'r Heddlu iddyn nhw ymchwilio a phenderfynu ar weithred briodol.

Dylai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) fod ynghlwm yn unig wrth ymchwilio digwyddiad traffig ffordd lle mae'r Heddlu'n medru dangos y bu methiant difrifol mewn rheoli yn ffactor sylweddol. Yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA), sydd yn dyfarnu trwyddedau ar gyfer llwybrau bysiau, ddylai roi sylw ar y cwestiwn a yw cwmnïau bysiau yn gweithredu'n ddiogel, gan mai nhw sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd ar faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth teithwyr.

Mae adnoddau addysgu, y gellir eu defnyddio i addysgu dysgwyr ar y 'Cod Teithio' ar gael yn http://www.travelcode.org/

**30. A oes angen rhoi gwybod i rieni a dysgwyr am y defnydd o deledu cylch cyfyng ar fysiau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr?**

Oes. Lle defnyddir teledu cylch cyfyng, rhaid i rieni a dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwaith recordio'n digwydd.[196] Gellir gwneud hyn drwy ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r ddarpariaeth hon ar becyn (amodau a thelerau) ffurflen gais trafnidiaeth i ddysgwyr yr awdurdod lleol; drwy lythyr i gartref y rhieni; neu drwy roi arwydd ar y drafnidiaeth i ddysgwyr i sicrhau bod rhieni a dysgwr yn ymwybodol o'r ffilmio.

Os na fydd rhieni a dysgwyr yn ymwybodol bod gwaith ffilmio'n digwydd, yna gall unrhyw dystiolaeth a gasglir gan deledu cylch cyfyng mewn digwyddiad neilltuol fod yn annilys mewn erlyniad neu wrandawiad llys yn ddiweddarach.

### 31. Pwy ddylai dysgwyr ei hysbysu am achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol?

Argymhellir bod penaethiaid yn gwneud athrawon yn ymwybodol o aelod(au) priodol o staff y dylai dysgwyr gysylltu ag ef/â nhw i hysbysu am achosion o ymddygiad gwael ar y daith o'r cartref i'r ysgol.

### 32. Beth yw gwybodaeth hygyrch?

Gwybodaeth y gellir ei deall yn hawdd gan y gynulleidfa darged. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys: y ddarpariaeth o wybodaeth mewn ieithoedd eraill megis Cymraeg; gwneud fersiynau ar gael mewn Braille neu brint bras; neu gael dogfen hawdd ei darllen sy'n amlinellu'r pwyntiau allweddol ac sy'n defnyddio darluniau i gefnogi'r ddogfen.

### 33. Beth yw 'trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr' a beth yw'r gwahaniaeth rhwng hyn a thrafnidiaeth i ddysgwyr?

Mae trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr yn cynnwys bysiau, coetsis, bysiau mini a thacsis. Dyma drafnidiaeth a ddarperir neu sy'n cael ei sicrhau gan gorff perthnasol (awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir), yn benodol er mwyn cludo dysgwyr o oed ysgol gorfodol (hynny yw'r rhai rhwng 5-

[196] Dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998

16 oed) rhwng y cartref a'r ysgol. Er diben dysgwyr yn unig y mae trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr. Nid yw'r cyhoedd yn cael defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae gan drafnidiaeth i ddysgwyr ystyr mwy cyffredinol – mae'n cyfeirio at gludo dysgwyr meithrin, y rhai sydd o oed ysgol gorfodol a'r rhai sydd mewn addysg ôl-16. Gallai'r drafnidiaeth fod yn fysiau trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr, bysiau gwasanaeth cyhoeddus neu fathau eraill o gerbydau (coetsis, bysiau mini, tacsis ac ambiwlansiau preifat).

**34. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bysiau teithio penodedig i ddysgwyr a bysiau gwasanaeth a ddefnyddir gan ddysgwyr?**

Darparwyd bysiau teithio penodedig i ddysgwyr neu eu sicrhau gan gorff perthnasol yn benodol er mwyn cludo dysgwyr o oed ysgol gofynnol rhwng y cartref a'r ysgol.

Gellir defnyddio bysiau gwasanaeth i gludo dysgwyr rhwng y cartref a'r ysgol ond fe'u defnyddir hefyd i gludo teithwyr cyhoeddus sy'n talu am y daith ar yr un llwybr gwasanaeth.

**35. Pam nad yw'r gofyniad i ffitio gwregysau diogelwch i bob sedd deithiwr erbyn 1 Hydref ond yn berthnasol i fysiau teithio penodedig i ddysgwyr, gan gynnwys bysiau gwasanaeth a ddefnyddir ar gyfer teithio penodedig i ddysgwyr, ac nid i bob bws?**

Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod y meysydd pwnc y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu deddfu, yn ogystal â'r eithriadau i'r meysydd pwnc cyffredinol hynny. Mae'r cymhwysedd cyfreithiol a roddir mewn perthynas â thrafnidiaeth yn caniatáu'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â thrafnidiaeth benodedig i ysgolion a all gynnwys bysiau, coetsis, tacsis a cherbydau a logir yn breifat megis bysiau mini. Gall y Cynulliad beidio â deddfu mewn perthynas â cherbydau gwasanaeth cyhoeddus. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw cynnig polisïau mewn perthynas â cherbydau gwasanaeth

cyhoeddus a chyfrifoldeb Senedd y Deyrnas Unedig i gymeradwyo'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### 36. Mae fy mab yn mynd i'r ysgol ar fws nad yw wedi ei ffitio â gwregysau diogelwch. A yw hyn yn gyfreithlon?

Mae'n dibynnu ar ba fath o fws a ddefnyddir i gludo'r plentyn i'r ysgol.

Mae'n ofynnol gan y Mesur bod pob bws a ddarperir neu a sicrheir gan y corff perthnasol ac a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth benodedig o'r cartref i'r ysgol angen cael gwregysau diogelwch wedi eu ffitio ar bob sedd deithiwr erbyn 1 Hydref 2014. Bydd angen i fysiau gwasanaeth, a ddefnyddir am unrhyw reswm fel trafnidiaeth benodedig o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr (hyd yn oed os na fydd y rhan helaeth o'r teithiau ar lwybrau gwasanaeth trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr), hefyd yn gorfod cael gwregysau diogelwch wedi eu ffitio erbyn 1 Hydref 2014.

**Nid yw'r** ddarpariaeth yn cynnwys bysiau gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddir gan ddysgwyr gyda thocynnau bysiau a brynwyd gan yr awdurdod lleol, hyd yn oed os yw'r llwybr yn cael ei ddefnyddio fwyaf gan ddysgwyr sy'n teithio i'r ysgol neu i'r coleg ac yn ôl. Y rheswm am hyn yw nad yw'r bws yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo dysgwyr yn unig a gall y cyhoedd wneud defnydd o'r gwasanaeth hefyd.

Bydd angen i fysiau deulawr a ddefnyddir fel trafnidiaeth benodedig i ddysgwyr o'r cartref i'r ysgol gael gwregysau diogelwch wedi eu ffitio i bob sedd deithiwr yn yr un modd â cherbydau un llawr.

### 37. Sut alla i gael plant i wisgo gwregysau diogelwch?

Mae nifer o ffyrdd o annog a pherswadio plant i wisgo gwregysau diogelwch, er enghraifft:

- Cyflwyno rhaglen o hyfforddiant ac addysg mewn ysgolion ledled Cymru – gellid cael athrawon i ddysgu'r rhaglen, neu

swyddogion perthnasol o'r awdurdod lleol a gellid cynnwys pethau fel cwis, gemau, DVDs a chwarae rôl
- Gall ysgolion chwarae rhan wrth annog rhieni i bwysleisio pwysigrwydd a'r angen i wisgo gwregysau diogelwch wrth eu plant – gellid cyflawni hyn drwy gael yr ysgolion i godi ymwybyddiaeth mewn nosweithiau rhieni, gan ymgysylltu â rhieni drwy gyfarfodydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, gyrru taflenni gwybodaeth at rieni neu gynnwys erthygl ar wregysau diogelwch a'r cyfrifoldeb ynghlwm mewn cylchlythyrau ysgol
- Gall disgyblion hŷn weithredu fel swyddogion gan fonitro bod gwregysau diogelwch yn cael eu gwisgo ar drafnidiaeth benodedig a rhoi cymorth felly i orfodi trefniant drwy roi cyfarwyddyd ar lafar i ddysgwyr eraill i wisgo gwregysau diogelwch a chymryd enwau'r rhai sy'n gwrthod
- Mae gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae gydag ysgolion wrth gyflawni'r nod hwn a gallent weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion drwy gynnig swyddogion i fonitro a gorfodi disgyblion i wisgo gwregysau diogelwch ar drafnidiaeth ysgol

**38. Pa wregysau diogelwch dylid eu defnyddio ac angen bod yn eu lle erbyn 1 Hydref 2014 i gwrdd â gofyniad statudol y Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011?**

Ni all Llywodraeth Cymru nodi'n gyfreithiol pa fath o wregys diogelwch y dylid ei ddefnyddio. Defnyddir gwregysau diogelwch ar y rhan fwyaf o fysiau gan gwrdd â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol. Serch hynny, argymhellir gwregys 3-pwynt addas i bob oed yn gyffredinol. Y rhesymau dros gefnogi'r argymhelliad hwn yw:

- Mae'r gwregys 3-pwynt addas i bob oed yn diogelu rhannau uchaf ac isaf o'r corf, wedi ei angori ar dri phwynt o leiaf ac yn cynnwys gwregys ar draws y canol – ac yn ychwanegol gellir symud lleoliad y gwregys ysgwydd yn ddibynnol ar faint y teithiwr

- Mae'r math hwn o wregys wedi ei ganmol yn uchel oherwydd ei effeithiolrwydd a pha mor hawdd yw ei ddefnyddio – mae tafod y gwregys yn ffitio i mewn i'r bwcl, gweithred sy'n hawdd ei wneud ag un llaw ac mae dyfais

tynhau wedi ei chynnwys fel rhan o'r system wregys fel bod unrhyw ddarn llac yn cael ei dynhau'n awtomatig

**39. Beth yw Cyfarwyddeb 2003/20/EC yr Undeb Ewropeaidd a beth yw ei arwyddocâd yn ymarferol?**

Dan y Gyfarwyddeb, mae gofyniad i ddefnyddio gwregys diogelwch pan fydd cerbyd yn symud. Mae hyn yn berthnasol i bob categori ac i bob sedd sydd wedi ei ffitio â gwregys diogelwch (ar wahân i ambell eithriad a ganiateir er mwyn caniatáu i rai gweithgareddau galwedigaethol gael eu cynnal, i sicrhau bod cyfraith a threfn yn cael eu cynnal yn iawn, gwasanaethau diogelwch ac argyfwng, neu i ystyried rhai amodau arbennig mewn rhai mathau o drafnidiaeth). Mae'r defnydd o systemau hyn o wregys diogelwch wedi eu haddasu i faint a phwysau plant wedi dod yn orfodol dan y Gyfarwyddeb.

Mae un rhan arall sy'n weddill o'r Gyfarwyddeb y bydd angen ei chynnwys yn rhan o Ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig gan yr Adran Drafnidiaeth (Llywodraeth y Deyrnas unedig). Mae hyn yn ymwneud â gofyniad i blant oed 3 i 13 wisgo gwregysau diogelwch ar fysiau a choetsis pan ddarperir gwregysau o'r fath.

Nid yw'r Gyfarwyddeb yn nodi bod yn rhaid ffitio gwregysau diogelwch ar bob bws a choets. Nid yw ychwaith yn nodi pa fath o system gwregys dylid ei defnyddio pan fydd gwregysau diogelwch yn cael eu ffitio ar gerbyd.

**40. A oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu trafnidiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion enwadol?**

Os bydd dysgwr yn dymuno mynychu ysgol enwadol sef ei ysgol addas agosaf ac yn cwrdd â'r meini prawf pellter hefyd, yna bydd yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth rad ac am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Os na fydd y meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, nid oes gofyniad cyfreithiol ar awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth

am ddim. Mewn achosion o'r fath, mae'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn fater o ddisgresiwn i awdurdodau lleol.

**41. Pa gymorth ariannol sydd ar gael i dalu/gyfrannu at gostau trafnidiaeth y rhai hynny sydd mewn addysg ôl-16?**

Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg fel cymhelliad i bobl ifanc o gartrefi ar incwm isel i aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser y tu hwnt i gyfnod addysg gorfodol. Mae ar gael i ddysgwyr sy'n mynychu ysgol neu goleg.

Mae Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael i ddysgwyr oed 19 neu'n hŷn sydd mewn Addysg Bellach.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth hefyd i'r myfyrwyr hynny sy'n wynebu caledi, sef y Gronfa Ariannol wrth Gefn a ddosberthir i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

Gall y Lwfans Cynhaliaeth, Grant Dysgu'r Cynulliad a Chronfa Ariannol y Cynulliad gael eu defnyddio, ymysg pethau eraill, i dalu am gostau trafnidiaeth neu i gyfrannu atynt.

Mae sefyllfaoedd lle y bydd colegau lleol a'r awdurdodau lleol perthnasol yn darparu cymorth ariannol ar gyfer teithio i'r rhai sydd mewn addysg ôl-16.

Bydd gan bob awdurdod lleol ei bolisi trafnidiaeth ôl-16 ei hun a chyfrifoldeb y dysgwr neu riant/rieni'r dysgwr fydd gwirio gwefannau awdurdodau lleol unigol am y manylion penodol.

**42. Beth yw polisi teithio i ddysgwyr Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dysgwyr mewn addysg bellach oed 19-25?**

Polisi Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth o drafnidiaeth i ddysgwyr oed 19-25 yn fater o ddisgresiwn i awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Uwch a Phellach yng Nghymru.

## 43. Beth yw'r diffiniad cyfreithiol o "oed ysgol gorfodol"?

Mae Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 (a rheoliadau/Gorchymyn atodol[197]) yn diffinio oed ysgol gorfodol.

Mae plentyn mewn oed ysgol gorfodol pan mae'n cyrraedd 5 oed:

a) ar 31 Mawrth, 31 Awst neu 31 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn benodol, neu
b) os nad ar y dyddiadau hynny, ar y dyddiad agosaf at y dyddiadau hynny yn dilyn ei ben-blwydd/phen-blwydd yn 5 oed

Mae cyfnod oed ysgol gorfodol unigolyn yn dod i ben ar ddiwedd y diwrnod sydd yn ddyddiad gadael ysgol (diwrnod olaf mis Mehefin ar hyn o bryd):

(a) os yw'n cyrraedd 16 oed wedi'r diwrnod hwnnw ond cyn cychwyn y flwyddyn ysgol nesaf
(b) os yw'n cyrraedd 16 oed ar y diwrnod hwnnw, neu
(c) (os nad yw paragraff (a) yn briodol) os mai'r diwrnod hwnnw yw'r dyddiad gadael ysgol, y nesaf yn dilyn ei ben-blwydd/phen-blwydd yn 16 oed

## 44. Beth a olygir yn ymarferol gan feini prawf gordanysgrifio o safbwynt derbyn i ysgol?

Gall rhieni nodi dewis ar gyfer unrhyw ysgol y dymunant i'w plentyn ei mynychu. Os oes gan ysgol fwy o geisiadau nag a ganiateir, bydd yr awdurdod derbyn yn gosod meini prawf gordanysgrifio ar gyfer yr holl geisiadau yn nhrefn blaenoriaeth. Golyga hyn y bydd yr holl geisiadau'n cael eu rancio a lleoedd yn cael eu cynnig hyd at y nifer a dderbynnir. Os ceir nifer o geisiadau yn erbyn yr un maen prawf gordanysgrifio, gellir defnyddio maen prawf unigol i dorri'r ddadl sef un sy'n seiliedig ar bellter o gartref y disgybl

[197] Gorchymyn Addysg (Cychwyn Oed Ysgol Gorfodol) 1998 (OS 1998/1607) a'r Gorchymyn Addysg (Dyddiad gadael Ysgol) 1997 (OS 1997/1970).

fel arfer. Fel rheol, y disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol fyddai'n cael cynnig y lleoedd sy'n weddill. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau derbyn yn ystyried ffactorau eraill fel y pellter y byddai'n rhaid i ddysgwyr ei deithio i'r ysgol nesaf sydd ar gael a defnyddio'r ffactor hwn fel y prif ffactor ar gyfer pennu lleoedd.

Yn ymarferol golyga hyn y gall disgyblion sy'n byw peth pellter o ysgol gael cynnig lleoedd gan ddod yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth i'r ysgol. Mae Polisi Trafnidiaeth awdurdod lleol yn diffinio meini prawf yn ei ardal mewn perthynas â'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl disgresiwn a ddarperir ganddo.

### 45. Os caf le yn fy newis cyntaf, a gaf i drafnidiaeth?

Gall rhieni ddatgan hoff ddewis ar gyfer unrhyw ysgol a gallant fod yn llwyddiannus yn hynny o beth. Nid yw hyn yn golygu o angenrheidrwydd y bydd eu plentyn yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol rad ac am ddim. Penderfynir ar hyn gan yr awdurdod lleol sy'n diffinio meini prawf cymhwysedd ar gyfer y ddarpariaeth drafnidiaeth yn ôl disgresiwn a ddarperir ganddo o fewn ei Bolisi Trafnidiaeth.

### 46. Pa ystyriaethau ddylai awdurdodau lleol roi sylw iddynt mewn perthynas â darpariaeth teithio i ddysgwyr ôl-16?

Addysg Ôl-16

Wrth asesu pa drefniadau trafnidiaeth sydd eu hangen ar gyfer dysgwyr ôl-16 argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried yr angen i sicrhau bod dysgwyr yn cael digon o gyfle i ddewis rhwng gwahanol sefydliadau lle y darperir addysg a hyfforddiant. Dylai'r dewis digonol hwn gynnwys galluogi dysgwyr i ddewis sefydliad addysg neu hyfforddiant nad yw'r agosaf i'w cartref os bydd ffactorau eraill yn bwysicach, er enghraifft addasrwydd y cwrs. Argymhellir hefyd y dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion y rhai:

- Sydd mewn perygl o ddod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar oed 16 neu 17 neu sydd eisoes yn NEET
- Sydd yn byw mewn ardaloedd neilltuol o wledig lle mae'r seilwaith trafnidiaeth yn fwy cyfyngedig
- Sydd ag incwm isel neu sy'n dod o deuluoedd incwm isel
- Sydd â chryn bellter rhwng y cartref a'r sefydliad addysgiadol neu hyfforddiant – argymhellir y dylai awdurdodau lleol ystyried y pellter sydd angen i unigolyn ifanc ei deithio i gael mynediad at addysg wrth benderfynu ar gymhwysedd cael cymorth gyda thrafnidiaeth. Barn Llywodraeth Cymru yw na ddylai pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig fod dan anfantais yn ariannol gan fod angen iddynt deithio yn bellach o bosibl i gael y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant na'u cyfoedion yn yr ardaloedd trefol. Gallai awdurdodau lleol ystyried ffactorau eraill hefyd , megis effaith anhawster dysgu neu anabledd ar allu unigolyn ifanc i gerdded y daith, a natur (gan gynnwys diogelwch) y llwybr, neu lwybrau amgen, y gellid disgwyl i unigolyn ifanc ei deithio, wrth benderfynu a yw trefniadau trafnidiaeth yn angenrheidiol
- Yr amser a gymerir i deithio i gyrraedd a chael mynediad at sefydliad dysgu gwahanol – argymhellir y dylai pobl ifanc fedru cyrraedd eu sefydliad addysg neu hyfforddiant heb ddioddef y fath straen neu anhawster nes achosi iddynt beidio ag elwa o'r addysg a ddarperir. Er enghraifft, ni ddylai unigolyn ifanc orfod newid bws cyhoeddus nifer o weithiau (neu fath arall o drafnidiaeth) er mwyn cyrraedd sefydliad addysg neu hyfforddiant, os bydd hynny'n achosi taith afresymol o faith. Yn y cyd-destun hwn, bydd awdurdodau lleol angen ystyried pa fath o drafnidiaeth fyddai orau i sicrhau hyd taith sy'n rhesymol. Mae'r arfer orau'n awgrymu y gellid disgwyl i blentyn o oed ysgol uwchradd deithio am 60 munud i'r ysgol, ac eto yn ôl, i gyrraedd y sefydliad addysg. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol osod disgwyliadau tebyg i ddysgwyr ôl-16

## 47. Pwy sy’n gyfrifol am ofal disgyblion sy’n teithio i’r ysgol?

Gall awdurdod lleol, gweithredwr trafnidiaeth ac ysgol oll fod â chyfrifoldeb dan y gyfraith am ofalu am ddisgyblion tra’u bod yn teithio neu pan fyddant yn disgwyl i fynd i gerbyd, neu wrthi’n mynd arno neu’n ei adael. Nid yw’n bosibl darparu canllawiau pendant ar bwy sy’n gyfrifol am ofal disgybl ar unrhyw gam penodol o’r daith rhwng y cartref a’r ysgol gan fod y Llysoedd wedi penderfynu bod cyfrifoldeb yn dibynnu ar ffeithiau achos (er enghraifft, pwy oedd yn gyfrifol am achos y digwyddiad - fel diffyg ym mheiriant y bws, neu ddiffyg yn y ffordd neu ymddygiad disgybl).

Mae Mesur 2008 (adrannau 3(5) a 4(6)) bellach yn nodi nad yw trefniadau teithio yn addas os ydynt yn achosi lefelau afresymol o straen, yn cymryd cyfnod afresymol o amser neu nad ydynt yn ddiogel. Yn gyffredinol, felly, dylai awdurdod fod yn fodlon bod trefniadau a gontractiwyd yn ddiogel, bod prosesau ar waith i fonitro contractau, ac y cymerir camau prydlon i ddatrys problemau. Argymhellir bod awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau ac ysgolion yn ystyried ar y cyd y risgiau sy’n gysylltiedig â phwyntiau mynd ar fws a dod oddi arno neu yn uniongyrchol y tu allan i safle’r ysgol.

Darperir canllawiau ar asesu risg contractau gwasanaeth ysgol penodedig yn Fframwaith Cymru Gyfan ar Asesu Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol Llywodraeth Cymru.[198]

## 48. Pa brosesau a ddylid eu rhoi ar waith ar gyfer mynd ar fws a dod oddi arno?

Gall mannau ymuno â cherbyd a’i adael fod yn beryglus gan y gallant fod yn brysur, yn gyfyng ac ar ffyrdd yn hytrach na safle’r ysgol. Bydd ceir preifat yn aml yn cyrraedd neu’n gadael ar yr un pryd ac efallai y byddant yn rhannu neu’n teithio drwy’r ardal ymuno â cherbyd a’i adael. Gallai’r risg gael ei waethygu gan efallai na fydd disgyblion mor ymwybodol o’r peryglon ag oedolion. Mae damweiniau yn fwy tebygol os nad yw disgyblion yn cael eu goruchwylio’n

[198] http://wales.gov.uk/topics/transport/?lang=cy

briodol naill ai oherwydd peryglon traffig neu oherwydd gwasgu wrth fynd ar fysiau neu ddod oddi arnynt.

Argymhellir bod awdurdodau lleol, ysgolion a gweithredwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal asesiadau risg a chymryd camau dilynol i sicrhau:

- Bod lefelau goruchwyliaeth priodol o fannau ar dir yr ysgol lle mae disgyblion yn ymgynnull cyn mynd ar y bws a dod oddi arno
- Bod lefelau priodol o oruchwyliaeth o gilfannau bysiau lle mae disgyblion yn ymgynnull oddi ar y safle i fynd ar wasanaethau trafnidiaeth neu ddod oddi arnynt
- Bod marciau ffordd eglur ar gyfer mannau mynd ar y bws
- Bod cerddwyr a cherbydau yn cael eu gwahanu, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol
- Bod mannau croesi diogel a
- Bod mannau mynd ar y bws a dod oddi arno yn cael eu cadw'n rhydd o rwystrau

Darperir cyngor ar sut i gynnal asesiad risg trafnidiaeth ysgol, gan gynnwys mynd ar fysiau a dod oddi arnynt, yn Fframwaith Cymru Gyfan ar Asesu Risg Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2009[199]. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar asesiadau risg yn gyffredinol, ac ar "Workplace Transport Safety".[200]

Argymhellir bod awdurdodau lleol, ysgolion a gweithredwyr yn cydweithio i sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n rheolaidd a bod gweithdrefnau eglur ar waith i ysgolion, rhieni, disgyblion a gweithredwyr trafnidiaeth hysbysu am broblemau neu bryderon. Dylai'r rhain gael eu gwerthuso'n brydlon a dylid cymryd camau priodol yn gyflym.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn arfer da i benaethiaid sicrhau bod goruchwyliaeth o ddisgyblion sy'n mynd ar fysiau neu'n dod oddi arnynt, boed ar, y tu allan neu gerllaw safle'r ysgol. Bydd lefel yr oruchwyliaeth yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac oedran y disgyblion. Dylai'r

[199] http://wales.gov.uk/topics/transport/?lang=cy
[200] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg136.htm

pennaeth gysylltu â'r awdurdod ar unwaith am unrhyw bryderon neu faterion iddo gael ei hysbysu amdanynt.

## 49. Sut ellir mynd i'r afael â gorlenwi ar fysiau?

Bydd cynllun y bws yn penderfynu ar nifer y teithwyr sy'n eistedd ac yn sefyll a nifer y lleoedd i gadeiriau olwyn sydd ar gael. Mae'n rhaid arddangos arwydd yn hysbysu'r teithwyr am y nifer lleoedd hon ar y bws. Nid yw cofrestriadau gwasanaeth yn nodi'r rhifau hyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus na thrafnidiaeth ysgol benodedig. DVSA sy'n gyfrifol am ddarparu cymeradwyaeth i fathau o gerbydau. O ran bysiau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth dysgwyr benodedig, bydd contract yr awdurdod lleol gyda'r gweithredwr yn nodi nifer y seddi. O 1 Hydref 2014, bydd angen i'r contractau hyn gynnwys y ffaith bod yn rhaid i fysiau dysgwyr penodedig gynnwys gwregysau ar bob sedd hefyd.

Cyfrifoldeb gyrwyr bysiau yw penderfynu a yw bws yn llawn ac i wrthod derbyn rhagor o ddisgyblion. Dylai'r gyrrwr neu'r unigolyn arall sy'n goruchwylio disgyblion yn mynd ar y bws ac oddi arno archwilio tocynnau bws ar gyfer pob taith. Bydd tocyn blynyddol â llun yn golygu y bydd yn rhwydd nodi disgyblion sydd â hawl i deithio. Os bydd disgyblion nad oes ganddynt hawl i deithio ar fws yn mynd arno mae'n fwy tebygol y bydd yn gorlenwi. Gallai awdurdodau ystyried sefydlu rheol 'dim tocyn, dim teithio', er bod angen dull synnwyr cyffredin. Dylai fod gan awdurdodau lleol ac ysgolion system ar waith i ymdrin â chamgymeriadau dilys (e.e. y defnydd o docyn undydd brys) i osgoi gadael plant sydd wedi anghofio neu golli eu tocynnau ar ôl.

Wrth wneud trefniadau cludiant, dylai awdurdodau lleol ystyried disgyblion sy'n cludo offerynnau cerdd neu offer chwaraeon mawr. Mae digon o le i'r rhain yn bwysig o safbwynt diogelwch a hefyd fel nad yw disgyblion yn cael eu hatal rhag dilyn y diddordebau hyn oherwydd yr anhawster o deithio gydag eitemau o'r fath.

**50. Beth sy'n digwydd os bydd dysgwr yn sâl / yn absennol o'r ysgol ac nad oes angen trafnidiaeth dysgwr arno ar gyfer y diwrnod(au) hwnnw y mae'r dysgwr yn absennol- a ddylai rhieni/ gwarcheidwaid hysbysu'r ysgol a thîm trafnidiaeth yr awdurdod lleol am absenoldeb eu plentyn neu ddim ond yr ysgol?**

Cyn gynted ag y bydd rhiant neu warcheidwad yn ymwybodol y bydd ei blentyn yn absennol o'r ysgol, am unrhyw gyfnod o amser, mae'n ofynnol dan y gyfraith iddynt hysbysu'r ysgol am yr absenoldeb. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i riant hysbysu'r awdurdod lleol am absenoldeb posibl. Fodd bynnag, os bydd dysgwr yn derbyn darpariaeth drafnidiaeth a drefnir gan yr awdurdod lleol, a bod yr absenoldeb yn golygu nad oes angen y drafnidiaeth hon ar y dysgwr am gyfnod penodol o amser, mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod rhieni yn hysbysu tîm trafnidiaeth yr awdurdod lleol cyn gynted ag y byddant yn gwybod na fydd angen y drafnidiaeth (ar yr un pryd ag y byddant yn hysbysu'r ysgol fel rheol).

Trwy wneud hynny, gall awdurdodau lleol sicrhau nad yw darpariaeth drafnidiaeth, fel tacsis, bysiau mini ac ati, yn cael eu hanfon allan yn ddiangen (yn enwedig os yw'n golygu casglu'r dysgwr o leoliad lle nad oes dysgwyr eraill yn cael eu casglu hefyd). Nid yn unig y mae hyn yn lleihau gwariant cyhoeddus diangen ar wasanaethau trafnidiaeth nad oes eu hangen, ond gallai hefyd helpu i leihau ôl-troed carbon yr awdurdod lleol gan sicrhau budd i'r amgylchedd.

**51. Pa drefniadau trafnidiaeth a ddylid eu rhoi ar waith i ddysgwyr sy'n symud ardal awdurdod yn ystod eu blynyddoedd TGAU ('hollbwysig')[201]?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oes unrhyw ddull polisi cyson wedi ei fabwysiadu gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer pan fydd dysgwr yn symud tŷ / ardal awdurdod lleol yn ystod eu blynyddoedd hollbwysig mewn addysg (TGAU).

[201] 'Blynyddoedd hollbwysig' yw dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yr ysgol uwchradd.

Ar hyn o bryd, mae polisïau rhai awdurdodau lleol yn datgan os bydd dysgwr (sydd wedi dechrau TGAU) yn symud tŷ a bod ei gartref newydd mewn awdurdod lleol cyfagos, er mai nad ei ysgol gyfredol yw'r ysgol addas agosaf mwyach, y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddarparu trafnidiaeth am ddim i'r dysgwr i'r ysgol mae'n ei mynychu ar hyn o bryd yn ystod ei astudiaethau TGAU (cyn belled ag y bo'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf pellter a bod yr ysgol mewn ardal awdurdod lleol cyfagos). Trwy wneud hynny, ni amherir ar 'flynyddoedd hollbwysig' astudiaethau'r dysgwr. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol eraill yn mabwysiadu'r dull polisi hwn ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau y defnyddir dull polisi cyson ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn mabwysiadu'r un dull polisi. Felly os bydd dysgwr wedi dechrau ei astudiaethau TGAU ac yna'n symud tŷ/ ardal awdurdod yna, cyn belled â'i fod yn symud ar ôl gwyliau hanner tymor mis Hydref ei flwyddyn gyntaf o astudiaethau TGAU (Blwyddyn 10), bydd yr awdurdod lleol lle mae cartref newydd y dysgwr wedi ei leoli yn talu'r costau teithio gan alluogi'r dysgwr i barhau ei astudiaethau yn yr un ysgol/ sefydliad addysg y mae'r dysgwr yn ei fynychu ar hyn o bryd.

**Atodiad 1**

**MATRICS ASESU RISG**

<table>
<tr><td colspan="2">Manylion y dysgwr<br><br>• Enw<br>• Oedran<br>• Enw’r ysgol</td><td colspan="3">Manylion cydymaith<br><br>• Enw<br>• Perthynas i’r dysgwr</td></tr>
<tr><td colspan="5">Llwybr – A i B</td></tr>
<tr><td></td><td>Difrifoldeb y Risg*</td><td>Lefel y Risg **</td><td>Mesurau Rheoli</td><td>Risg Wedi ei Liniaru ***</td></tr>
<tr><td>Pryderon y dysgwr<br>• Materion personol<br>• Materion lleol<br>• Mannau problemus<br>• Trafnidiaeth arall<br>• Problemau</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Lefelau traffig</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Manylion llwybrau troed</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Troetffyrdd</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Mannau croesi</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>• Afonydd<br>• Camlesi</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Ffosydd<br>• Arglodiau<br>• Llystyfiant | | | | |
| Golau | | | | |
| Effeithiau cynllunio | | | | |
| Peryglon cymdeithasol | | | | |

*Graddfa o 1 isel iawn → 5 uchel iawn
** Tebygolrwydd (graddfa o 1 → 5) wedi ei luosi yn ôl difrifoldeb
*** Tebygolrwydd (graddfa o 1 → 5) ar ôl rhoi'r mesur rheoli ar waith wedi ei luosi yn ôl difrifoldeb

**Atodiad 2**

**Rhestr Wirio Asesu Risg Awdurdodau Lleol**

| **Cyn cynnal Asesiad Risg, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
|---|
| • I ba gategori mae'r risgiau/peryglon yn perthyn? A yw'r risgiau/peryglon yn ffisegol, yn dopograffig, yn ddaearyddol, yn amgylcheddol neu'n gymdeithasol? |
| • Pryd aseswyd risg y llwybr ddiwethaf? |
| • Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r llwybr ers yr asesiad risg diwethaf? (Sylwer: Dylai cofnodion nodi unrhyw newidiadau, fel gwaith adeiladu; newidiadau i seilwaith; cyflwyno mesurau gostegu traffig; datblygiadau tai newydd; gwaith ffordd newydd). |
| • A ymgynghorwyd â dysgwyr yn ystod yr asesiad risg diwethaf? Os felly, beth oedd eu safbwyntiau? |
| • Pryd fyddai'r amser delfrydol i gynnal asesiad risg o'r llwybr dan sylw?<br>(Sylwer: Fel rheol, yr amser gorau fyddai pan fo dysgwyr yn defnyddio'r llwybr – hynny yw, yn y bore ar y ffordd i'r ysgol a/neu yn y prynhawn pan fydd dysgwyr yn mynd adref) |
| • O ran peryglon cymdeithasol, pwy yw'r sefydliadau/asiantaethau partner perthnasol? |
| **Yn ystod y broses Asesu Risg, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
| • A hoffai'r dysgwyr/rhieni/unigolion sy'n arfer cyfrifoldeb rhieni fynd gydag Asesydd Risg yr awdurdod lleol yn ystod yr asesiad risg?<br>(Sylwer: Mae hyn yn aml yn galluogi dysgwyr/rhieni/unigolion eraill i ddangos yn union pam maen nhw'n credu nad yw llwybr yn ddiogel). |
| • A ddylid ymgynghori â dysgwyr (yn enwedig os nad ydynt wedi cael eu hymgynghori o gwbl neu ers amser maith)? |
| • Pa ddulliau a ddylid eu defnyddio i ymgynghori â dysgwyr - er enghraifft Cynghorau Ysgol ac ati.)? |
| • O ran peryglon cymdeithasol, pa fath o dystiolaeth fydd yn cael ei chyflenwi gan y sefydliadau partner perthnasol (yr Heddlu neu'r BLIDPau)? A yw'r dystiolaeth yn ansoddol neu'n feintiol? |
| • Pryd fydd y dystiolaeth (ansoddol neu feintiol) ar gael? |
| • Os ydych yn gweithio gyda sefydliadau partner, a oes protocolau rhannu gwybodaeth wedi eu sefydlu? A yw cyfreithwyr llywodraeth leol wedi cael eu hymgynghori? |

| **Ar ôl Asesiad Risg, dylai awdurdod lleol ofyn:** |
|---|
| • A yw'r dysgwr/rhiant/unigolyn sy'n arfer cyfrifoldeb rhiant yn fodlon? Os nad yw, pam? |
| • A oes angen asesu'r llwybr dan sylw eto? |
| • A yw'r gweithdrefnau cywir ar waith? |
| • A yw'r dystiolaeth sy'n dangos diogelwch y llwybr wedi cael ei chrynhoi fel y gellir ei gwneud ar gael i'r dysgwr/rhiant/unigolyn sy'n arfer cyfrifoldeb rhiant? |

**Atodiad 3:**

**Dolenni gwe cysylltiedig**

**Awdurdod lleol:**

Dyma'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau Trafnidiaeth Ysgol mewn awdurdodau lleol:

Cyngor Bro Morgannwg

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

http://www.blaenau-gwent.gov.uk/education/18101.asp

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

http://www.caerphilly.gov.uk/site.aspx?s=qDAHRXN8cSZ9oLQm4cvwPGFdfG1SCeIA

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=5065

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?cat=6249&doc=23052

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

http://www.merthyr.gov.uk/English/EducationAndLearning/SchoolsAndColleges/Pages/SchoolTransport.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

http://www1.bridgend.gov.uk/services/highways/transport-and-roads-home/public-transport/school-transport.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

http://www.rctcbc.gov.uk/en/transportstreets/schooltransport/schooltransport-policy/schooltransport-policy.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

http://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/Grants/School-travelsupport/Transport-Entitlement.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

http://www.wrexham.gov.uk/english/education/Transport_Policy.htm#criteria

Cyngor Caerdydd

http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2869,3047,3063,5164&parent_directory_id=2865&id=5455&d1p1=1

Dinas a Sir Abertawe

http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=10438

Cyngor Dinas Casnewydd

http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=schools.parentsinfo&contentid=DevXP001620

Cyngor Gwynedd

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=7052&doc=25990&language=1&p=1&c=1

Cyngor Sir Benfro

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=647,867&parent_directory_id=646&id=7551&d1p1=1

Cyngor Sir Ceredigion

https://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=9584

Cyngor Sir Ddinbych

https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/education/grants-and-funding/free-school-transport.aspx

Cyngor Sir Fynwy

http://www.monmouthshire.gov.uk/home/education/schools/school-transport/

Cyngor Sir Gaerfyrddin

http://www.carmarthenshire.gov.uk/english/education/schools/schooltransport/pages/schooltransport.aspx

Cyngor Sir Powys

http://www.powys.gov.uk/index.php?id=3064&L=0

Cyngor Sir Y Fflint

http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Transport.aspx

Cyngor Sir Ynys Môn

http://www.anglesey.gov.uk/education/schools/school-travel-support/

## Gwefannau defnyddiol eraill:

### Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Y Comisiynydd Plant

http://www.childcom.org.uk/

Plant yng Nghymru

http://www.childreninwales.org.uk/inyourarea/singleplans/index.html

Draig Ffynci (Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru)

http://www.funkydragon.org/en/

Anabledd Dysgu Cymru

https://www.ldw.org.uk/

Cynghorau Ysgol / Llais Disgyblion Cymru

http://www.pupilvoicewales.org.uk/

Snap Cymru

http://www.snapcymru.org/

Uwch-lysgenhadon (Y Comisiynydd Plant)

http://www.childcom.org.uk/en/super-ambassadors/

Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSCLP)

http://www.schoolbeat.org/en/parents/know-the-programme/national-events/what-is-the-all-wales-school-liaison-core-programme/

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/all-wales-school-liaison-core-programme-evaluation-report/?lang=cy

Y Cod Teithio (adnoddau addysgu)

http://www.travelcode.org/

**Arfer gorau ac Astudiaethau achos:**

Ffydd mewn Addysg (Cymru)

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/religiouseducation/?lang=cy

Dysgu Cymru (Gwella Ymddygiad a phresenoldeb)

http://learning.wales.gov.uk/improvementareas/behaviourandattendance/?lang=en#/improvementareas/behaviourandattendance/?lang=cy

Dysgu Cymru (AAA)

http://learning.wales.gov.uk/resources/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

Living Streets

http://www.livingstreets.org.uk/

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)

http://www.pavo.org.uk/home.html

Sustrans

http://www.sustrans.org.uk/wales

Tendro contractau trafnidiaeth teithwyr ar y ffordd – canllawiau arfer gorau

https://www.gov.uk/government/publications/tendering-road-passenger-transport-contracts-best-practice-guidance

Hyfforddiant Teithio

http://www.traveline-cymru.info/uploads/TravelPlans/SMART_TRAINING_-_ENGLISH.pdf

http://www.welshcontactcentreforum.co.uk/admin/content/files/SWITCH/Smart%20Travel%20Training%20presentationWWACC.pdf

http://www.wlga.gov.uk/stp08-cardiff-council

**Teithio Diogel:**

Arriva Cymru (Addysgu Plant)

http://www.arrivatrainswales.co.uk/EducatingChildren/

Network Rail (diogelwch croesfannau rheilffordd)

http://www.networkrail.co.uk/level-crossings/using-level-crossings/

**Cynlluniau Teithio i'r Ysgol**

http://www.gettravelwise.com/business-education/schools/benefits-of-school-travel-plans

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/sharingpip/waspi/?lang=cy

http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=702